RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
20/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
11 EBRILL 2019

# Gwerthusiad o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

## Adroddiad 3: Adroddiad Gwerthuso Interim

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83876-045-8

Gwerthusiad o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau
Adroddiad 3: Adroddiad Gwerthuso Interim

Endaf Griffiths, Wavehill
Dyfan Powel, Wavehill
David Parker

wavehill
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru na Chyngor Celfyddydau Cymru o anghenraid.

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

David Roberts

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5485

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

1. Cyflwyniad ..... 6
2. Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1) ..... 14
3. Canfyddiadau gwaith maes Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ..... 22
4. Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg ..... 69
5. Cronfa Profi’r Celfyddydau ..... 101
6. Parth Dysgu Creadigol ..... 107
7. Casgliadau ac argymhellion ..... 114

Atodiad 1: Mwy o fanylion ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1) ..... 129

Atodiad 2: ..... 133

Atodiad 3: Offer gwerthuso ..... 137

**Rhestr o ffigurau**


Ffigur 2.1: Nifer yr ysgolion â statws Ysgol Greadigol Arweiniol, fesul blwyddyn academaidd ....... 17
Ffigur 2.2: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1, 2 a 3, fesul rhanbarth ....... 18
Ffigur 2.3: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1, 2 a 3, yn ôl ysgol gynradd ac uwchradd ....... 19
Ffigur 2.4: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – Ysgolion Creadigol Arweiniol a phob ysgol yng Nghymru ....... 20
Ffigur 2.5: Cyfrif o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol fesul categori cymorth ysgolion yn ystod y flwyddyn y cychwynnodd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ....... 21
Ffigur 3.1: Adborth ar reoli a chyflawni'r Ysgolion Creadigol Arweiniol (athrawon) ....... 23
Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018 ....... 23
Ffigur 3.2: Barn Athrawon ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ....... 25
Ffigur 3.3: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Cylch 2 yn Gyfan ....... 27
Ffigur 3.4: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth CSC ....... 28
Ffigur 3.5: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth ERW ....... 28
Ffigur 3.6: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth EAS ....... 28
Ffigur 3.7: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth GWE ....... 28
Ffigur 3.8: Sylwadau ansoddol ar yr effaith ar ddisgyblion: Cylch 2 Blwyddyn 1 ....... 36
Ffigur 3.9: Sylwadau ansoddol ar yr effaith ar ddisgyblion: Cylch 2 Blwyddyn 2 ....... 37
Ffigur 4.1: Gweithgareddau'r rhwydweithiau a'r athrawon/artistiaid yr ymgysylltwyd â hwy: 2016/17 ....... 83
Ffigur 4.2: Cyfranogwyr sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ....... 84
Ffigur 4.3: Beth yw eich barn ar... o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael a 5 yn rhagorol)? ....... 92
Ffigur 4.4: Pa rai o'r gweithgareddau canlynol ydych yn ymwybodol bod eich Rhwydwaith Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg yn eu cynnal? ....... 93
Ffigur 4.5: (Os na) A fyddai gennych ddiddordeb yn... ....... 94
Ffigur 5.3: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – Grantiau Cronfa Profi'r Celfyddydau a phob ysgol yng Nghymru ....... 105
Ffigur 5.4: A ydych yn ymwybodol o Gronfa Profi'r Celfyddydau? (Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol) ....... 106
Ffigur 6.1: Nifer golygon tudalennau / nifer yr ymwelwyr unigryw / adnoddau a welwyd ar y Porth Dysgu Creadigol ....... 111

Ffigur 6.2: Termau chwilio mwyaf poblogaidd yn y PDC ....... 111
Ffigur 6.3: A ydych wedi cael mynediad at y Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb? ....... 112
Ffigur 6.4: Beth fyddai'n eich helpu i wneud y defnydd gorau o'r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb? ....... 113
Ffigur 8.1: Beth ydw i'n ei feddwl am y gwaith rydyn ni'n ei wneud – Blynyddoedd Ysgol 3 a 4 ....... 134
Ffigur 8.2: Sut ydw i'n teimlo amdanaf fy hun yn yr ysgol – Blynyddoedd 3 a 4 ....... 135

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau a gyfrannodd at yr adroddiad hwn. Ni fyddai'r gwerthusiad yn bosibl heb y cyfraniadau hyn. Diolch yn benodol i holl ymatebwyr yr arolygon a drafodir yn yr adroddiad a'r ysgolion, yr athrawon, y disgyblion a'r artistiaid a gyfrannodd at yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| CCE | Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg (sefydliad rhyngwladol sy’n hybu creadigrwydd ymysg plant) |
| CSC | Consortiwm Addysg Canol De Cymru |
| DPP | Datblygu Proffesiynol Parhaus |
| EAS | Consortiwm Addysg De-ddwyrain Cymru |
| ERW | Consortiwm Addysg De-orllewin a Chanolbarth Cymru |
| GwE | Consortiwm Addysg Gogledd Cymru |
| CA 2/3/4 | Cyfnod Allweddol 2/3/4 |
| PDC | Parth Dysgu Creadigol |
| RSA | Y Gymdeithas Frenhinol er Hybu’r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach |
| YCA | Ysgolion Creadigol Arweiniol |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i adroddiad yr Athro Dai Smith ar yr adolygiad o’r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (2013), yn cytuno â’r holl argymhellion a wnaed. Roedd yr ymateb hefyd yn addo datblygu cynllun a fyddai’n cadarnhau’n ffurfiol y rôl ganolog a ragwelai’r adroddiad ar gyfer addysg y celfyddydau yn ysgolion Cymru, gan gyflawni hefyd yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu bryd hynny i sicrhau’r cyfranogiad mwyaf yn y celfyddydau a chydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu i’r celfyddydau a phobl ifanc. Mewn adroddiad dilynol, Dyfodol Llwyddiannus (2015), a ddaeth yn sgil adolygiad annibynnol o drefniadau cwricwlaidd ac asesu yng Nghymru, bu i’r Athro Graham Donaldson hefyd gadarnhau o’r newydd bwysigrwydd creadigrwydd yn natblygiad ein plant a’n pobl ifanc.[1]

1.2 Yr ymateb oedd cyhoeddi Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru 2015–2020. Lansiwyd rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau yn 2015, ac mae’n bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff ei rheoli gan dîm oddi mewn i Gyngor Celfyddydau Cymru, o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi. Caiff ei chefnogi gan fuddsoddiadau cydradd gan gyllid Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a chyllid Llywodraeth Cymru (y Gyfarwyddiaeth Addysg), sy’n gyfanswm o £20m dros bum mlynedd. Cliciwch ar y ddelwedd ar y dde i wylio fideo byr sy’n cyflwyno’r rhaglen.[2]



1.3 Mae’r rhaglen yn cynnwys dau faes o weithgareddau addysgol. Mae Maes 1, Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad drwy greadigrwydd. Y mae’n ymarferiad dwys sy’n golygu bod disgyblion, athrawon, ‘Asiantau Creadigol’ ac ‘Ymarferwyr Creadigol’ yn cydweithio i

[1] Dyfodol Llwyddiannus Llywodraeth Cymru

[2] Os nad yw’r ddolen ar y dde’n gweithio, gallwch wylio drwy glicio ar y ddolen ganlynol neu dorri a gludo’r URL i mewn i’ch porwr: Fideo Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau.

gyflawni dull creadigol o ddysgu. Mae'r rhaglen hon eisoes wedi ymgysylltu â mwy na thraean o'r ysgolion yng Nghymru.

1.4 Mae Maes 2, Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan, yn cynnwys amrywiaeth o wahanol weithgareddau a ddyluniwyd i gynyddu a gwella cyfleoedd i gydweithio rhwng athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth:

a) Sefydlu pedwar o *Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg*, gyda chylch gwaith (ymysg pethau eraill) i ddarparu cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau
b) *Hyrwyddwyr Lleol y Celfyddydau*, wedi'u rheoli gan Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, sydd â'r rôl o hyrwyddo arferion gorau a chynorthwyo eraill i fabwysiadu dulliau tebyg
c) *Cronfa Profi'r Celfyddydau*, sy'n cynnig grantiau i ysgolion a sefydliadau celfyddydol i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol newydd
d) Mae'r *Parth Dysgu Creadigol* wedi'i ddylunio i fod yn ffynhonnell o wybodaeth ar-lein a hwb cydweithio i athrawon, dysgwyr, Ymarferwyr Creadigol, sefydliadau ac ymarferwyr.

**Diben a dull y gwerthusiad**

1.5 Caiff y gwerthusiad ei gynnal gan gwmni ymchwil gymdeithasol ac economaidd Wavehill a'r RSA (Y Gymdeithas Frenhinol er Hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach). Yn fras, ei ddiben yw archwilio dyluniad a chyflawniad rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

1.6 Yn ystod ei hoes, nid yn unig y bydd y gwerthusiad yn asesu effeithiolrwydd y rhaglen mewn perthynas â'i nodau a'i hamcanion gwreiddiol, ond bydd hefyd yn cysylltu'r canfyddiadau â llenyddiaeth sy'n disgrifio effeithiau'r celfyddydau a chreadigrwydd mewn ysgolion. Drwy hyn, bydd yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dysgu a datblygu mewn perthynas ag addysg greadigol ac yn helpu i gyfarwyddo'r ddadl yn y dyfodol ynghylch arferion a pholisïau yn genedlaethol a rhyngwladol.

1.7 Nid yw'r trydydd adroddiad interim hwn yn cwmpasu'r holl elfennau hynny; bydd yn canolbwyntio ar asesu ac adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd yma a dechrau archwilio tystiolaeth o ganlyniadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n dilyn yr adroddiad gwerthuso cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, a'r ail adroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Roedd y cyntaf yn archwilio'r sail resymegol i'r rhaglen ac yn defnyddio Theori Newid[3] i archwilio'r newidiadau (neu'r canlyniadau) a ragwelir ar gyfer rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a sut y gellid eu mesur.[4] Roedd yr ail yn dechrau nodi ac asesu'r cynnydd a wnaed tuag at yr amcanion a'r canlyniadau a ddaw i'r amlwg.[5]

1.8 Ni fydd yr adroddiad yn ceisio gwerthuso gweithgareddau yn erbyn y canlyniadau terfynol; yn hytrach, fel yn yr adroddiad blaenorol, bydd yn darparu manylion yn ymwneud â'r cynnydd a wneir ym Maes 1. Bydd hefyd yn adrodd ar y cynnydd a wneir ym Maes 2, ac yn ei dro yn cyflwyno data ar Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg am y tro cyntaf. Bydd y dadansoddiad, yn arbennig yn yr adran sy'n archwilio Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, yn canolbwyntio ar broses yn ogystal â chyflawni er mwyn nodi gwersi allweddol a chyfarwyddo'r modd y caiff y rhaglen ei rheoli.

1.9 Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y data a ddaeth i'r amlwg ac a gasglwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2017–18. Bydd yr adroddiad yn defnyddio'r data, yn ogystal â data blaenorol, i archwilio'r cynnydd a wneir yn y ddau faes. Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried y data ei hun ac i ba raddau y bydd data o'r fath yn caniatáu ar gyfer cyflwyno tystiolaeth gadarn o ganlyniadau yn y dyfodol.

---

[3] Gall Theori Newid gael ei disgrifio fel map sy'n amlinellu'r pethau (canlyniadau canolradd) y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol.

[4] Mae copi o adroddiad cyntaf y gwerthusiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: [Gwerthusiad Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau Llywodraeth Cymru: Adroddiad Interim Cyntaf].

[5] Mae copi o'r ail adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: [Gwerthusiad Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau Llywodraeth Cymru: Ail Adroddiad Interim].

1.10 Er mwyn cyfarwyddo ac archwilio'r cynnydd, mae'r adroddiad presennol hwn hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar rannu'r hyn a ddysgwyd, arferion addawol wedi'u dilysu, a phrofiadau cadarnhaol y tu hwnt i'r athrawon hynny a fu'n ymwneud â'r rhaglen. Er mai ansoddol yn bennaf yw'r data a ystyrir, mae'r adroddiad yn ceisio nodi enghreifftiau o sut mae'r rhaglen yn fuddiol i staff addysgu, datblygu addysgeg ac, yn sgil hynny, yn fuddiol i ddisgyblion ac ysgolion y tu hwnt i'r rhai sy'n elwa'n uniongyrchol o'r rhaglen.

1.11 Yn benodol, canolbwyntir ar rannu a lledaenu amrywiaeth eang o weithgareddau unigol, ac arferion wedi'u dilysu o dechnegau monitro ac asesu y daw athrawon ar eu traws wrth ymgysylltu â'r naill faes neu'r llall, sy'n ceisio neu yr ystyrir eu bod yn creu newidiadau cadarnhaol yn agweddau neu ymddygiad academaidd y disgyblion.

1.12 Yn benodol, bydd yr adroddiad yn archwilio enghreifftiau o rannu a lledaenu:

- Theori ac ymchwil yn ymwneud â dysgu creadigol.
- 'Arferion wedi'u dilysu', sy'n cyfeirio at yr arferion hynny a gyflwynir gan ddarparwyr allanol yn yr hyfforddiant cychwynnol a ddarperir gan Creative Culture & Education[6] i athrawon sy'n ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Caiff yr arferion eu defnyddio'n eang a'u lledaenu gan y sefydliadau dysgu creadigol arweiniol sy'n darparu'r hyfforddiant. Bydd pob athro sy'n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'u hamlygu i'r un arferion, drwy'r hyfforddiant safonedig a dderbyniwyd cyn cychwyn ar weithgarwch gyda'r ymarferwyr. Dyma'r dulliau sydd wedi'u derbyn a'u dilysu o addysgu a dysgu creadigrwydd.[7]

[6] Sefydliad rhyngwladol yw Creative Culture & Education sy'n darparu hyfforddiant i Asiantau Creadigol ac athrawon a chydlynwyr yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

[7] Mae enghreifftiau o'r 'arferion wedi'u dilysu' yn cynnwys offeryn '5 o Arferion Creadigol y Meddwl', sy'n cael ei ddefnyddio i gofnodi a monitro cynnydd dysgwyr mewn perthynas â chreadigrwydd. Mae'r 'olwyn greadigol' yn enghraifft arall o offeryn 'wedi'i ddilysu', sy'n cael ei ddefnyddio i gynllunio gwersi. Yn gysylltiedig â'r offer hyn y mae'r ddealltwriaeth o 'chwilfrydedd, dychymyg, disgyblaeth, dyfalbarhad a chydweithio' fel agweddau allweddol ar greadigrwydd y dylai'r addysgu ganolbwyntio arnynt.

- ‘Arferion addawol’, sy’n cyfeirio at y rhai sydd, er nad ydynt wedi’u dilysu, yn cael eu hystyried yn elfennau llwyddiannus y daeth athrawon ar eu traws wrth ymwneud â’r rhaglen a’i gweithgareddau cysylltiedig. Yn aml, technegau ar raddfa fach yw’r rhain y mae athrawon yn ystyried eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Mae’n gyffredin iddynt ddod i’r amlwg o brofiad gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, ond y maent, i raddau, yn unigryw i bob gweithgaredd ac ysgol. Nid yw’r rhain o anghenraid yn arferion sydd wedi’u derbyn yn y diwydiant, ac nid ydynt o anghenraid wedi’u cefnogi gan ddata sy’n dangos eu heffaith. Arferion ydynt y mae canfyddiad yn unig eu bod yn cael effaith gadarnhaol.
- Rhannu profiadau yn fwy cyffredinol o ymgysylltu ag artistiaid ac o amlygu i dechnegau addysgu newydd.
- Dulliau o rannu a lledaenu’r hyn a ddysgwyd, arferion addawol a phrofiadau cadarnhaol.

*Data*

1.13 Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd yn y cam hwn o’r gwerthusiad yn cynnwys:

- Arolwg athrawon (n=83) ac artistiaid a sefydliadau celfyddydol (n=79) a fu’n ymwneud â’r rhaglen, yn bennaf drwy Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Roedd 78 o’r 83 o athrawon a ymatebodd (95 y cant) yn dod o Ysgol Greadigol Arweiniol, ac roedd 52 o’r ymatebwyr (67 y cant) yn hunan-nodi eu bod yn gydlynwyr ysgol. Dylai’r canfyddiadau a drafodir isod, felly, gael eu hystyried yn y cyd-destun hwn: mae’r rhan fwyaf o ymatebwyr sy’n seiliedig mewn ysgol yn gydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol neu’n athrawon sy’n gweithio mewn ysgol sy’n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac felly dylai fod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o Ddysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau a’i nodau ac amcanion. Bydd y rhan fwyaf o’r artistiaid a’r sefydliadau celfyddydol hefyd wedi ymwneud â Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau ar ryw bwynt ac felly dylai fod disgwyl bod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o nodau ac amcanion ehangach y rhaglen.

- Datblygwyd pedair astudiaeth achos i ddarparu data ansoddol dyfnach ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cynhaliwyd wyth o astudiaethau achos bach drwy gyfweliadau ffôn ag aelodau staff Ysgolion Creadigol Arweiniol allweddol, ac wedyn datblygwyd pedair o astudiaethau achos hwy a manylach, gan gynnwys ymweliadau dydd a chyfweliadau ag amryw aelodau staff, grwpiau ffocws gydag amryw athrawon yn ogystal â thrafodaethau â disgyblion.

  Yr ysgolion dan sylw oedd:

  - Ysgol Gynradd St Woolos, Casnewydd
  - Ysgol y Moelwyn (Uwchradd), Gwynedd
  - Ysgol Gynradd Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr
  - Ysgol Heol Goffa (Ysgol Arbennig), Sir Gaerfyrddin
- Cynhaliwyd cyfweliadau ‘rheoli strategol’ lled-strwythuredig â staff Llywodraeth Cymru sydd â goruchwyliaeth neu gyfrifoldeb strategol mewn perthynas â chyflawni’r rhaglen ond nad ydynt yn ymwneud yn agos â’r gwaith o’i rheoli o ddydd i ddydd. Cyfwelwyd hefyd â staff Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, yn benodol yr aelodau hynny o staff sy’n ymwneud yn agosach â’r gwaith o reoli a chyflawni’r meysydd o ddydd i ddydd. Cynhaliwyd cyfanswm o 12 o gyfweliadau lled-strwythuredig ag amryw elfennau o dîm rheoli rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, staff Cyngor Celfyddydau Cymru, ac unigolion sy’n ymwneud â chyflawni gwahanol elfennau’r rhaglen.
- Cynhaliwyd ymweliadau dydd â digwyddiadau Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg mewn perthynas â phob un o’r rhwydweithiau. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys cyfweliadau â chydlynwyr a staff y rhwydweithiau, Pencampwyr y Celfyddydau ac athrawon, yn ogystal ag arsylwi’r digwyddiadau eu hunain. Cynhaliwyd cyfanswm o 15 o gyfweliadau â staff y rhwydweithiau, ymarferwyr a Phencampwyr y Celfyddydau.
- Pedwar grŵp ffocws gydag athrawon sy’n ymwneud â’ rhwydweithiau, un i bob rhwydwaith, gydag 8–18 o athrawon ym mhob un.

- Cafodd data monitro ar gyfer y Parth Dysgu Creadigol, Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg a Chronfa Profi'r Celfyddydau ei ddarparu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, a dadansoddwyd y data.
- Darparodd y ffurflenni gwerthuso a lenwyd gan gydlynwyr yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ddata meintiol ac ansoddol, yn ogystal â rhywfaint o ddata hunanasesu ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.
- Roedd data cylch llawn (ysgolion Cylch 2) o offeryn 5 o Arferion Creadigol y Meddwl ar gael i'r tîm gwerthuso am y tro cyntaf. Dyluniwyd yr offeryn hwn yn benodol i werthuso effaith addysgu creadigol ar sgiliau creadigol y disgyblion a gymerai ran yng ngweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

1.14 Roedd data cylch llawn (ysgolion Cylch 2) o'r offeryn (hunan-)effeithiolrwydd hefyd ar gael i'r tîm gwerthuso am y tro cyntaf. Dyluniwyd yr offeryn hwn i werthuso effaith Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar effeithiolrwydd disgyblion a'u hagweddau at yr ysgol a dysgu.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.15 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn cyflwyno'r data ar gyfer Maes 1 mewn perthynas â chyrhaeddiad y rhaglen, a pha mor gynrychioliadol yw'r ysgolion sy'n elwa o'r ymyriad.
- Mae **Adran 3** yn cyflwyno a dadansoddi data gwaith maes. Mae'r adran hon yn cynnwys data o arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid; cyfweliadau rhanddeiliaid a rheolwyr; offer i asesu effaith yr ymyriad ar ddisgyblion; data monitro a data a gyflwynwyd gan ysgolion fel rhan o'u prosesau cynllunio a gwerthuso eu hunain; astudiaethau achos ysgolion yr ymwelodd y tîm gwerthuso â hwy yn ystod y cyfnod hwn o'r gwerthusiad; a data ar effaith yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad disgyblion.
- Mae **Adran 4** yn cyflwyno data a dadansoddiad mewn perthynas â Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg.

- Mae **Adran 5** yn ymwneud â Chronfa Profi'r Celfyddydau.
- Mae **Adran 6** yn canolbwyntio ar y Parth Dysgu Creadigol.
- Yn olaf, mae **Adran 7** yn cyflwyno'r casgliadau y mae modd eu llunio o'r cyfnod hwn o'r gwerthusiad a'r argymhellion a wneir.

## 2. Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)

### Cynnydd Hyd Yma

### Cyflwyniad

2.1 Mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd. Y mae'n ymyriad dwys sy'n golygu bod disgyblion, athrawon, 'Asiantau Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol' yn cydweithio i gyflawni dull creadigol o ddysgu. Mae pob ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a phob ysgol gynradd ac uwchradd wirfoddol a gynorthwyir, gan gynnwys pob ysgol arbennig, yng Nghymru yn gymwys i wneud cais i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol, gan gynnwys cyfleusterau addysgu arbenigol oddi mewn i ysgolion.

2.2 Mae trosolwg o'r broses ymgeisio a'r broses weithredu ar gyfer Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i'w gweld yn Atodiad 1. Ond i grynhoi fan hyn, mae ysgolion yn ymgeisio drwy broses gystadleuol i ddod yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac wedyn yn gweithio gydag 'Asiant Creadigol' i ddatblygu prosiect a fydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer yr ysgol. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio'r rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn. Caiff gweithgarwch dysgu creadigol yr ystafell ddosbarth rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r 'Ymarferydd Creadigol' ei gynnal yn ystod tymor y gwanwyn, a chaiff gwerthusiad myfyriol mewnol o'r gweithgaredd ei gynnal yn nhymor yr haf. Caiff yr ysgolion eu cynorthwyo am ddwy flynedd, gyda strwythur yr ail flwyddyn yr un â strwythur y flwyddyn gyntaf, gyda'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau wedi'u cyfarwyddo gan yr hyn a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf. Bu rhywfaint o oedi yn ymarferol, gyda rhai ysgolion yn symud i amserlen cylchoedd diweddarach, ond at ddibenion y gwerthusiad maent yn aros yn eu cylch gwreiddiol.

2.3 Caiff Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ei gyflawni dros dri chylch, gyda'r ysgolion sy'n rhan o'r cynllun yn cael eu cynorthwyo am ddwy flynedd:

- Cylch 1: blynyddoedd academaidd 2015/16 a 2016/17
- Cylch 2: blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18
- Cylch 3: blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19

2.4 Mae'r cylchoedd hyn yn gorgyffwrdd, felly o fis Medi 2016, bu Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 2 Cylch 1 yn cyd-redeg ag Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 1 Cylch 2. Bydd hyn yn parhau mewn ffordd fel bod, o fis Medi 2017, Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 2 Cylch 2 yn cyd-redeg ag Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 1 Cylch 3.

2.5 Yn ychwanegol at y ddwy flynedd sy'n gysylltiedig â phob cylch, mae blwyddyn ychwanegol wedi'i hychwanegu i'r cylch cyntaf a'r ail gylch yn achos nifer gyfyngedig o ysgolion. Nod y flwyddyn ychwanegol yw cynorthwyo ysgolion i gyflawni rhaglen o gymorth ysgol-i-ysgol yn eu hardal. Caiff y rhain eu galw'n 'feysydd datblygu'.

2.6 Mae 19 o Ysgolion Creadigol Arweiniol o Gylch 1 yn ymwneud â 'maes datblygu' Blwyddyn 3, yn ogystal â 31 o ysgolion ychwanegol a fydd yn gysylltiedig â'r ysgolion hynny, ac yn elwa o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau mewn rhyw ffurf.

2.7 Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd ysgolion Cylch 2 hefyd yn cael eu gwahodd i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y maes datblygu, gyda mwyafswm o chwech o leoedd ar gael ym mhob rhanbarth. I fod yn gymwys, rhaid i'r ysgolion recriwtio ac ymrwymo i gydweithio â mwyafswm o ddwy ysgol nad ydynt wedi ymwneud â'r cynllun hyd yma.

2.8 Nid oedd data ar weithgarwch y maes hwn yn bodoli adeg llunio'r adroddiad hwn. Byddai casglu data ar y meysydd hyn at ddibenion gwerthuso yn cyfarwyddo adroddiadau i'r dyfodol.

*Nifer yr ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy*

2.9 Mae nifer yr ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy yn amrywio yn ystod oes rhaglen ac ar wahanol gyfnodau o'r flwyddyn, wrth i ysgolion ddewis gadael, gohirio neu ymgofrestru ar wahanol adegau. Mae niferoedd yr ysgolion yng

Nghylch 1 a Chylch 2 (278) a gyflwynir ac a ddefnyddir ar gyfer y gwaith dadansoddi yn yr adroddiad hwn yn deillio o'r data hanesyddol ar gyfer yr adroddiad diwethaf, ar sail y dybiaeth na allant newid (gan fod y cylchoedd hyn wedi'u cwblhau). Caiff y niferoedd eu hategu gan niferoedd C1B1 (94) mwy diweddar, a oedd yn gywir adeg cyflwyno eu data gwerthuso diwethaf (7fed Medi 2017). Roedd niferoedd C2B2 (83) wedyn yn gywir ar 19eg Chwefror 2018. Roedd niferoedd C3B1 (239) yn gywir ar 20fed Mawrth 2018. Mae data Cyngor y Celfyddydau yn amrywio ychydig o ran niferoedd yr ysgolion; serch hynny, mae'r ffigurau a gyflwynir fan hyn yn deillio o'r data a ddefnyddir ar gyfer y gwaith dadansoddi yn y bennod hon.[8]

2.10 Wrth gychwyn ar y rhaglen yn 2015, y disgwyl oedd y byddai Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynorthwyo traean o'r ysgolion yng Nghymru (darpariaeth ar gyfer cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn ystod oes y rhaglen o bum mlynedd. Yn 2015 roedd 1,582 o ysgolion cymwys yng Nghymru; y nod, felly, oedd ymgysylltu â 522 o ysgolion.

2.11 Mae'r 278 o ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy yng Nghylchoedd 1 a 2, felly, yn cynrychioli dros 50 y cant o'r targed ar gyfer y cynllun. Ymgysylltwyd â 239 o ysgolion yng Nghylch 3. Er bod hyn yn gyfanswm o 517 gyda'i gilydd, mae nifer yr ysgolion unigryw yn wahanol.

2.12 Nodwyd cyfanswm o 495[9] o ysgolion unigryw a gymerodd ran ac a gwblhaodd y ddwy flynedd lawn o ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, sy'n cynrychioli 95 y cant o'r targed. Mae data Cyngor y Celfyddydau ym mis

[8] Mae niferoedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn wahanol. Mae'r cofnodion fel ag yr oeddynt ym mis Hydref 2018 yn awgrymu bod 128 o ysgolion wedi bod yn rhan o Gylch 1, 151 yn rhan o gylch 2 a 228 yn rhan o Gylch 3. Mae'r dull cyfrif sydd i gyfrif am y gwahaniaethau hyn wedi'i esbonio'n fanwl isod.


[9] Mae'r ffigwr hwn yn wahanol i gyfanswm cyfun y 278 a'r 239 a nodwyd yn 2.11. Mae'r ffigwr hwn o 495 yn cyfeirio at ysgolion unigryw a gwblhaodd y ddwy flynedd lawn o ymyriad. Nodir bod rhai ysgolion a oedd wedi ymgofrestru yng Nghylchoedd 1, 2 a 3 wedi gohirio i amserlen cylch arall ac wedi'u cyfrif fel pe byddent wedi ymgysylltu â'r rhaglen yn y ddau gylch. Er enghraifft, bu i rai ysgolion gwblhau eu gweithgarwch Cylch 1 Blwyddyn 1 yn unol ag amserlen y rhaglen, ond bu iddynt wedyn ohirio i amserlen Cylch 3 Blwyddyn 1 er mwyn cwblhau'r ail flwyddyn o weithgarwch. Serch hynny, fe fyddent yn cael eu cyfri fel pe byddent wedi ymgysylltu â'r rhaglen yn ystod Cylch 2 a Chylch 3. Ymhellach, bu i rai ysgolion sydd wedi'u cyfri fel eu bod yn rhan o Gylch 1, 2 neu 3 roi'r gorau iddi cyn cwblhau eu hymyriad, neu roeddynt heb gwblhau'r holl ddogfennau gwerthuso ar adeg llunio'r adroddiad hwn, ac felly nid ydynt wedi'u cyfrif yn y cyfanswm hwn o 495 o ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn yr ymyriad ac wedi'i gwblhau.

Hydref 2018 yn awgrymu y bydd 70 yn rhagor wedi elwa drwy gyswllt â'r 'maes datblygu'.[10]

2.13 Mae Ffigur 2.1 yn dangos nifer yr ysgolion â statws Ysgol Greadigol Arweiniol fesul blwyddyn, gan ddefnyddio nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer Cylch 3 yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 i ragweld ffigurau 2018/19. Mae'n debygol mai yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 y bu'r faich weinyddol (nifer yr ysgolion i'w cynorthwyo, monitro ac ati) drymaf ar dîm y rhaglen.

2.14 Adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd gweithgareddau ysgolion 'maes datblygu' Blwyddyn 3 wedi'u datblygu ac nid oedd data ar gael mewn perthynas â'r maes newydd. Bydd profiadau'r ysgolion sy'n ymwneud â'r maes hwn felly yn wahanol i'r rhai a elwodd o faes yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Nid yw'r tabl, felly, yn rhoi ystyriaeth i ysgolion Blwyddyn 3 o Gylch 1 (a oedd yn ymgymryd â'u gweithgarwch yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18) na'r rhan a ragwelir ar gyfer ysgolion Blwyddyn 3 o Gylch 2.

**Ffigur 2.1: Nifer yr ysgolion â statws Ysgol Greadigol Arweiniol, fesul blwyddyn academaidd**





[10] Mae data Cyngor y Celfyddydau fel yr oedd ym mis Hydref 2018 yn cyfri bod 498 o ysgolion unigryw wedi cwblhau'r ymyriad. Bu i naw o ysgolion gychwyn yr ymyriad a heb ei gwblhau.

*Dosbarthiad yr ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy*

2.15 Mae Ffigur 2.2 yn dangos pa mor gynrychioliadol yw ysgolion Cylch 1, 2 a 3 (fel cyfanswm) fesul rhanbarth (Consortia Addysg Rhanbarthol). Mae'r bar llwyd yn dangos pa gyfran o'r holl ysgolion yng Nghymru sydd ym mhob rhanbarth, ac mae'r bar coch yn dangos yr un peth ar gyfer Ysgolion Creadigol Arweiniol. Er bod y dosbarthiad yn gymharol debyg i boblogaeth yr ysgolion yng Nghymru, mae'r ysgolion yng Ngogledd Cymru (GwE) a Chanol De Cymru (CSC) wedi'u tangynrychioli, ac mae'r ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru (EAS) wedi'u gorgynrychioli. Os mai'r uchelgais yw i gyfranogiad yn y cynllun gyfateb i ddosbarthiad yr ysgolion yng Nghymru, gallai fod yn briodol cymryd camau i gynyddu nifer yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yng Ngogledd Cymru a Chanol De Cymru.


**Ffigur 2.2: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1, 2 a 3, fesul rhanbarth**




2.16 Mae Ffigur 2.3 isod yn cymharu cyfran yr Ysgolion Creadigol Arweiniol sy'n ysgolion cynradd ac uwchradd â phoblogaeth yr holl ysgolion yng Nghymru. Mae ysgolion cynradd wedi'u tangynrychioli yn y grŵp o Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac mae ysgolion uwchradd wedi'u gorgynrychioli. Mae'r gyfran o ysgolion cynradd wedi cynyddu ers yr adroddiad interim diwethaf, ond mae cyfran yr ysgolion uwchradd wedi disgyn (o 69 y cant i 78 y cant ac o 31 y cant i 22 y cant yn eu trefn). Mae'r data'n awgrymu bod ysgolion uwchradd

yn dal i fod wedi'u gorgynrychioli yn y rhaglen ar draul ysgolion cynradd, ond i raddau llai nag oeddynt ers yr adroddiad diwethaf. Gyda phob cylch wedi'i gyfrif, mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o'r ffigurau terfynol, oni bai y caiff rhagor o ysgolion eu hychwanegu at y rhaglen cyn iddi ddod i ben.

**Ffigur 2.3: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1, 2 a 3, yn ôl ysgol gynradd ac uwchradd**





2.17 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Y mae wedi'i ddylunio i nodi'r ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o sawl gwahanol fath o amddifadedd. O'r herwydd, mae'r Mynegai yn fesur o ddangosyddion amddifadedd lluosog sy'n fesur ar sail ardal ac yn fesur o amddifadedd cymharol. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf yn 2014.[11]

2.18 Mae Ffigur 2.4 yn dangos canran yr ysgolion sy'n cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a phoblogaeth yr ysgolion yng Nghymru gyfan fesul chwartel y Mynegai. Y mae'n dangos cyfatebiaeth agos iawn rhwng dosbarthiad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a dosbarthiad yr holl ysgolion yng Nghymru, gan awgrymu naill ai nad yw amddifadedd yn cael effaith sylwedd ar gyfranogiad yn y cynllun neu bod Cyngor Celfyddydau

[11] Mae gwybodaeth bellach am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i'w gweld fan hyn: [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Llywodraeth Cymru](#).

Cymru wedi canfod ffordd i oresgyn yn llwyddiannus unrhyw rwystrau i gyfranogi y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu.

**Ffigur 2.4: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – Ysgolion Creadigol Arweiniol a phob ysgol yng Nghymru**





2.19 Mae Ffigur 2.5 isod yn nodi categori cymorth[12] yr ysgol yn ystod y flwyddyn y dechreuodd ar ei gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r data'n cynnig dealltwriaeth bellach o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r data fan hyn yn dangos mai ysgolion yn y categorïau cymorth Gwyrdd a Melyn, i raddau helaeth iawn, sy'n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (86 y cant), a phrin iawn yw'r ysgolion yn y categorïau Coch neu Oren sy'n ymwneud â'r rhaglen.

2.20 Y nod a amlinellwyd yn Adroddiad y Theori Newid ar gyfer y rhaglen oedd i'r cynllun sicrhau gwasgariad da o ysgolion o ran categoreiddio. Ymhellach, awgrymodd personél rheoli strategol yn betrus y gallai'r rhaglen gael ei defnyddio fel ffordd i wella ysgolion. Fodd bynnag, nododd staff rheoli'r

[12] Nod y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yw darparu strwythur clir i adolygu pa mor dda mae ysgol yn perfformio. Y mae'n rhoi ystyriaeth i ba mor effeithiol y caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, a'r lefel o gymorth a her sydd ei hangen arni er mwyn gwneud yn well. Caiff ysgolion eu categoreiddio yn ôl lliw: Gwyrdd, Melyn, Oren a Choch. Mae gwyrdd yn cynrychioli'r lefel isaf o gymorth y mae ysgol yn ei derbyn, ac mae'r categori coch yn cynrychioli ysgolion sy'n derbyn y cymorth mwyaf.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael fan hyn: [Canllaw Llywodraeth Cymru i'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion, Llywodraeth Cymru](#).

rhaglen yng Nghyngor y Celfyddydau i'r Consortia Addysg Rhanbarthol gynnig ysgolion i'w dewis a'u bod wedi penderfynu peidio â chynnig llawer o ysgolion yn y categorïau Oren neu Goch. 15 o ysgolion categori Coch (tri y cant) a 51 o ysgolion categori Oren (10 y cant) yn unig a gymrodd ran yn y cynllun.

**Ffigur 2.5: Cyfrif o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol fesul categori cymorth ysgolion yn ystod y flwyddyn y cychwynnodd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**




N=476[13]

[13] Mae'r ffigwr hwn yn is na chyfanswm nifer yr ysgolion am ddau reswm. Yn gyntaf, daethpwyd o hyd i'r data yn ôl-weithredol, wedi i amgylchiadau rhai ysgolion newid (e.e. ysgolion yn uno neu'n cau). Yn sgil hyn, nid oedd data neu ddata hanesyddol ar gael yn achos chwe ysgol. Yn ail, nid oedd modd dod o hyd i ddata hanesyddol ar gyfer ysgolion arbennig adeg llunio'r adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r 476 o ysgolion yn cynrychioli 96 y cant o'r holl Ysgolion Creadigol Arweiniol a nodwyd yn 2.12.

# 3. Canfyddiadau gwaith maes Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

*Ysgogiadau i gymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol*

3.1 Gall deall ysgogiad athrawon ac artistiaid i gymryd rhan yn y cynllun gyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu dulliau i ymgysylltu ag athrawon yn y dyfodol. Mae arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid yn darparu data defnyddiol ar ysgogiadau athrawon ac yn ategu canfyddiadau ansoddol y cyfweliadau a'r astudiaethau achos.

3.2 Derbyniwyd 83 o ymatebion gan athrawon i'r arolwg yn 2018, ac roedd 52 o ymatebwyr (67 y cant) yn hunan-nodi eu bod yn gydlynwyr ysgol. Dylai'r canfyddiadau a drafodir isod, felly, gael eu hystyried yn y cyd-destun hwn: mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr sy'n seiliedig mewn ysgol yn gydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol neu'n athrawon sy'n gweithio mewn ysgol sy'n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac felly dylai fod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'i nodau ac amcanion.

3.3 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos mai'r prif ysgogiadau a nodwyd gan athrawon (n=83) oedd 'diddordeb' yn y pwnc (71 y cant), ac wedyn 'datblygiad proffesiynol' (67 y cant). Roedd yr ymatebion eraill fel a ganlyn: 'gofynnwyd i ni gymryd rhan' (46 y cant) ac 'roedd athrawon eraill yn ei wneud' (saith y cant). Mae'r data yn awgrymu bod datblygu sgiliau mewn addysgu creadigrwydd yn ystyriaeth fawr i athrawon.


3.4 Caiff hyn ei ategu gan ganfyddiadau ansoddol yr astudiaethau achos, gan awgrymu bod y rhan fwyaf o athrawon sy'n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn aml yn ymddiddori mewn dysgu creadigol a datblygiad proffesiynol. Awgrymodd yr astudiaethau achos fod cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus yn gyd-destun allweddol i'r diddordeb mewn dysgu proffesiynol a datblygu addysgeg.

*Adborth ar y broses reoli a chyflawni*

3.5 Yn gyffredinol, cadarnhaol oedd adborth athrawon ar amryw agweddau ar reoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (gweler Ffigur 3.1). Roedd yr ymatebwyr yn benodol o gadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant a gawsant, gydag 80 y cant o'r ymatebwyr yn rhoi ymateb o 'dda' neu 'ragorol'. Roedd yr adborth ar y cymorth a'r arweiniad gan Gyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn gadarnhaol iawn (74 y cant 'rhagorol' neu 'dda'). 51 y cant yn unig a deimlai fod y broses ymgeisio yn 'dda' neu'n 'rhagorol', gan awgrymu llai o foddhad yn hynny o beth; serch hynny, 14 y cant yn unig a deimlai fod y broses yn 'is na'r cyfartalog' neu'n 'wael'. Câi'r farn llai ffafriol ar y broses ymgeisio ei hadlewyrchu yng nghyfweliadau'r astudiaethau achos gydag athrawon a chydlynwyr yn benodol, gan awgrymu bod y broses yn rhy fiwrocrataidd a beichus.

3.6 Caiff hyn ei gadarnhau yn nadansoddiad y data ansoddol o'r astudiaethau achos, er i gymorth yr Asiantau Creadigol gael ei werthfawrogi yn ystod y broses.

**Ffigur 3.1: Adborth ar reoli a chyflawni'r Ysgolion Creadigol Arweiniol (athrawon)**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

3.7 Mewn cyfweliadau, dywedodd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru eu bod wedi ymrwymo i symleiddio'r prosesau ymgeisio a chynllunio. Ni fydd ymatebwyr yr arolwg hwn wedi profi'r broses ddiwygiedig a symlach, ac maent yn cyfeirio at y broses ymgeisio cyn iddi gael ei diwygio, ond bydd data yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf yn cynnig dealltwriaeth o'r broses ymgeisio newydd.

*Rhannu'r hyn a ddysgwyd, arferion addawol a phrofiadau cadarnhaol*

3.8 Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol yn yr arolwg yn ystod y cyfnod gwerthuso hwn i ystyried i ba raddau mae'r dysgu a'r arferion addawol y mae'r athrawon yn eu datblygu drwy weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu rhannu'n ehangach gydag aelodau eraill o staff.

3.9 Yn gyffredinol, roedd 97 y cant o'r athrawon a ymatebodd i'r arolwg hwn wedi rhannu eu gwybodaeth a'u harferion mewn rhyw ffurf, a thri y cant yn unig oedd heb rannu o gwbl.

3.10 O 78 o ymatebwyr, roedd 41 y cant o athrawon wedi rhannu eu harferion ar sail anffurfiol, fel drwy drafodaethau â chydweithwyr. Roedd 32 y cant pellach wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy sesiynau penodol, strwythuredig. Defnyddiwyd diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd gan 18 y cant fel ffordd i rannu eu gwybodaeth, ac roedd chwech y cant pellach wedi rhannu eu harferion a'u gwybodaeth drwy ddulliau eraill.


3.11 Mae'r data yn awgrymu'n gryf bod athrawon yn lledaenu a rhannu'r hyn a ddysgwyd, arferion addawol a phrofiadau cadarnhaol ymysg gweddill y staff addysgu wedi iddynt ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Caiff data ansoddol o ymweliadau'r astudiaethau achos eu harchwilio'n fanwl isod, gan daflu goleuni pellach ar natur rhannu arferion ac effaith hynny ar addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

*Yn gyffredinol*

3.12 Yn yr arolwg, gofynnwyd i'r athrawon fyfyrio ar ag agweddau ehangach ar y rhaglen. Mae Ffigur 3.2 isod yn cyflwyno data o ymatebion athrawon ynglŷn â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Awgryma'r data i lawer o agweddau ar y rhaglen, yn ôl canfyddiad yr athrawon, gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar yr ysgol a'r staff. Roedd gweithio gydag

Ymarferwyr Creadigol yn agwedd ar y rhaglen a groesawyd yn fawr, yn ogystal â'r canlyniadau i'r ysgol, yr athrawon a'r dysgwyr. Serch hynny, nid oedd canfyddiad yr athrawon mor gadarnhaol ynglŷn â'r broses fyfyrio a gwerthuso o gymharu ag agweddau eraill, gan ategu'r sylwadau a wnaed yn ystod cyfweliadau'r astudiaethau achos.

**Ffigur 3.2: Barn Athrawon ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

**Ysgolion Creadigol Arweiniol: Effaith ar ddysgwyr**

3.13 Mae'r adran hon yn archwilio data yn ymwneud ag effaith Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a'i weithgareddau cysylltiedig ar ddysgwyr. Mae'r adran yn ystyried data a gynhyrchwyd gan offeryn 5 o Arferion Creadigol y Meddwl, yr holiaduron hunan-effeithiolrwydd, amryw ffynonellau'n ymwneud â chyrhaeddiad, a chwestiynau holiadur yr Athrawon a'r Artistiaid sy'n ymwneud ag effaith ar gyrhaeddiad addysgol y dysgwyr.

*5 o Arferion Creadigol y Meddwl*

3.14 Dyluniwyd offeryn 5 o Arferion Creadigol y Meddwl[14] i werthuso effaith gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar sgiliau creadigol y disgyblion sy'n rhan o'r cynllun. Nid oedd yr offeryn yn orfodol, ond gwahoddwyd yr holl athrawon a oedd yn ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i gyflenwi data drwy'r offeryn. Y diben oedd darparu data gwerthuso cyffredin er mwyn cael tystiolaeth o effeithiau'r rhaglen, sy'n gweithredu mewn ysgolion ledled Cymru. Dyluniwyd yr offeryn hefyd i ddarparu dadansoddiad llinell-uchaf o'u hymatebion ar unwaith. Mae manylion pellach i'w gweld yn Atodiad 3.

3.15 Noda'r offeryn fod y '5 o Arferion Creadigol y Meddwl' canlynol yn ddangosyddion creadigrwydd:

1. chwilfrydig – meddwl a holi, archwilio ac ymchwilio, herio tybiaethau
2. dyfalbarhaus – goddef ansicrwydd, glynu at anhawster, mentro bod yn wahanol
3. dychmygus – chwarae â phosibiliadau, gwneud cysylltiadau, defnyddio greddf
4. disgybledig – saernïo a gwella, datblygu technegau, myfyrio'n feirniadol
5. cydweithiol – cydweithio'n briodol, rhoi a derbyn adborth, rhannu'r 'cynnyrch' creadigol.

Rhoddai'r athro sgôr ar raddfa o 1–10 i'r gwelliant a wnaed gan ddisgyblion unigol ym mhob categori yn dilyn y gweithgarwch (1 yn golygu dim gwelliant a 10 yn nodi'r gwelliant mwyaf sylweddol). Roedd hyn felly yn farn y daethpwyd iddi gan athrawon unigol, yn seiliedig ar ganllawiau cyffredin. Caiff canlyniadau'r holl ddisgyblion fesul blwyddyn a rhanbarth at ddibenion y gwaith dadansoddi hwn, yn ogystal â chanlyniadau cyfanredol, eu cyflwyno yn y ffigurau isod.

3.16 Mae Ffigur 3.3 yn ystyried yr holl ddata a dderbyniwyd gan ysgolion Cylch 2 ym Mlynyddoedd 1 a 2. Mae hyn yn cynrychioli'r unig ddata cylch 'llawn' sydd ar gael ar adeg llunio'r adroddiad hwn. Derbyniwyd ymatebion ar gyfer 288 o ddisgyblion mewn perthynas â gweithgarwch Blwyddyn 2, a

[14] Mae mwy o wybodaeth i'w gweld fan hyn: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl.

derbyniwyd 93 o ymatebion ar gyfer gweithgarwch Blwyddyn 2. Nid yr un disgyblion, o anghenraid, oedd y rhai yng ngweithgarwch Blwyddyn 1 a gweithgarwch Blwyddyn 2. Gallant fod yn ddwy garfan cwbl wahanol o ddisgyblion, yr un disgyblion, neu gyfuniad o ddisgyblion sydd â phrofiad blaenorol a rhai sydd heb brofiad blaenorol o'r cynllun.

3.17 Awgryma'r data mai canfyddiad yr athrawon yw bod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r 5 o Arferion Creadigol y Meddwl. Mae'n ymddangos bod y gweithgarwch yn cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar allu a pharodrwydd y disgyblion i gydweithio (cydweithio'n briodol, rhoi a derbyn adborth, rhannu'r 'cynnyrch' creadigol).

3.18 Bydd y data yn caniatáu inni gymharu a thracio yng ngwerthusiadau'r dyfodol. Caiff yr offeryn ei hun hefyd ei ddefnyddio gan athrawon i dracio a mesur creadigrwydd oddi mewn i'w dosbarthiadau eu hunain.

**Ffigur 3.3: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Cylch 2 yn Gyfan**

| **Cyffredinol** | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Dychmygus | Cydweithiol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch 2 Blwyddyn 1 (288 o ymatebion) | 6.3 | 6.3 | 6.5 | 6.7 | 6.4 |
| Cylch 2 Blwyddyn 2 (93 o ymatebion) | 5.7 | 6.2 | 6.2 | 6.6 | 6.5 |

3.19 Mae Ffigurau 3.4 i 3.7 yn cyflwyno data o bob rhanbarth consortiwm unigol. Bydd niferoedd is o ymatebion ar gyfer Blwyddyn 2 yn golygu gwyro amlycach oddi wrth y cyfartaledd cyffredinol. Serch hynny, nodwyd effaith penodol o uchel yn rhanbarth CSC yn ystod yr ail flwyddyn, ac mae data EAS yn ystod yr un cyfnod yn awgrymu y cafodd y gweithgarwch lai o effaith. Bu i ERW, wedyn, gofnodi sgorau sy'n gyson uwch na'r cyfartaledd yn y naill flwyddyn a'r llall.

### Ffigur 3.4: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth CSC

| CSC | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Dychmygus | Cydweithiol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch 2 Blwyddyn 1 (100 o ymatebion) | 6.1 | 6.2 | 6.3 | 6.6 | 6.4 |
| Cylch 2 Blwyddyn 2 (20 o ymatebion) | 6.9 | 8.0 | 7.5 | 7.7 | 8.5 |

### Ffigur 3.5: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth ERW

| ERW | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Dychmygus | Cydweithiol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch 2 Blwyddyn 1 (70 o ymatebion) | 7.2 | 7.1 | 7.1 | 7.6 | 7.1 |
| Cylch 2 Blwyddyn 2 (20 o ymatebion) | 6.0 | 6.7 | 7.3 | 7.1 | 7.0 |

### Ffigur 3.6: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth EAS

| EAS | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Dychmygus | Cydweithiol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch 2 Blwyddyn 1 (37 o ymatebion) | 6.1 | 6.0 | 6.4 | 6.6 | 6.5 |
| Cylch 2 Blwyddyn 2 (24 o ymatebion) | 3.9 | 4.0 | 4.4 | 5.1 | 4.8 |

### Ffigur 3.7: 5 o Arferion Creadigol y Meddwl: Rhanbarth GWE

| GWE | Chwilfrydig | Dyfalbarhaus | Dychmygus | Cydweithiol | Disgybledig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cylch 2 Blwyddyn 1 (81 o ymatebion) | 5.7 | 5.7 | 6.1 | 5.9 | 5.7 |
| Cylch 2 Blwyddyn 2 (31 o ymatebion) | 6.1 | 6.4 | 6.1 | 6.6 | 6.2 |

3.20 Mae data'r cylch 'llawn' cyntaf gan athrawon sy'n defnyddio offeryn 5 o Arferion Creadigol y Meddwl yn awgrymu bod athrawon o'r farn bod y gweithgareddau yn cael effaith gadarnhaol ar arferion creadigol allweddol y disgyblion. Awgryma hyn fod gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cyfrannu at gyflawni un o'r nodau creiddiol sef gwella sgiliau ac arferion creadigol y disgyblion. Gan ddilyn damcaniaeth yr ymyriad a amlinellwyd yn Adroddiad 1, bydd disgyblion sy'n fwy creadigol yn dangos gwelliannau mewn perfformiad academaidd, yn datblygu eu diddordeb yn y celfyddydau ac yn datblygu eu dyheadau gyrfa/bywyd.

*Holiadur (hunan-)effeithiolrwydd y dysgwyr*

3.21 Fel a amlinellwyd yn Adroddiad Gwerthuso 1: Y Theori Newid[15], canlyniad allweddol i ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddysgwyr yw bod eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at yr ysgol a dysgu yn newid.

3.22 Datblygwyd yr holiadur (hunan-)effeithiolrwydd felly er mwyn casglu data meintiol ynglŷn â chanlyniadau effeithiolrwydd yr ymyriadau i'r disgyblion. Gofynnwyd i'r disgyblion ymateb i gyfres o osodiadau mewn holiadur cyn yr ymyriad, ac wedyn i'r un gosodiadau mewn holiadur yn dilyn yr ymyriad. O gyfuno'r canlyniadau, maent yn dangos p'un a yw gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y disgyblion mewn perthynas â'r gosodiadau.

3.23 Nid oedd yr holiadur yn orfodol, a bu i nifer o ddisgyblion lenwi holiadur cyn neu ar ôl yr ymyriad yn unig. Nid oedd modd defnyddio'r ymatebion hyn. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, 51 o ddisgyblion yn unig a oedd wedi cwblhau holiaduron cyn ac ar ôl yr ymyriad. Nid yw'r sampl hon yn ddigon cynrychioliadol ar hyn o bryd i ddod i gasgliadau cyffredinol ynglŷn ag effaith Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar agweddau'r dysgwyr tuag at ddysgu. Ychwanegir at y data mewn blynyddoedd dilynol, wrth i ragor o ddysgwyr gwblhau'r ddau holiadur. Caiff y data sydd ar gael ar hyn o bryd ei archwilio yn Atodiad 2, ond ni ystyrir ei fod yn gynrychioliadol o'r cynllun.

[15] Gwerthusiad o Raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Adroddiad Interim Cyntaf

3.24 Wrth i'r sampl dyfu fel y rhoddir rhagor o ymatebion, gallai data'r holiaduron gael elwa, a gellid cynnig dealltwriaeth bellach, petai'r un holiaduron, yn y dyfodol, yn cael eu dosbarthu gyda grŵp cymharu neu reoli. Ar hyn o bryd, mae'r data'n cyfeirio at ddysgwyr sydd wedi elwa o'r ymyriad yn unig.

*Cyrhaeddiad Academaidd*

3.25 Mae maes yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i ddylunio i wella perfformiad academaidd y dysgwyr. Yn benodol, y mae wedi'i ddylunio i gyfrannu at wella safonau mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau effaith anfantais ar gyrhaeddiad.

3.26 Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd ffynonellau allweddol o ddata at ddiben gwerthuso'r effaith ar gyrhaeddiad y dysgwyr heb fod ar gael. O'r herwydd, nid oes modd cynnal gwerthusiad cadarn o effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad y dysgwyr ar y cam hwn. Bu i rai ffynonellau data gynnig rhywfaint o ddealltwriaeth o achosion penodol ond nid oeddynt yn caniatáu i gyffredinoli na chymharu. Ymhellach, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i archwilio ffynonellau data ar lefel ystafell ddosbarth ac ar lefel ysgol er mwyn cynorthwyo'r gwerthuso yn y dyfodol.

3.27 Y ffynonellau data mwyaf allweddol a allai gynorthwyo'r gwerthusiad mwyaf cadarn o'r effaith ar gyrhaeddiad fyddai data ar gyrhaeddiad disgyblion wedi'i asesu gan yr athro, wedi'i ategu gan ddata ar bresenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Byddai Rhifau Unigryw'r Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi elwa o'r ymyriad yn caniatáu i'r data hwn gael ei nodi a'i echdynnu o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion sydd gan Lywodraeth Cymru. Gall awdurdodau lleol neu Gonsortia Addysg Lleol gynorthwyo i gydgrynhoi Rhifau Unigryw'r Disgyblion. Byddai grŵp cymharu neu reoli o ddysgwyr sydd heb elwa o'r ymyriad yn cryfhau'r gwaith dadansoddi ymhellach.

3.28 Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd dulliau'n cael eu harchwilio i gasglu Rhifau Unigryw y Disgyblion.

3.29 Os nad oes modd nodi'r dysgwyr a elwodd o'r ymyriad gan ddefnyddio'r data a gasglwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gallai staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru gysylltu â'r ysgolion sydd wedi elwa o'r rhaglen ac archwilio'r posibilrwydd o fynd ati'n ôl-weithredol i nodi'r disgyblion hynny sydd wedi elwa. Gallai Rhifau Unigryw'r Disgyblion wedyn gael eu canfod ar sail y wybodaeth honno.

3.30 O wneud hynny, neu ochr yn ochr ag ymdrech i gasglu data ar ddysgwyr sydd wedi elwa o'r ymarferiad, efallai y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru yn dymuno archwilio'r posibilrwydd o ofyn am Rifau Unigryw'r Disgyblion ar gyfer grŵp rheoli o bob ysgol, a fyddai'n caniatáu ar gyfer ymarferiad paru sgorau tebygrwydd ac archwiliad mwy cadarn o effaith yr ymarferiad ar ddysgwyr.

3.31 Opsiwn pellach, ond llai cadarn, fyddai dychwelyd at, a sefydlu, sampl llai ond cynrychioliadol o ysgolion sydd wedi elwa o'r ymyriad. Gellid gofyn i'r ysgolion hyn ddarparu data cyrhaeddiad, neu ddadansoddiad o'u data cyrhaeddiad eu hunain, fel dangosydd o effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad. Gellid gofyn i'r ysgolion hyn ddarparu data o grŵp cymharu neu reoli.

3.32 Posibilrwydd pellach fyddai nodi data cyrhaeddiad penodol y dylai'r athrawon ddarparu yn eu ffurflenni gwerthuso (ceir y manylion isod), gan sicrhau cysondeb a chadernid o ran y data a ddarperir.

3.33 Hyd nes bod data o'r fath ar gael i'w werthuso, ni fydd yn bosibl gwerthuso i ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni ei chanlyniad allweddol o wella cyrhaeddiad dysgwyr, na dangos effaith dysgu creadigol ar gyrhaeddiad disgyblion. O wybod bod y data ansoddol, yn ogystal â'r data achos-benodol a ddadansoddwyd, yn awgrymu i'r ymyriad gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, byddai'n fuddiol iawn i'r rhaglen pe gallai'r data angenrheidiol gael ei ganfod a'i ddadansoddi fel rhan o'r gwerthusiad.

*Crynodeb o ffynonellau eraill*

3.34 Caiff data ansoddol o'r astudiaethau achos a'r cyfweliadau ag athrawon eu harchwilio'n fanwl isod. Fodd bynnag, mae ffurflenni gwerthuso'r Ysgolion Creadigol Arweiniol a gyflwynir gan bob ysgol a fu'n rhan o'r rhaglen hefyd yn gofyn i'r athrawon amlinellu'r effaith ar gyrhaeddiad y credant i'r ymyriad

gael ar y dysgwyr. Gofynnir i'r athrawon ddarparu gwybodaeth am y ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddynt i ffurfio eu barn. Serch hynny, roedd natur ac ansawdd y data yn amrywio o'r naill gyflwyniad i'r llall, gan gyfaddawdu ar ba mor ddefnyddiol ydyw at ddiben gwerthuso.

3.35 Yn benodol, y mae'r math o ddata a ddarperir gan ysgolion yn amrywio, ac mae rhai ffynonellau'n fwy cadarn nag eraill. Oherwydd y fath amrywiaeth, nid yw'n bosibl cymharu achosion, na chwaith yn bosibl llunio unrhyw osodiadau cadarn ynglŷn ag effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, gall y data gael ei ddefnyddio i gyfeirio at a manylu ar enghreifftiau penodol o'r effaith a nodwyd gan athrawon.

3.36 Ar draws yr ysgolion, mae'r data a ddarparwyd gan athrawon yn awgrymu cydberthyniad cyffredinol rhwng bod yn rhan o'r ymyriad a gwelliant mewn perfformiad a chyrhaeddiad. Mae perfformiad y disgyblion mewn llafaredd Saesneg a pherfformiad y disgyblion mewn llythrennedd Saesneg yn feysydd cyffredin lle y nodir gwelliant gan athrawon.

3.37 Drwy eu ffurflenni gwerthuso, mae rhai ysgolion wedi darparu data meintiol ynghyd â mesuriadau llinell sylfaen, neu wedi rhagweld graddau fel llinell sylfaen i gymharu:

> 'Ar draws y dosbarth, roedd un A*, 6 gradd A, 9 gradd B, 4 gradd C, 4 gradd D ac 1 gradd E. Yn asesiad blaenorol y dosbarth hwn, ni chafodd yr un disgybl raddau A neu A* a 3 disgybl yn unig a gafodd radd B. Y mae'n nodedig hefyd na chafwyd yr un gradd U yn yr asesiad iechyd, er i 19 o ddisgyblion yn y dosbarth hwn gael graddau U mewn un neu ragor o'u hasesiadau blaenorol' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

> 'Pan gawsant eu hasesu ar 30ain Medi 2016, roedd 70 y cant o'r disgyblion ym mlwyddyn 1/2 yn gweithio'n is na'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer llafaredd. Pan aseswyd yr un grŵp o ddisgyblion eto ar 2il Mai 2017 roedd y ffigwr hwn wedi disgyn i 50 y cant. O ystyried bod y gwaith gyda blwyddyn 1/2 wedi canolbwyntio bron yn llwyr ar lafaredd ac adrodd storïau, y casgliad yw bod y prosiect wedi cael effaith gref a chadarnhaol ar y canlyniadau' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

'Yn ôl y disgwyl, mae'r cynnydd mwyaf yn y graddau a ragwelir i'w gweld ym mhwnc Saesneg Llenyddiaeth yn rhannol yn sgil y ffocws ar y gwaith gosod, "Of Mice and Men". Ar ddechrau'r prosiect, rhagwelwyd na fyddai'r un o'r grŵp targed yn cael gradd C neu uwch ond erbyn y diwedd rhagwelwyd y byddai 4 o'r dysgwyr (44 y cant) yn cael gradd C. Roedd dau o'r grŵp wedi gwella eu graddau a ragwelir o 2 radd gyfan rhwng mis Ionawr a mis Mai, sy'n drawiadol iawn. Cafwyd cyfanswm o gynnydd o 6 gradd ymysg y merched fel grŵp ym mhwnc Saesneg Llenyddiaeth. Yn ddiddorol, gwelwyd cynnydd tebyg ym mhwnc Saesneg Iaith lle, unwaith eto, rhagwelwyd na fyddai'r un disgybl yn derbyn gradd C ar ddechrau'r prosiect. Ar y diwedd, rhagwelai eu hathrawon y byddai tri disgybl (33 y cant) yn derbyn gradd C, a gwelwyd cynnydd o 6 gradd ar gyfer y grŵp cyfan' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

3.38 Roedd rhai ymatebion yn ansoddol eu natur ond yn seiliedig ar ddata meintiol y cyfeiriwyd ato ac a gyfarwyddodd eu barn:

'Dangosodd pob plentyn yn y dosbarth welliant yn eu lefelau ysgrifennu, wrth i bob plentyn wneud cynnydd o rhwng 1 a 4 is-lefel yn ystod y tymor' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

'Mae'n ymddangos bod pob plentyn wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu profion Mathemateg Mawr wythnosol, gan roi ystyriaeth i feysydd rhifedd penodol yr oeddynt wedi'u datblygu o'r prosiect (haneru, dyblu, talgrynnu, lluosi a rhannu â 10 a 100...). Mae pob disgybl wedi gwneud cynnydd ar 'Incerts'[16]. Gwnaed cynnydd oddi mewn i'r lefel benodol' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

3.39 Roedd rhai ymatebion yn ansoddol neu'n anecdotaidd eu natur:

'Mae lefelau lles a hunan-barch y disgyblion wedi codi yn ogystal â sicrhau sgiliau a ddysgwyd a galluogi'r plant i ddefnyddio'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm, cydweithio a gwella canolbwyntio/dyfalbarhad. Mae'r dosbarth hefyd wedi datblygu synnwyr o ymddiriedaeth wrth weithio gyda'i

[16] Offeryn yw Incerts sy'n cael ei ddefnyddio gan athrawon i dracio sgorau asesu disgybl. Mae mwy o wybodaeth i'w gweld fan hyn: Offeryn Incerts.

gilydd sydd wedi effeithio'n fawr iawn ar agweddau ac ymddygiad' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

3.40 Cafwyd rhai sylwadau negyddol hefyd ynglŷn â'r gallu i gynnig tystiolaeth o effaith yr ymyriad:

> 'Yn absenoldeb data, rydyn ni'n dibynnu ar arsylwadau'r athrawon. Mae'r athro sy'n ymwneud fwyaf â'r prosiect o'r farn mai cyfyngedig fu'r cynnydd. Bu cynnydd is-lefelau o ran 'ysgrifennu creadigol'. Ond nid yw hyn i ddweud y byddai'r plant wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn o ganlyniad i waith dosbarth. Mae'n amheus gen i bod eu cynnydd o ganlyniad i brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol am nad oeddynt hwy eu hunain o'r farn eu bod wedi gwneud cynnydd yn ôl eu siartiau pry cop ac o sylwadau gwerthuso a wnaed pan drefnodd yr Asiantau Creadigol bleidlais ar eu cyfer' (Ffurflen Werthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol).

3.41 Er i rai gyfeirio at feincnodi a phrofion yn dilyn gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, bu i rai athrawon ddefnyddio graddau a ragwelir fel llinell sylfaen er mwyn cymharu â hwy, ac roedd ymatebion eraill yn ystyried arsylwadau'r disgyblion yn hytrach na dangosyddion caled. Mae ffynonellau'r data felly hefyd yn amrywio o ran cadernid.

3.42 Mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws hefyd, awgrymodd yr athrawon fod canlyniadau ehangach, mwy meddal, yn arbennig mewn perthynas ag ymgysylltiad, a gyfrannodd yn y pen draw at welliant ehangach mewn cyrhaeddiad. Ceir manylion yr arsylwadau hyn yn adrannau perthnasol yr astudiaethau achos isod.

3.43 Ni all y data sydd ar gael gynnig tystiolaeth gadarn o effaith yr ymyriad ar gyrhaeddiad dysgwyr ar draws y rhaglen. Serch hynny, ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod yr effaith yn gyffredinol gadarnhaol.

3.44 Caiff effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad ei ddamcaniaethu gan Theori Newid y rhaglen, ac mae'n ganlyniad allweddol i'r dysgwyr. O ystyried y gellir deall hyn hefyd i fod yn brawf terfynol o'r ymyriad yn fwy cyffredinol, byddai cynnig tystiolaeth gadarn o'r effaith ar gyrhaeddiad yn cryfhau 'prawf y cysyniad' yn fawr ac yn dangos llwyddiant rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

3.45 Ystyriaeth ehangach mewn perthynas â chyrhaeddiad, felly, fyddai'r angen i gasglu data mwy cadarn a chyson ar ddysgwyr unigol sydd wedi elwa o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol cyn dod i gasgliadau pendant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran un o ganlyniadau craidd maes yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddysgwyr, sef i'r gweithgarwch arwain at welliant mewn cyrhaeddiad.

*Effaith ehangach*

3.46 Gofynnai'r ffurflenni gwerthuso i'r athrawon amlinellu eu barn am effaith ehangach gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ar ddisgyblion sy'n ymwneud â hwy. Mae Ffigurau 3.8 a 3.9 yn cyflwyno'r data hwn, sydd wedi'i godio ar ffurf categorïau. Mae'r data hwn yn awgrymu'n gryf yr ystyrir bod y disgyblion wedi ymgysylltu â'r gweithgarwch i raddau mwy na'r arfer, yn arbennig yn y flwyddyn gyntaf. Dwedwyd hynny gan bron i hanner (49 y cant) yr athrawon, heb iddynt gael eu hysgogi i ddweud hynny.

3.47 Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r astudiaethau achos, y ceir manylion isod, ond mae'n cyferbynnu â'r data sy'n codi o'r offeryn (hunan-)effeithiolrwydd a archwilir yn Atodiad 2, sy'n awgrymu mai prin, os o gwbl, fu'r effaith ar ymgysylltiad.

3.48 Nododd 26 y cant arall y bu cynnydd mewn hyder neu hunan-barch yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac yn yr ail flwyddyn bu i 33 y cant o'r athrawon hefyd nodi gwelliant mewn cydweithio a nododd 29 y cant gynnydd yn hyder neu hunan-barch y disgyblion a fu'n ymwneud â'r gweithgarwch.


3.49 O ystyried bod mwy o ymgysylltiad yn cael ei nodi'n gyson fel effaith ar ddysgwyr, byddai unrhyw ddata pellach y gellid ei ganfod i ddangos yr effaith hon, fel data presenoldeb, yn gwella ymhellach y gallu i gynnig tystiolaeth a dangos effaith yr ymyriad.

**Ffigur 3.8: Sylwadau ansoddol ar yr effaith ar ddisgyblion: Cylch 2 Blwyddyn 1**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

**Ffigur 3.9: Sylwadau ansoddol ar yr effaith ar ddisgyblion: Cylch 2 Blwyddyn 2**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

**Astudiaethau achos yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**

3.50 Mae'r adran hon yn cyflwyno astudiaethau achos o bedair ysgol a fu'n rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Lluniwyd wyth o astudiaethau achos byrrach drwy gyfweliadau ffôn neu Skype gydag athrawon cydlynu mewn wyth o Ysgolion Creadigol Arweiniol pellach. Datblygwyd pedair o'r astudiaethau achos hynny i fod yn astudiaethau achos hwy a dyfnach, gan gynnwys ymweliadau diwrnod llawn.

3.51 Dewiswyd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys fan hyn gan y tîm gwerthuso yn enghreifftiau o ysgolion Cylch 1 neu 2 a oedd wedi cyflawni cysyniad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn effeithiol. Ar y cam hwn, nid y bwriad yw adolygu sampl gynrychioliadol o'r ysgolion sy'n rhan o'r cynllun. O'r herwydd, nid y nod fan hyn yw asesu p'un a yw'r astudiaethau achos hyn yn nodweddiadol o'r ysgolion sy'n rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol

Arweiniol yn gyffredinol. Dyluniwyd yr astudiaethau achos hyn i gynhyrchu data ansoddol ac enghreifftiau o'r ymyriad ar waith.

3.52 Cynhaliwyd gwaith maes yr astudiaethau achos yn gynnar yn 2018, sawl mis ar ôl cwblhau'r gweithgarwch. Byddai'r ymweliad diwrnod llawn yn cynnwys cyfweliadau gyda phennaeth yr ysgol ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli, grŵp ffocws gydag athrawon a oedd, a rhai nad oedd, yn ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a grŵp ffocws gyda disgyblion a fu'n rhan o grŵp yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Byddai'r ymchwilydd hefyd yn adolygu'r gwaith a oedd ynghlwm wrth weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac mewn rhai achosion byddent yn cyfweld â'r Asiant Creadigol a/neu'r Ymarferydd Creadigol.

3.53 Yr ysgolion dan sylw oedd:

Astudiaethau Achos hwy

- Ysgol Gynradd St Woolos
- Ysgol y Moelwyn (Uwchradd)
- Ysgol Gynradd Pencoed
- Ysgol Heol Goffa (Ysgol Arbennig)

**Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gynradd St Woolos**

*Cefndir*

3.54 Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yng Nghasnewydd yw St Woolos. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod lleol. Ar adeg yr ymweliad, roedd 342 o ddisgyblion ar y gofrestr.

3.55 Mae gan tua 33.4 y cant o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol (20.1 y cant) a'r cyfartaledd cenedlaethol (18.9 y cant). Mae'r ffigwr hwn wedi parhau'n gymharol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Ystyrir bod gan tua 26.5 y cant o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol (11.7 y cant) a'r cyfartaledd cenedlaethol (15.0 y cant).

3.56 Mae 64.6 y cant o'r disgyblion yn deillio o gefndiroedd lleiafrif ethnig. Mae'r ffigwr hwn yn fwy na dwywaith cyfartaledd yr awdurdod lleol (26.1 y cant) a bron i chwe gwaith y cyfartaledd cenedlaethol (11.7 y cant). Mae 52.2 y cant o'r disgyblion wedi'u categoreiddio fel bod ganddynt Saesneg yn iaith ychwanegol, sydd yn fwy na dwywaith cyfartaledd yr awdurdod lleol (17.7 y cant) a naw gwaith y cyfartaledd cenedlaethol (6.1 y cant). Yn ystod arolygiad ESTYN 2015, câi 39 o ieithoedd gwahanol eu siarad gan ddisgyblion yn yr ysgol.

*Amcan*

3.57 Mae'r ffurflenni cynllunio'n awgrymu y bu i'r ysgol, yn ystod y flwyddyn gyntaf, geisio defnyddio ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i fynd i'r afael ag ysgrifennu'r bechgyn ym mlynyddoedd 1 a 2 a'i wella. Roedd y mater hwn wedi'i nodi yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol. Roedd gweithgarwch ail flwyddyn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd wedi'i ddatblygu gan ystyried mater a nodwyd yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol, sef yr angen i wella sgiliau rhifedd disgyblion ym mlynyddoedd 1 a 2 yr ysgol. Ceisiodd yr ysgol hefyd ddefnyddio gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol i ddatblygu cynhwysiant cymdeithasol gyda'r gymuned leol ac ymgysylltu â rhieni.

3.58 Er nad oedd hynny'n amcan penodol, roedd rhai o aelodau'r Uwch Dîm Rheoli hefyd yn ystyried y gweithgaredd yn ffordd i dreialu neu arbrofi â dulliau addysgu a allai adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd a ysbrydolwyd gan 'Ddyfodol Llwyddiannus'.

> 'Adeg cyflwyno'r cais, wnaethon ni ddim sylweddoli, ond buan y daeth i fod yn un o'r amcanion. Doedden ni ddim yn gwybod llawer am Ddyfodol Llwyddiannus ond wrth inni ddysgu mwy daeth i fod yn bwysig iawn' (Cyfweliad Ysgol Gynradd St Woolos, 2018).

*Cyflawni*

3.59 Roedd llais disgyblion yn elfen allweddol o'r camau cynllunio, yn arbennig mewn perthynas â blwyddyn gyntaf gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Anogwyd y disgyblion i ddatblygu eu syniadau eu hunain am brosiect a nodi themâu yr hoffent archwilio. Gyda rhywfaint o arweiniad gan yr athrawon gan ystyried Cynllun Datblygu'r Ysgol, dewiswyd archarwyr a choginio yn themâu ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Gyda mewnbwn y disgyblion, dewiswyd cwmni cynhyrchu teledu — 'It's My Shout' — sy'n seiliedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn Ymarferydd Creadigol i arwain y gweithgarwch. Cynhaliwyd gweithgarwch yr ail flwyddyn gyda chymorth Citrus Arts, cwmni'r celfyddydau perfformio a choreograffi.

3.60 Er mai'r cynllun gwreiddiol oedd gweithio gyda grŵp penodol o ddisgyblion (bechgyn blwyddyn ysgol 1 a 2), yn y pen draw bu grŵp ehangach o 90 o ddisgyblion (bechgyn a merched) yn rhan o weithgarwch blwyddyn gyntaf yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac 87 yng ngweithgarwch yr ail flwyddyn.

3.61 Roedd y flwyddyn gyntaf yn cynnwys 31 o sesiynau rhwng 30 munud ac awr, rhwng yr Arferion Creadigol, athrawon a disgyblion. Penllanw'r prosiect oedd y disgyblion yn rhedeg bwyty ac yn gweini bwyd i ryw 150 o rieni, perthnasau ac aelodau'r gymuned. Ffilmiwyd y noson a chynhyrchwyd DVD. Roedd ail flwyddyn o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynnwys 16 o sesiynau ymarfer dawns, gydag athrawon, disgyblion ac Ymarferwyr Creadigol, a'r penllanw oedd perfformiad cyhoeddus yn stadiwm pêl-droed Dinas Casnewydd, Rodney Parade.

3.62 Arweiniwyd sesiynau gan yr Ymarferwyr Creadigol, ond roedd yr athrawon yn greiddiol i'r broses ddysgu yn ogystal â'r gwaith ehangach o gynllunio'r gweithgarwch. Cyfeiriodd yr athrawon at bartneriaeth gyda'r Ymarferwyr Creadigol, a oedd yn dueddol o arwain ar agweddau technegol y gweithgarwch yn unig.

*Canlyniadau*

3.63 O'r trafodaethau â chydlynydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, yr Asiant Creadigol, yr Athrawon a'r dogfennau gwerthuso, roedd yn amlwg bod amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r disgyblion, yr athrawon a chymuned ehangach yr ysgol.

3.64 Dangosai'r ffurflenni gwerthuso fod y prosiectau wedi arwain at welliannau mewn ysgrifennu a mathemateg, gan helpu i gyrraedd nodau a bodloni amcanion penodol y prosiectau. Teimlwyd mai anoddach oedd cyrraedd y targedau mathemateg oherwydd anawsterau ymgorffori mathemateg yn y gweithgarwch creadigol.

3.65 Fodd bynnag, deallwyd bod y prosiectau hefyd wedi cyfrannu at welliant yn sgiliau llafaredd ac iaith fynegiannol y disgyblion, eu hiaith gyfathrebu a gwaith tîm. Yn fwy cyffredinol, roedd yr athrawon yn cysylltu'r gweithgarwch â gwelliant mewn presenoldeb, lleihad mewn problemau ymddygiad, mwy o ymgysylltiad â rhieni, a nodi a chyflwyno modelau rôl sy'n ddynion.

3.66 Cwblhaodd y disgyblion olwynion creadigol unigol a ddangosai sut mae eu hagweddau'n newid a chawsant eu hannog hefyd i werthuso a dogfennu eu hagweddau newidiol eu hunain tuag at ddysgu. Yn ogystal, ymgysylltwyd â rhieni ar gychwyn ac yn ystod y gweithgarwch, a chawsant eu hannog yn weithredol i gofrestru i gymryd rhan yn swyddi'r prosiect. Ymatebodd y rhieni yn gadarnhaol i'r prosiectau ac mae'r ymgysylltu ers i'r gweithgarwch ddod i ben wedi parhau'n gadarnhaol.

3.67 Wedi i gyfnod yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ddod i ben, mae'r ysgol hefyd wedi datblygu prosiect creadigol tebyg yn seiliedig ar 'The Gruffalo'. Er bod y gwariant yn llawer llai nag yn achos prosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, roedd y broses gynllunio a'r cysyniadau addysgegol yn debyg. Ymhellach, arweiniwyd y prosiect newydd gan athrawon nad oeddynt yn

ymwneud â gweithgarwch gwreiddiol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, er iddynt gael eu harwain gan y gwersi a ddysgwyd a'r prosesau cynllunio a sefydlwyd yn ngweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol.

3.68 Gwnaeth y disgyblion eu hunain fwynhau profiad gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a chyfeirient at deimlad o gyffro ynglŷn â dod i'r ysgol o ganlyniad i hynny. Cyfeiria'r disgyblion at fwynhau'r cyfle i ddefnyddio eu dychymyg ac ymchwilio i thema'r gweithgarwch. Roedd cynnwys rhieni yn y gweithgarwch hefyd yn agwedd allweddol. Siaradai'r disgyblion am eu balchder yn yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, eu brwdfrydedd i weithio mewn timau, a'u mwynhad o'r celfyddydau. Cyfeiriodd rhai disgyblion hefyd at wella eu sgiliau artistig a'u diddordeb cynyddol yn y celfyddydau mynegiannol.

3.69 Roedd uwch aelodau staff o'r farn bod yr ymyriad wedi ysbrydoli ac ysgogi athrawon i ymgysylltu â'r agenda dysgu creadigol. Roedd yr ymyriad hefyd wedi darparu enghraifft o'r hyn y gellid ei gyflawni mewn ysgol, ac wedi cynorthwyo unrhyw ymdrechion pellach i ail-greu dulliau o'r fath.

> 'Mae creadigrwydd yn gysylltiedig â ffordd o feddwl a hyder. Y fantais fwyaf yw'r hyder ac i staff allu gweld sut beth yw rhaglen greadigol, fel ei bod yn haws iddynt ei hail-greu. Nid yw wedi ennill ei blwyf yn llwyr, ond rydyn ni'n llawer pellach ar hyd y daith honno ac yn fwy medrus ar weithredu creadigrwydd hefyd' (Cyfweliad Ysgol Gynradd St Woolos, 2018).

3.70 Yn olaf, ystyriai'r uwch reolwyr a'r athrawon yn yr ysgol fod y gweithgarwch yn enghraifft o'r math o ddull gweithredu sy'n weledigaeth i'r cwricwlwm newydd. Er na allai'r un aelod o staff fod yn sicr, roedd hyder y byddai'r ymagwedd mwy creadigol, thematig at addysgu a amlinellwyd yn cyd-fynd yn dda ag anghenion y cwricwlwm newydd. O edrych yn ôl, teimlai'r staff fod y gweithgarwch wedi helpu i'w paratoi at ofynion y cwricwlwm newydd.

*Rhannu'r hyn a ddysgwyd a datblygu'r addysgu*

3.71 Yn ôl y ffurflenni gwerthuso ar gyfer gweithgarwch y ddwy flynedd, cynhaliwyd un sesiwn DPP gydag athrawon eraill er mwyn rhannu'r profiad a'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect. Ond yn ôl trafodaethau ag athrawon, roedd llawer mwy wedi'i wneud i ledaenu'r hyn a ddysgwyd i aelodau eraill o staff a

chysylltu'r profiad â'r ymdrechion ehangach yn yr ysgol i addasu dulliau addysgu ac ymagweddau at newidiadau cwricwlaidd.

3.72 Cynhaliodd yr athro cydlynu fersiwn gryno o'r hyfforddiant creadigol, gan gyflwyno theori ac arferion wedi'u dilysu i athrawon eraill. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng grwpiau o athrawon ac athro a fu'n ymwneud â'r gweithgarwch, er mwyn i'r athro dan sylw ddarparu adborth. Cafodd barn ar y gweithgarwch hefyd ei lledaenu'n fwy anffurfiol yn ystod cyfarfodydd staff wrth i'r prosiectau fynd rhagddynt. Cyflwynwyd arferion wedi'u dilysu ac adnoddau fel mapiau meddwl, olwynion creadigol a strategaethau llais disgyblion fel rhan o drafodaeth yn ymwneud â'r profiadau ymarferol o gyflwyno creadigrwydd i'r addysgu a chynllunio addysgu.

3.73 Trefnodd clwstwr yr ysgol ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd lle y rhoddodd yr athro cydlynu o St Woolos gyflwyniad pellach ar sail profiadau'r ysgol fel Ysgol Greadigol Arweiniol ac addysgu creadigrwydd yn fwy cyffredinol. Fel hyn, cafodd theori, arferion wedi'u dilysu ac arferion addawol, yn ogystal â phrofiadau'r athrawon a fu'n ymwneud ag ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, eu rhannu y tu hwnt i'r ysgol.

3.74 Mewn grŵp ffocws a gynhaliwyd yn yr ysgol gydag athrawon nad oeddynt yn rhan o'r un o weithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, cadarnhawyd y cafodd agweddau ar ddysgu ac addysgu creadigrwydd eu lledaenu a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn ehangach yn yr ysgol. Roedd rhai athrawon wedi dechrau defnyddio'r arferion wedi'u dilysu ac iaith theoretig y 5 o Arferion Creadigol y Meddwl. Defnyddiwyd yr olwyn greadigol i dracio 5 o Arferion Creadigol y Meddwl yn achos yr athrawon. Roedd llais disgyblion yn gysyniad a fabwysiadwyd yn yr ysgol, ac roedd llawer o athrawon yn defnyddio eu drws yn greadigol i gasglu ac arddangos barn a phenderfyniadau disgyblion. Hawliai'r athrawon yr ysbrydolwyd hyn gan weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

3.75 Meddai'r athrawon fod y mapiau meddwl yn benodol wedi rhoi mwy o hyder iddynt gymryd risgiau wrth ddatblygu cynlluniau gwersi. Roedd prosiectau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd wedi'u defnyddio yn dempledi ar gyfer

prosiectau'r dyfodol. Yn fwy cyffredinol, teimlai'r athrawon i'w cwricwlwm ddod yn fwy thematig a chreadigol.

3.76 Serch hynny, roedd ymgorffori'r arferion wedi'u dilysu yn ddibynnol ar athrawon unigol. Fodd bynnag, ymysg uwch aelodau staff, roedd hyder bod yr arbenigedd yn bodoli yn yr ysgol i gynorthwyo staff a ddymunai archwilio'r dulliau dysgu creadigol.

> 'Mae'n dibynnu ar y bersonoliaeth unigol. Bydd rhai yn ei weld; bydd gan eraill ddiffyg hyder. Mae bellach gennym ni'r arbenigedd yn yr ysgol i gynorthwyo staff eraill' (Cyfweliad Ysgol Gynradd St Woolos, 2018).

3.77 Yn gyffredinol, fodd bynnag, ystyriwyd fod athrawon nad oeddynt yn ymwneud ag ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn fwy tebygol o ddefnyddio'r arferion addawol a'r 'awgrymiadau a'r cynghorion' a rannwyd gyda hwy gan yr athrawon a fu'n ymwneud â'r rhaglen. Dewisodd yr athrawon hyn dechnegau ac arferion addawol penodol yr ystyriwyd eu bod yn gweithio'n benodol o dda, yn hytrach na mabwysiadu theori ac arferion wedi'u dilysu neu adnoddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol.

3.78 Meddai pennaeth yr ysgol ac athro cydlynu'r Ysgolion Creadigol Arweiniol fod y newidiadau cwricwlaidd yn bwynt cyfeirio allweddol ac yn ystyriaeth wrth ddatblygu a chyflawni'r gweithgarwch wrth symud ymlaen. Meddai rhai athrawon nad oeddynt yn ymwneud â phroses yr Ysgolion Creadigol Arweiniol eu bod yn cael eu bygwth gan y newidiadau cwricwlaidd a newidiadau addysgegol eraill i ddysgu ac addysgu creadigol. Serch hynny, rhoddai'r hyn a ddysgwyd ac a rannwyd o weithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol fwy o hyder i'r athrawon eu bod hwy a staff addysgu'r ysgol yn gallu bodloni unrhyw agenda greadigrwydd neu ddisgwyliadau a fyddai'n codi fel rhan o'r cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

*Casgliad*

3.79 O safbwynt yr athrawon a'r disgyblion yn Ysgol Gynradd St Woolos, caiff profiad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ei ystyried yn gadarnhaol. Cyflawnwyd canlyniadau allweddol y cynlluniwyd ar eu cyfer, a chafwyd buddion a chanlyniadau ehangach, anfwriadol hefyd.

3.80 Cyfeiriodd y disgyblion at brofiadau cadarnhaol, datblygu sgiliau a mwynhau'r profiad. Cyfeiriodd yr athrawon wedyn at gynnydd yn eu hyder a'u gallu i ddatblygu a chynllunio addysgu gydag elfen o greadigrwydd. Nodwyd gwelliant yn sgiliau llafaredd, iaith fynegiannol ac iaith gyfathrebu'r disgyblion a barnwyd bod creadigrwydd wedi gwella. Hawliai'r athrawon fod presenoldeb ac ymddygiad disgyblion wedi gwella yn ystod y gweithgarwch ac wedyn.

3.81 Cynhaliwyd prosiectau thematig a chreadigol tebyg ers gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan athrawon yr Ysgolion Creadigol Arweiniol eu hunain a chan y rhai nad oeddynt yn ymwneud â'r cynllun. Awgryma hyn fod yr ymagweddau at addysgu a ddatblygwyd drwy weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a thrwy weithio ochr yn ochr â'r artistiaid wedi cael effaith gadarnhaol ar y gweithlu a'u hymagwedd at addysgu.

3.82 Mae'r staff a fu'n ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi rhannu eu gwybodaeth am y theori, yr arferion addawol a'r arferion wedi'u dilysu yn yr ysgol a chydag ysgolion eraill yn y clwstwr. Rhannwyd arferion wedi'u dilysu a thechnegau penodol; serch hynny, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio arferion addawol ond heb eu dilysu neu 'awgrymiadau a chynghorion' i gael canlyniadau cadarnhaol, yn hytrach na mabwysiadu'r model cadarn a gyflwynwyd i athrawon yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn wreiddiol.

3.83 Daeth llais disgyblion ac ymwneud mwy wrth gynllunio gwersi i'r amlwg fel techneg allweddol sydd wedi'i fabwysiadu ar draws yr ysgol. Cafwyd achosion hefyd lle'r oedd athrawon na fu'n ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn defnyddio'r 'olwyn greadigol' i nodi a chanolbwyntio ar y 5 o Arferion Creadigol y Meddwl.

3.84 Roedd newidiadau i'r cwricwlwm yn bwynt cyfeirio allweddol i arweinyddiaeth yr ysgol. Roedd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ffordd i gymryd camau ar hyd y llwybr tuag at newid y cwricwlwm, ac mae arweinwyr wedi ystyried sut i ddefnyddio'r profiadau a'r wybodaeth a ddatblygwyd gan y staff a fu'n ymwneud â'r cynllun i gynorthwyo'r newid a datblygu dulliau addysgu'r gweithlu ehangach.

**Astudiaeth Achos 2: Ysgol y Moelwyn**

*Cefndir*

3.85 Ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd, y mae Ysgol y Moelwyn. Y Mae'n ysgol uwchradd ddwyieithog (Math A), sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed. Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd 310 o ddisgyblion ar y gofrestr.

3.86 Mae gan tua 13.4 y cant o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol (11.5 y cant) ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (17.0 y cant). Mae'r ffigwr hwn wedi para'n gymharol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Ystyrir bod gan tua 11.6 y cant o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol (11.3 y cant) ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (14.7 y cant).

3.87 Mae tri phwynt un y cant o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig. Mae'r ffigwr hwn yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol (4.6 y cant) a'r cyfartaledd cenedlaethol (9.3 y cant). Mae un pwynt chwech y cant o'r disgyblion wedi'u categoreiddio fel bod ganddynt Saesneg yn iaith ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol (0.9 y cant) ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (3.0 y cant).

*Amcan*

3.88 Datblygwyd gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn seiliedig ar gynllun gwella'r ysgol a'i blaenoriaethau dros y tair blynedd flaenorol. Yn benodol, yr amcanion ym Mlwyddyn 1 gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd gwella sgiliau llythrennedd ymysg disgyblion, gan gynnwys sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Parhawyd â'r amcanion hyn ar gyfer gweithgareddau Blwyddyn 2. Roedd ffocws hefyd ar ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg oddi mewn i'r ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Yn fwy cyffredinol, roedd y gweithgarwch hefyd yn ceisio gwella sgiliau creadigol y disgyblion a'u hysgogiad, eu sgiliau gwaith tîm a gweithio'n unigol, a'u sgiliau datrys problemau.

3.89 Serch hynny, meddai aelodau'r staff fod y cwricwlwm sydd wedi'i ysbrydoli gan Ddyfodol Llwyddiannus yn gyd-destun pellach, er yn gyd-ddigwyddiad, i'r penderfyniad i ymwneud â phroses yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Nodwyd bod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ym Mlwyddyn 2 yn ffordd i dreialu ymagweddau at gyflawni'r cwricwlwm newydd ac roedd y staff hynny a oedd yn gyfrifol am gynllunio a datblygu'r cais a'r gweithgarwch yn mynd ati'n weithredol i fanteisio ar fuddion addysgegol y rhaglen i'r ysgol a'i staff.

> 'Mae Donaldson a Dyfodol Llwyddiannus yn bwysig. Rydyn ni'n dehongli cwricwlwm Donaldson yn nhermau sgiliau addysgu craidd. Roedd y rhaglen hon [Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau] yn ymwneud â gwahanol ffyrdd i wella ysgogiad a hunanhyder a gofyn y cwestiwn: "Sut gallwn wella ein sgiliau addysgu?" Felly, mae'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol, ac felly â'n blaenoriaethau ein hunain' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

> 'Fel mae'n digwydd, daeth y cwricwlwm a'r prosiect ynghyd. Rydyn ni'n ysgol arloesol a bu'r prosiect yn ein helpu i symud ymlaen' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.90 Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol, dewiswyd disgyblion a oedd yn tanberfformio neu ddisgyblion o gefndiroedd bregus neu ddifreintiedig yn benodol i gymryd rhan. Yn ystod yr ail flwyddyn o weithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol wedyn, dewiswyd disgyblion o Flwyddyn 8 a 9 yr ysgol a oedd â diffyg hyder o ran eu sgiliau llythrennedd Cymraeg yn benodol i gymryd rhan. Yn y ddau achos, dewiswyd y disgyblion yn dilyn trafodaethau gyda'r Asiant Creadigol ac athrawon eraill yn yr ysgol.

3.91 Cafodd yr athrawon a fu'n ymwneud â'r gweithgarwch eu dewis yn benodol fel athrawon y disgyblion a fu'n rhan o'r gweithgarwch. Y gobaith oedd y byddai hyn yn golygu y byddent yn elwa o unrhyw arferion newydd ac addawol a'r wybodaeth a ddatblygwyd o weithio gyda'r Ymarferwyr Creadigol, ac y byddent mewn sefyllfa dda i roi'r ymarferion a'r wybodaeth ar waith yn yr ystafell ddosbarth. Ymhellach, ceisiodd yr ysgol ddewis cymysgedd o athrawon profiadol ac amhrofiadol yn ogystal â staff cymorth.

3.92 Nododd aelodau staff fod y broses gynllunio ar gyfer gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol yn benodol o feichus. Awgrymodd yr athrawon na fyddent yn neilltuo gymaint o amser ac ymdrech i gynllunio gweithgarwch o faint tebyg yn y dyfodol, a phe byddent yn ailadrodd neu'n efelychu'r gweithgarwch, byddai eu gwaith cynllunio eu hunain yn symlach neu ni fyddai'r gweithgarwch o faint a chwmpas tebyg. Serch hynny, mae rhai agweddau ar y gweithgarwch yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau gwaith cyffredinol.

> 'Mae llawer o gynllunio ar ei gyfer. Mae'r amser paratoi ar gyfer arholiadau'n cyfyngu'r math hwnnw o gynllunio llafurus, ond mae'r amrywiaeth wedi bod o gymorth. Nid yw'n rhywbeth rydyn ni'n ei wneud o hyd nac yn rhywbeth y gallwn ei wneud o hyd. Ond mae rhai agweddau wedi'u cynnwys yn ein cynlluniau gwaith. Er enghraifft, pan ddaeth aelodau o'r gymuned i mewn [i weld y gweithgaredd], mae hynny yn ein cynllun gwaith rŵan' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.93 Yr unig her sylweddol a nodwyd gan athrawon oedd anhawster nodi neu gael mynediad at gronfa ddata o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg.

*Cyflawni*

3.94 Roedd disgyblion yn ymwneud â chynllunio a datblygu'r gweithgarwch drwy gyfweld â darpar ymarferwyr. Cawsant eu holi'n rheolaidd hefyd am fewnbwn i gynllunio ar gyfer sesiynau penodol. Câi prif ffocws a thema'r gweithgarwch hefyd eu penderfynu ar ôl ymgynghori â'r disgyblion eu hunain, a'u cynnwys yn y broses.

3.95 Athro unigol a arweiniai ar y rhan fwyaf o'r gwaith trefnu yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac arweiniwyd y flwyddyn ganlynol gan athro gwahanol. Cafodd staff Cyngor y Celfyddydau a'r Asiant Creadigol eu canmol yn benodol gan aelodau staff am eu cymorth a'u harbenigedd yn ystod y broses.

3.96 Roedd gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol y flwyddyn gyntaf yn cynnwys 13 o ddisgyblion, ac roedd 19 yn rhan o weithgarwch yr ail flwyddyn. Roedd saith o athrawon a phedwar Ymarferydd Creadigol yn rhan o'r flwyddyn gyntaf, a thri athro a dau Ymarferydd Creadigol yn rhan o ail flwyddyn o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

3.97 Bu disgyblion y ddwy flynedd o weithgarwch yn gweithio gydag ymarferwyr i archwilio storïau a chwedlau lleol, gan fynd i siarad gydag aelodau'r gymuned leol. Penllanw'r gweithgarwch oedd cyngerdd lle y bu'r disgyblion yn perfformio ac yn adrodd yn ôl ar eu profiadau a'r storïau a ddatblygwyd ganddynt.

3.98 Anhawster allweddol a brofodd y tîm oedd amserlenni'r gweithgarwch. Yn ystod blwyddyn gyntaf y gweithgarwch yn benodol, nodwyd fod gormod o Ymarferwyr Creadigol ac athrawon yn ymwneud â'r broses gynllunio, gan arwain at anhawster wrth gydlynu amserlen y sesiynau. Ni allai'r athrawon brofi pob sesiwn o'r dechrau i'r diwedd oherwydd gwrthdaro amserlenni, a mynegodd rhai drueni na chawsant y cyfle i brofi mwy o waith yr Ymarferwyr Creadigol gyda'r disgyblion.

*Canlyniadau*

3.99 Barnwyd fod y ddau brosiect wedi effeithio'n gadarnhaol ar sgiliau llythrennedd y disgyblion a oedd yn ymwneud â hwy. Roedd safbwyntiau a gyflwynwyd yn y ffurflenni gwerthuso yn cyfeirio at ddata meincnodi, profion llythrennedd mewnol, profion darllen, adroddiadau'r cydlynydd llythrennedd, grwpiau ffocws y rhieni, a barn athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Dylid nodi, serch hynny, na ddarparwyd tystiolaeth fanwl o'r effaith gan ddefnyddio data meintiol yn y ffurflenni.

3.100 Nodwyd canlyniadau cadarnhaol eraill hefyd, ac adroddwyd ar welliant penodol mewn perthynas ag ymgysylltiad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Datgelodd y cyfweliadau hefyd fod yr athrawon o'r farn i'r ymyriad gael effaith nodedig o gadarnhaol ar hyder ac aeddfedrwydd y disgyblion. Yn fwy cyffredinol, nododd aelodau staff aeddfedrwydd cynyddol a pharodrwydd i ymgysylltu â gweithgarwch yr ystafell ddosbarth.

> 'Maen nhw wedi aeddfedu. Arhosai'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n hwyr ar ôl ysgol i gael paned a chacen, a gweithio ar eu prosiectau. Doedd hynny ddim yn ffurfiol, ond roedden nhw'n sgwrsio ymysg ei gilydd. Mae hyder ynddynt hwy eu hunain a'u gallu i gydweithio wedi bod yn ddatblygiadau hanfodol. Mae eu hagwedd a'u brwdfrydedd wedi newid er gwell, ac wedi parhau ers y gweithgarwch' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.101 Yn ystod yr ail flwyddyn, cynhaliodd y disgyblion drafodaethau gydag aelodau'r gymuned er mwyn clywed storïau a chwedlau lleol. Awgrymodd yr athrawon a'r ymarferwyr fod y disgyblion wedi datblygu agwedd mwy parchus tuag at eu cyfoedion a'r gymuned ehangach yn sgil gwneud hyn.

3.102 Siaradai'r disgyblion eu hunain yn bennaf am eu mwynhad ynglŷn â'r gweithgarwch. Bu i'r Ymarferwyr Creadigol ymgysylltu â hwy'n syth, a nodwyd bod y dulliau 'gwahanol' a 'hwyl' dan sylw yn allweddol i'r mwynhad. Meddai'r disgyblion iddynt fwynhau'r trafodaethau gydag aelodau'r gymuned leol a oedd yn rhan o'r gweithgarwch. Mynegodd yr holl ddisgyblion a gyfwelwyd drueni bod y gweithgarwch wedi dod i ben.

> 'Roedd yn gymaint o hwyl – llawer gwell na bod adref. Mae'n well gen i aros yn yr ysgol i wneud hyn.'
>
> 'Roeddwn i'n mwynhau'r ysgol lawer mwy. Byddai'r ysgol yn llawer gwell petaen ni'n gwneud mwy o hynny' (Grŵp Ffocws y Disgyblion, Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.103 Siaradai'r athrawon am eu mwynhad o weithio ochr yn ochr â'r Ymarferwyr Creadigol. Yn achos y ddau weithgaredd, meddai'r athrawon iddynt ddysgu mwy am fethodolegau addysgu newydd. Siaradai'r athrawon yn rheolaidd am gael yr hyder i arbrofi yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â bod wedi mabwysiadu rhai o'r arferion addawol a welsant yn ystod y gweithgarwch.

3.104 Meddai'r athrawon fod gweithgarwch a ddatblygwyd yn ystod gweithgareddau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi'i ddatblygu ar gyfer haf 2018, gyda phrosiect thematig ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8. Byddai'r prosiect yn cynnwys y gymuned leol ac yn defnyddio dulliau tebyg i'r rhai a gyflwynwyd gan yr Ymarferwyr Creadigol yn ystod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Fodd bynnag, mynegodd yr athrawon bryder ynglŷn â ph'un a fyddai adnoddau ar gael i gynnal dulliau addysgu o'r fath yn y tymor hir, neu fod heb gymorth ychwanegol fel yr hyn a dderbyniwyd wrth fod yn rhan o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

> 'Adnoddau yw'r her bob amser, ac amser ei hun. Drwy ddilyn rhaglen fel hon, caiff llawer o adnoddau eu llyncu heb lawer i'w ddangos ar y diwedd. O edrych ar y llyfr [allbwn y gweithgaredd], mae'n edrych yn fach. Ond roedd y profiad gymaint yn fwy' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

*Rhannu'r hyn a ddysgwyd a datblygu'r addysgu*

3.105 Cynhaliwyd pedair sesiwn raeadru ffurfiol er mwyn rhannu profiadau ac arferion addawol neu arferion wedi'u dilysu o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gydag aelodau eraill o staff. Cynhaliwyd tair sesiwn gan y staff a fu'n ymwneud â'r gweithgaredd ac un gan yr Asiant Creadigol i amlinellu a chyflwyno cysyniadau allweddol a theori dysgu creadigol.

> 'Daeth [yr Asiant Creadigol] i mewn a chynnal gweithgareddau gyda'r staff, a bu'n rhaid iddyn nhw gymryd rhan yn rhai o'r gweithgareddau. Mi wnaeth y plant fwynhau gweld yr athrawon yn cymryd rhan. Ar ôl eu gweld, roedd gan yr athrawon syniadau gwahanol. Ar ôl addysgu am 20 mlynedd, rydych chi'n mynd i rigol. Rwy wedi newid fy addysgu oherwydd hyn ac rwy'n ei fwynhau fwy' (Grŵp Ffocws Athrawon Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.106 Roedd y sesiynau eraill yn cynnwys athrawon a fu'n ymwneud â gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rhoi cyflwyniadau i'r gweithgarwch ac amlinelliad o'r broses, yr effaith ar y disgyblion, yr arferion wedi'u dilysu, a'r llwyddiannau a'r heriau. Yn dilyn y cyflwyniadau, cynhaliwyd trafodaethau gydag aelodau eraill o staff er mwyn archwilio ffyrdd i weithredu'r arferion addawol, yr arferion wedi'u dilysu a'r technegau a ddysgwyd yn ystod gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol yn yr ystafell ddosbarth.

3.107 Y nod o'r cychwyn cyntaf oedd i'r sesiynau gyfrannu at ddatblygu methodolegau a thechnegau addysgu.

> 'Cafodd sesiynau rhaeadru mewnol ymateb gadarnhaol. Cafwyd ystyriaeth o'r math hwn o beth, ac ymateb cadarnhaol i'r tair neu bedair o sesiynau cyflwyno a hefyd i'r sesiynau hyfforddiant a gynhaliwyd gan y staff' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.108 Yn fwy penodol, mewn grwpiau ffocws, siaradodd athrawon nad oeddynt yn ymwneud â'r ymyriad am ddefnyddio arferion addawol neu dechnegau penodol a gwelwyd bod newidiadau bach i'w hymagweddau at addysgu yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion.

> 'Dim byd mawr, a dydw i ddim yn newid popeth — dim ond un peth i helpu creadigrwydd. Nid yw'n gweithio bob amser, ond yn aml mae'r pethau bach yn gwneud i'r plant fwynhau' (Grŵp Ffocws Athrawon Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.109 Siaradodd yr athrawon hefyd am hyder cynyddol yn eu galluoedd eu hunain fel addysgwyr, yn ogystal â hyder cynyddol o ran eu parodrwydd ar gyfer newidiadau cwricwlaidd i'r dyfodol.

3.110 Roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth o arferion wedi'u dilysu ac adnoddau fel 5 o Arferion Creadigol y Meddwl, ond prin oedd y wybodaeth am sut gallai'r cysyniadau gynorthwyo'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Nid oedd tystiolaeth fod athrawon nad oeddynt yn ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn mabwysiadu 5 o Arferion Creadigol y Meddwl na'r technegau i dracio a mesur creadigrwydd.

3.111 O ran yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo'r athrawon drwy'r broses, er bod yr athrawon yn gyfarwydd â Hwb ac, i raddau llai, y Parth Dysgu Creadigol, ni ystyriwyd bod y platfform yn adnodd defnyddiol nac yn ffynhonnell a ddefnyddir yn aml o adnoddau a allai gynorthwyo addysgu creadigol.

> 'Rwy'n defnyddio Facebook yn lle hynny. Mae rhai pobl yn rhoi pethau ar hwnnw.'
>
> 'Alla i ddim mewngofnodi; mae'n rhwystredig.'
>
> 'Byddwn i'n defnyddio Google Classroom. Mae llawer yn defnyddio hwnnw' (Grŵp Ffocws Athrawon Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.112 Yn olaf, roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau a'r cymorth sydd ar gael drwy Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg neu Gronfa Profi'r Celfyddydau, ond ar y pryd roedd prinder eglurder ynglŷn â pha mor gymwys oeddynt.

'Rwy wedi bod ar ychydig gyrsiau.'

'Rwy'n addysgu Cemeg a Mathemateg, felly dydw i ddim wir yn edrych am y math hwnnw o beth.'

'Doeddwn i ddim yn siŵr os oeddwn i'n cael bod yn rhan o'r rhwydwaith neu ddefnyddio'r grantiau' (Grŵp Ffocws Athrawon Ysgol y Moelwyn, 2018).

3.113 Yn ymarferol ac yn unol â'r dyluniad, er yn llai penodol, cyfrannodd y gweithgarwch at ymdrechion alinio'r ysgol a cheisiadau i ddatblygu addysgeg yn unol â'r cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus. Awgrymodd y staff eu bod yn teimlo'n fwy parod ar gyfer newid cwricwlaidd o ganlyniad i weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

'Rydyn ni'n llawer fwy parod yn sgil deall pethau fel hyn. O edrych ar y cwricwlwm newydd, mi ddwedwn ni ein bod ni'n barod. Penaethiaid adran sy'n gyfrifol, ond wrth i ni gynllunio gwaith, mi allaf i dicio Donaldson. Drwy ddod â phethau i mewn o'r rhaglen hon, mae'r agweddau ar Donaldson wedi dod yn amlwg iawn yn ein cynllun gwaith' (Cyfweliad Ysgol y Moelwyn, 2018).

'Rwy'n llawer mwy hyderus [yn edrych ar y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus] o fod wedi gwneud rhywfaint o'r gwaith creadigol fan hyn. Mae'n haws os ydych chi'n derbyn mwy o gymorth a dysgu ble i ddod o hyd i bethau, ond byddai angen i mi gael gwybod am adnoddau' (Grŵp Ffocws Athrawon Ysgol y Moelwyn, 2018).

**Casgliad**

3.114 Ym marn athrawon a disgyblion, mae gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a gynhaliwyd yn Ysgol y Moelwyn wedi cael effaith gadarnhaol. Mae cyrhaeddiad disgyblion wedi gwella, yn ogystal â gwelliannau ehangach a datblygiadau cadarnhaol i'w hymgysylltiad â bywyd academaidd a bywyd ysgol yn gyffredinol.

3.115 Roedd athrawon a fu'n ymwneud â'r gweithgarwch wedyn yn nodi iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u dulliau yn yr ystafell ddosbarth o ganlyniad i ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Serch hynny,

awgryma'r cyfweliadau fod athrawon nad oeddynt yn ymwneud â'r ymyriad yn elwa mwy o arferion addawol neu dechnegau graddfa fach a ddeilliai o'r gweithgarwch penodol nag o ddefnyddio'r adnoddau a'r arferion wedi'u dilysu neu ymgysylltu â theori dysgu creadigol a ledaenwyd gan gyrsiau hyfforddiant y rhaglen.

3.116 Hawlia'r athrawon iddynt hefyd gynyddu eu hyder o ran arbrofi â thechnegau ac ymagweddau at addysgu. Mae prosiect thematig tebyg i weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (ond wedi'i ymestyn i gynnwys grwpiau blwyddyn gyfan) yn cael ei baratoi ar gyfer tymor yr haf, a gellir ystyried bod hyn yn tystio i lwyddiant y gweithgarwch.

3.117 Gwnaed ymdrechion i rannu theori ac egwyddorion dysgu creadigol, yn ogystal â thechnegau ac arferion penodol, gyda'r staff addysgu ehangach. Er y bu agweddau theoretig ar addysgu creadigol yn anodd i'w rhannu ac i eraill eu mabwysiadu, mae technegau llwyddiannus wedi'u rhannu a'u mabwysiadu gan athrawon ar draws yr ysgol.

3.118 Roedd Ymarferwyr Creadigol yn hanfodol i gyflwyno technegau addysgu arloesol, ac wrth ysbrydoli hyder ymysg athrawon i ddefnyddio'r technegau eu hunain. Fodd bynnag, awgrymwyd bod ganddynt ddiffyg ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r galwadau sydd ar athrawon, yn ogystal ag egwyddorion y cwricwlwm newydd sydd wedi'i amlinellu yn Nyfodol Llwyddiannus.

**Astudiaeth Achos 3: Ysgol Heol Goffa**

*Cefndir*

3.119 Ysgol arbennig yn Llanelli yw Ysgol Heol Goffa sydd â darpariaeth ôl-16, yn darparu ar gyfer blynyddoedd academaidd o flwyddyn ysgol 1 i 14. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod lleol. Ar adeg yr ymweliad, roedd 76 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gweithgarwch ail flwyddyn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu harchwilio yn yr astudiaeth achos hon.

3.120 Mae gan y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa amrywiaeth eang o anghenion, sy'n cynnwys awtistiaeth, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog.

3.121 Nid yw'n briodol cymharu demograffeg y disgyblion na'r safonau a gyrhaeddir gan y disgyblion yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros amser oherwydd yr amrywiaeth eang sydd yn anghenion addysgol arbennig y disgyblion.

*Amcan*

3.122 Wrth ddadansoddi'r dogfennau cynllunio a barn y staff addysgu, datgelwyd bod cyfathrebu yn benodol o bwysig i'r disgyblion, ac felly hefyd cynorthwyo eu gallu i fynegi eu hunain a gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch. Roedd cyfathrebu hefyd yn nodwedd allweddol o Gynllun Datblygu'r Ysgol.

3.123 Mae'r dogfennau hefyd yn nodi mai'r ffocws ym Mlwyddyn 2 gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, 'Yr Antur Fawr', oedd meithrin annibyniaeth a chynhwysiant drwy gymryd rhan yn y gweithgarwch, ac roedd y rhain hefyd yn agweddau yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

3.124 Roedd gan ail flwyddyn gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a amlinellir isod, amcanion a adeiladai ar brofiadau gweithgarwch y flwyddyn gyntaf, lle daeth yr athrawon i'r farn bod gan y dysgwyr lawer mwy o allu na'r hyn a ddisgwylient i gychwyn. O ganlyniad, trowyd y ffocws i ddatblygu ffyrdd i ddysgu sy'n benodol i anghenion unigol drwy fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person.

3.125 Roedd gweithgarwch ail flwyddyn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn canolbwyntio ar 15 o ddysgwyr o flynyddoedd academaidd 11 i 14 yn llunio

gweithgarwch dysgu a chreu gweithgareddau i’w rhannu ag 14 o ddysgwyr o flynyddoedd ysgol 1 i 3. Roedd tri o athrawon ac 11 o aelodau staff cymorth addysgu hefyd yn cymryd rhan, gan weithio gyda’r disgyblion a’r Ymarferydd Creadigol yn ystod y gweithgarwch.

*Cyflawni*

3.126 Roedd y dysgwyr yn ymwneud yn y gwaith o gynllunio a datblygu’r gweithgarwch, cofnodi cynnydd, gwerthuso, a datblygu’r amgylchedd dysgu creadigol, yn benodol iddynt hwy eu hunain ac i ddysgwyr eraill sy’n wynebu heriau dysgu. Yn wir, bu’r disgyblion yn ymwneud ym mhob agwedd ar y prosiect (o recriwtio a dethol yr Ymarferydd Creadigol i ddewis lleoliadau a themâu i’w harchwilio).

3.127 Dewiswyd un Ymarferydd Creadigol gyda’r nod o ddatblygu cyfathrebu ac annog y dysgwyr i arbrofi â syniadau heb ystyried ffiniau i’w cynigion. Dyluniwyd gweithgarwch y prosiect i annog dysgwyr i ganolbwyntio ar greu cyfleoedd ar gyfer ymdrechion artistig drwy brofiadau a dysgu creadigol yn yr awyr agored.

3.128 Bu’r disgyblion Blwyddyn 11–14 yn cydweithio â’r Ymarferydd Creadigol am 10 wythnos yn ystod gwanwyn a haf 2017, a threfnwyd ‘Diwrnod Dathlu’ i’r ysgol gyfan ar ddiwedd y prosiect.

3.129 Roedd y gweithgarwch yn cynnwys ymweliadau â Chastell Cydweli, Traeth Pen-bre a Pharc Howard. Yn y lleoliadau hyn, bu’r dysgwyr yn darganfod a dysgu am ddefnyddio deunyddiau naturiol i greu marciau a chreu anifeiliaid mawr cerfiedig. Bu’r dysgwyr hefyd yn gweithio â chlai i greu cerfluniau bach, a dylunio llwybr trysor, map a gêm er mwyn mynegi eu syniadau a’u hemosiynau ac annog dysgu sgiliau ar y cyd, gyda’i gilydd a chyda dysgwyr ifanc y Cyfnod Sylfaen.

3.130 Bu’r disgyblion yn creu siapau syml ac yn datrys amryw broblemau yn gysylltiedig â’r prosiect, fel mesur y ‘boncyff stori’. Roedd hefyd yn rhaid i’r disgyblion amcangyfrif sawl balŵn fyddai angen i lansio’r camera GoPro i’r awyr, a gwnaethant fap morladron lle’r oeddynt yn edrych ar ofod, siâp a phellter, a llwyddwyd i ddefnyddio’r map i ddod o hyd i’w ffordd o amgylch y parc.

3.131 Cyfarfu'r dysgwyr ag amrywiaeth o wahanol bobl a chawsant gyfleoedd cyfathrebu cymdeithasol a olygai fod gofyn iddynt dalu sylw, sgwrsio a meddwl er mwyn cyflawni diben eu prosiect. Roeddynt wedi'u hysgogi hefyd i archwilio'r posibilrwydd o addysgu a chymorth rhwng cymheiriaid, a herio eu hunain i ymgymryd â hynny, yn arbennig tuag at ddiwedd y prosiect wrth i'w hyder gynyddu.

3.132 Ystyriai'r athrawon fod yr Ymarferydd Creadigol yn fedrus iawn ar dawelu meddwl y dysgwyr a meithrin perthynas effeithiol â'r grwp.

> 'Roedd partneriaeth dda iawn rhwng yr artist a'r disgyblion. Mae'n bwysig iawn bod ag empathi tuag at y disgyblion, eu deall a bod yn amyneddgar gyda nhw. Roedden ni'n ffodus bod yr artist yn amyneddgar ac yn gweithio gyda nhw. Roedden nhw'n edrych ymlaen at ei weld yn dod i mewn' (Cyfweliad Ysgol Heol Goffa, 2018).

*Canlyniadau*

3.133 Cynhaliwyd ymarferiad meincnodi cyn yr ymyriad ar gychwyn y prosiect i asesu sgiliau cyfathrebu a sefydlu llinell sylfaen i gymharu yn ei herbyn ar ôl cwblhau'r rhaglen. Cynhaliwyd yr ymarferiad unwaith eto ar ddiwedd y prosiect er mwyn cymharu'r canlyniadau. Rhoddodd yr athrawon ystyriaeth hefyd i'w dealltwriaeth a'u profiad eu hunain gyda'r dysgwyr wrth asesu effaith y gweithgarwch.

3.134 Gallai'r disgyblion ddatblygu eu syniadau eu hunain ac archwilio eu hamgylchedd yn hyderus. Ystyriai'r athrawon fod y dulliau creadigol hyn yn helpu'r disgyblion i archwilio a dod yn fwy cyfforddus y tu allan i ffiniau'r ystafell ddosbarth. Nododd yr athrawon hefyd, er nad oedd manylion ar gael drwy'r ffurflenni gwerthuso, fod gwelliannau clir o ran cyrhaeddiad yn sgil y gweithgarwch.

> 'Fe wnaeth cryn nifer o ddisgyblion wneud cynnydd yn eu hasesiadau, yn arbennig yn eu defnydd o iaith a'u hyder; er enghraifft, rhoddwyd mwy o amser i un disgybl fynd i'r afael â phroblemau. Sylwon ni fod ganddi'r atebion; angen amser oedd arni i'w mynegi. Mae'n anodd gwneud hynny yn yr ystafell ddosbarth, ond gyda'r prosiect, roedd yn rhoi'r cyfle iddi gyflawni ei photensial llawn' (Cyfweliad Ysgol Heol Goffa, 2018).

3.135 Mae'r dogfennau gwerthuso yn nodi yr ystyrid i'r prosiect alluogi'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau rhifedd. Ymarferol oedd sail llawer o'r gweithgareddau a rhoesant gyfle i'r disgyblion ddefnyddio eu sgiliau mathemateg mewn sefyllfaoedd go iawn, a thrwy hynny gallent weld sut mae rhifedd yn cael effaith uniongyrchol ar eu bywyd.

3.136 Mae'r dogfennau gwerthuso hefyd yn datgelu i'r disgyblion ddangos brwdfrydedd i fynegi eu hunain drwy adrodd storïau, ac roeddynt wedi datblygu hyder, cyfathrebu a hunan-barch ym mhob maes sy'n seiliedig ar sgiliau bywyd.

*Rhannu'r hyn a ddysgwyd a datblygu'r addysgu*

3.137 Awgrymodd athrawon unigol mewn cyfweliadau iddynt elwa o weithio gyda'r artist, yn arbennig yn ystod y gweithgareddau awyr agored ym Mlwyddyn 2.

> 'Roedd yn fy nhynnu allan o fy nghylch cyfforddus rywfaint, wrth weithio gydag ymarferwyr. Fe ganolbwyntiais i ar sut mae disgyblion yn dysgu ac effeithiau'r amgylchedd ar sut maen nhw'n dysgu. O ran fy natblygiad fy hun, fe wnaeth imi fod yn fwy amyneddgar, a gwneud imi feddwl am roi cynnig ar bethau ac arbrofi. Roedd hynny drwy weithio gyda'r artist a ddewison ni, ac fe fyddwn i'n bwrw ymlaen â'r syniadau hynny a syniadau'r disgyblion.
>
> Dod allan o'n cylch cyfforddus a dwyn perswâd ar eraill i wneud hynny. Roedd cynllunio gwers heb ganlyniad yn anodd, yn arbennig pan fo Estyn yn gofyn ichi am eich canlyniadau cyn y wers. Fe wnaethon nhw nodyn o hynny yn eu hadroddiad arolygu. Gyda Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, fe welon ni fod modd ei wneud. Fe wnaed argraff arnyn nhw [Estyn] pan welon nhw hynny' (Cyfweliad Ysgol Heol Goffa, 2018).

3.138 Soniodd rhai athrawon hefyd am fagu'r hyder i ddilyn y disgyblion yn ystod gwersi, a hyder y byddai'r canlyniadau dysgu yn dal i gael eu cyflawni.

> 'Yn ystod arolygiad Estyn, fe ddefnyddion ni'r awyr agored i ddatblygu stori, cerdded o amgylch a dod o hyd i wrthrychau. Daeth [y disgyblion] yn ôl i mewn a rhaid oedd ffarwelio â fy nghynllun gwers gwreiddiol. Roedden nhw wedi casglu'r holl wybodaeth o'r awyr agored, ond eu syniad nhw oedd gwneud gêm yn lle hynny. O hynny, roedd dal modd i mi gyrraedd llawer yn rhagor o'u targedau llythrennedd a rhifedd. Cyn Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, fe fyddech yn trio glynu at gynllun gwers' (Cyfweliad Ysgol Heol Goffa, 2018).

3.139 Cafodd profiadau'r staff a fu'n ymwneud â'r rhaglen eu rhannu gydag aelodau eraill o staff yr ysgol. Mae'r dogfennau gwerthuso yn nodi bod arfer addawol allweddol a gododd o'r ymyriad ac a rannwyd â'r athrawon eraill yn ymwneud ag ymarferoldeb a dulliau addysgu yn yr awyr agored.

3.140 Roedd effaith y profiadau a'r amlygiad i'r arferion yn bwydo i mewn yn uniongyrchol i arferion yr athrawon. Cafodd y cynllunio ar gyfer gwersi Blwyddyn 3, er enghraifft, ei ddatblygu'n ddiweddarach gyda mewnbwn gan athrawon a fu'n ymwneud â'r ymyriad, gan ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd er mwyn cael y gorau o'r gweithgarwch.

3.141 Trefnwyd 'Diwrnod Dathlu' er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd a phrofiad y disgyblion hŷn gyda'r disgyblion eraill ac aelodau staff yn yr ysgol. Roedd annog cydchwarae rhwng y disgyblion hŷn a dysgwyr y Cyfnod Sylfaen hefyd yn rhan o'r 'Diwrnod Dathlu'. Dosbarthwyd holiaduron ymysg aelodau staff, yn gwahodd sylwadau a syniadau. Bwydai'r ymatebion i mewn i lunio glasbrint ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a fyddai ar gael i'r holl staff.

3.142 Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar y campws a ganolbwyntiai ar ddysgu yn yr awyr agored a'r gwelliannau y gellid eu gwneud i amgylchedd yr awyr agored i sicrhau cymaint â phosibl o ryngweithgarwch i'r disgyblion. Nodai'r staff fod yr athrawon yn ystyried datblygu'r cyfleoedd ymhellach ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

‘Gan edrych ar gyfleoedd yn yr awyr agored a defnyddio dulliau creadigol i addysgu, gallwn fynd â phethau i’r lefel nesaf — y tu hwnt i goedwigoedd ond i’r awyr agored yn gyffredinol. Rydyn ni’n awr yn edrych ar ble’r hoffai’r disgyblion arwain y sesiynau — gan fod yn fwy creadigol a gwneud gofod ar ei gyfer yn y cynlluniau gwersi’ (Cyfweliad Ysgol Heol Goffa, 2018).

3.143 Cyfeiriai adroddiad arolygiad Estyn yr ysgol yn benodol at yr arferion addysgegol y mae’r staff yn eu priodoli’n rhannol i weithgarwch Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau. Awgryma hyn y caiff yr arloesi addysgegol ei gydnabod gan sefydliadau addysgol allweddol.

‘Mae’r athrawon yn cynllunio ar y cyd er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau’r ysgol a sicrhau profiadau dysgu ysgogol ac atyniadol ar draws yr ysgol.

Gwna’r ysgol ddefnydd creadigol o’r amgylchedd lleol i ehangu arferion dysgu’r disgyblion a’u galluogi i gymhwyso eu gwybodaeth yn y gymuned ehangach.

Mae’r holl athrawon yn sicrhau bod y gwersi yn seiliedig ar brofiadau creadigol, pleserus, a defnyddiant amrywiaeth eang o adnoddau dychmygus i gefnogi’r dysgu. Mae’r gweithgareddau atyniadol ac amrywiol yn diwallu anghenion unigol y disgyblion yn llwyddiannus, yn arbennig pan mae’r athrawon yn dewis tasgau sy’n addas at arddulliau dysgu disgyblion unigol. Mae’r staff yn defnyddio cwestiynu yn eithriadol o dda i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion a’u helpu i fyfyrio ar yr hyn a ddysgant. O ganlyniad, dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu sgiliau cyfathrebu ac yn deall sut i wella eu gwaith’ (Adroddiad Arolygiad Estyn Ysgol Heol Goffa, 2018).[17]

[17] http://www.ysgolheolgoffa.org.uk/home/links/estyn-report/

*Casgliad*

3.144 Cafodd y profiad o fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol a'r gweithgareddau cysylltiedig ei groesawu gan y staff a'r dysgwyr yn Heol Goffa. Awgryma data'r cyfweliad i'r profiad gael effaith arbennig o barhaol ar ddulliau addysgu.

3.145 Dyluniwyd gweithgareddau ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn gyffredin yn ganlyniadau mwy meddal. Serch hynny, o ystyried anghenion dysgu cymhleth y disgyblion, mae'r canlyniadau mwy meddal hyn yn ganolog i'r ddarpariaeth addysg. Awgryma'r profiad fod dysgu archwiliadol a chreadigol, yn arbennig yn yr awyr agored, wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder, cyfathrebu ac annibyniaeth y disgyblion.

3.146 Nodwyd bod gweithio gydag ymarferydd a natur awyr agored y gweithgareddau yn agweddau allweddol ar lwyddiant y rhaglen yn Ysgol Heol Goffa. Roedd mynd â'r dysgwyr allan o'r ystafell ddosbarth yn cael effaith arbennig o fywiogus ar yr athrawon, a nododd fod hyn wedi mynd â nhw allan o'u cylch cyfforddus'.

3.147 Mae'r staff a fu'n ymwneud â'r ymyriad wedi cofleidio'r arferion addawol penodol yn ymwneud ag addysgu yn yr awyr agored yn llawer mwy felly na'r adnoddau a'r arferion wedi'u dilysu. Rhoddwyd yr arferion addawol ar waith ac ystyrir eu bod wedi gwella a datblygu'r addysgu a phrofiad disgyblion yn yr ysgol. Mae'r arferion hyn hefyd wedi'u hymgorffori yn y gwaith cynllunio ar gyfer addysgu i'r dyfodol ac wedi'u rhannu'n ffurfiol gydag athrawon nad oedd yn ymwneud â'r ymyriad.

3.148 Mae cydnabyddiaeth Estyn o effaith gadarnhaol dysgu creadigol yn awgrymu gwerthfawrogiad cynyddol yn y sefydliad ansawdd a safonau allweddol yng Nghymru.

### Astudiaeth Achos 4: Ysgol Gynradd Pencoed

*Cefndir*

3.149 Ym Mhen-y-bont ar Ogwr y mae Ysgol Gynradd Pencoed. Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ydyw, sy'n darparu addysg i blant meithrin, babanod ac iau. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod lleol. Ar adeg yr ymweliad, roedd 563 o ddisgyblion ar y gofrestr.

3.150 Mae gan tua 15.7 y cant o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol (19.7 y cant) ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (18.9 y cant). Bu'r ffigwr hwn yn gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Ystyrir bod gan 10.1 y cant o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigwr hwn yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol (16.2 y cant) a'r cyfartaledd cenedlaethol (15.0 y cant).

3.151 Mae pum pwynt dau y cant o'r disgyblion yn deillio o gefndiroedd lleiafrif ethnig. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol (5.9 y cant) a thua hanner y cyfartaledd cenedlaethol (11.7 y cant). Mae un pwynt dau y cant o'r disgyblion wedi'u categoreiddio fel bod ganddynt Saesneg yn iaith ychwanegol, sydd ychydig yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol (2.4 y cant) a hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (3.0 y cant).

*Amcan*

3.152 Y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol a nodwyd mewn dogfennau cynllunio ar gyfer y ddwy flynedd oedd datblygu llythrennedd a rhifedd. Nodwyd disgyblion i gymryd rhan yn y gweithgarwch ar sail eu bod wedi gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl yn y profion cenedlaethol. Dyluniwyd a datblygwyd y gweithgareddau yn sgil hynny ar sail yr amcan creiddiol o wella llythrennedd a rhifedd. Ymhellach, ceisiai gweithgareddau'r ail flwyddyn gyfrannu'n benodol at ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion.

3.153 Serch hynny, nododd y staff addysgu a fu'n ymwneud â dylunio a datblygu'r gweithgareddau bod nodau y tu hwnt i'r amcanion cyrhaeddiad. Yn benodol, nodai'r athrawon fod cynyddu sgiliau athrawon yn nod pellach, a defnyddiwyd y gweithgareddau yn sbardun ar gyfer datblygiad addysgegol a ategai'r newidiadau cwricwlaidd a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

> ‘Roedd cwmpas ehangach yr ysgol yn ystyriaeth hefyd. Rydym yn ysgol sy’n hyrwyddo cwricwlwm eang. Rydym bob amser yn ceisio datblygu ein darpariaeth greadigol fel cyfanwaith ymhellach. Roedd gweithio gydag Asiantau Creadigol sydd ag arbenigedd yn apelgar am ei fod yn caniatáu inni gynyddu sgiliau’r staff a sbarduno newid o ran ysbrydoli ac ysgogi’r staff yma. Mae’n cyd-fynd â’r cwricwlwm newydd’ (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.154 Ystyriai’r athrawon a oedd yn rhan o baratoi’r dogfennau cynllunio a gwerthuso fod agwedd weinyddol y rhaglen yn feichus:

> ‘Mae llawer o waith papur sy’n cyd-fynd ag ef, a llawer o hyfforddiant sy’n cynnwys llawer o aelodau staff. Ymrwymiad amser’ (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.155 Nododd y cydlynydd fod yr Ymarferwyr Creadigol a Chyngor y Celfyddydau drwy’r Asiant Creadigol yn ffynonellau pwysig o gymorth yn ystod y broses gynllunio.

> ‘Mae’n helpu cael ymarferydd sy’n deall. Roedd Cyngor y Celfyddydau hefyd yn gefnogol iawn drwy gydol y broses gynllunio. Roedd y cynllunio’n glir a gwyddai pawb beth oedden ni’n gwneud bob tro oherwydd y cymorth hwnnw’ (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

*Cyflawni*

3.156 Cynhaliwyd sesiynau yn ystod y ddwy flynedd yn yr ysgol ac roeddynt yn cynnwys cymysgedd o hanner diwrnodau a diwrnodau llawn yn wythnosol. Cynhaliwyd cyfanswm o 12 o ddiwrnodau llawn yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect. Yn ystod yr ail flwyddyn, cynhaliwyd y gweithgareddau unwaith yr wythnos am brynhawn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2017.

3.157 Yn ystod y flwyddyn gyntaf, dysgodd y disgyblion sgiliau argraffu a gwnïo, ond gallent wedyn wneud penderfyniadau creadigol oddi mewn i’r broses a phenderfynu beth oeddynt eisiau ei gynhyrchu erbyn i’r gwaith gael ei arddangos yn yr oriel. Bu’r disgyblion yn dylunio ac wedyn yn creu eu fersiynau eu hunain o Faner yr Undeb, er enghraifft.

3.158 Roedd gweithgareddau'r ail flwyddyn yn cynnwys sesiynau adrodd storïau gydag Ymarferydd Creadigol. Canolbwyntiai'r Ymarferwyr ar aeddfedrwydd emosiynol a bu'r sesiynau'n trafod sut gallai teimladau chwarae rhan fawr wrth adrodd storïau. Archwiliodd y disgyblion yr hyn sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu drwy gerddoriaeth a fideos cyn symud ymlaen i ysgrifennu barddoniaeth.

3.159 Nododd yr athrawon mewn dogfennau gwerthuso i sesiynau'r Ymarferydd Creadigol, 'The Ministry of Marvellous Storytellers', wneud i'r disgyblion fod yn rhan o'r 'Weinyddiaeth', lle mae eu rôl fyddai bod yn chwilfrydig. Ar ddechrau pob sesiwn roedd dirgelwch a fyddai'n ysgogiad i'r disgyblion archwilio a datblygu eu gwaith ysgrifenedig. Rhoddai'r ddyfais hon y disgyblion yn y sefyllfa o fod angen bod yn chwilfrydig a gofyn cwestiynau er mwyn datgelu'r sgori, yn ogystal ag archwilio sut mae cymeriadau'n teimlo mewn storïau penodol.

3.160 Y cynllun gwreiddiol yn ystod yr ail flwyddyn oedd cyfyngu'r gweithgareddau i grŵp llai o ddisgyblion a gafodd sgorau cymharol isel yn eu profion cenedlaethol. Fodd bynnag, cydweithiodd yr Ymarferydd Creadigol a chydlynydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i sicrhau bod y garfan gyfan (58 o ddisgyblion) yn cael eu cynnwys.

3.161 Yn dilyn y gweithgareddau, cynullwyd y disgyblion a'r staff er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i rannu eu profiadau gyda charfan gyfan y Cyfnod Allweddol.

3.162 Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i arddangos eu gwaith mewn arddangosfa gelf yn Ysbyty Llandochau. Gwahoddwyd rhieni i'r arddangosfa yn ogystal â Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

3.163 Gwahoddwyd rhieni ac aelodau'r gymuned hefyd i'r ysgol i gydweithio â'r 60 o ddisgyblion er mwyn gwella sgiliau rhifedd y disgyblion ymhellach, yn ogystal â rhoi'r cyfle iddynt ddysgu sgiliau creadigol newydd.

3.164 Yn olaf, cynhaliwyd te parti prynhawn ar thema'r Stiwartiaid ar ddiwedd y prosiect, lle cafodd y disgyblion arddangos eu gwaith drwy gynnal eu te parti prynhawn eu hunain. Gwahoddwyd pob un o'r 60 o rieni i'r ysgol ac roedd modd iddynt ddysgu mwy am nodau a chanlyniadau prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

*Canlyniadau*

3.165 Roedd sgorau prawf Big Maths, data 'Incerts' a thystiolaeth fideo yn dystiolaeth o'r effaith ar gyrhaeddiad i'r dysgwyr. Aseswyd datblygiad personol a chymdeithasol ym Mlwyddyn 2 Ysgolion Creadigol Arweiniol drwy arsylwadau wythnosol, adborth athro dosbarth, a thrafodaethau un-i-un.

3.166 Yn benodol, roedd bechgyn ym Mlwyddyn 3 yn anelu i gyrraedd Lefel 3 mewn iaith, ac ysgrifennu'n benodol. Aseswyd hyn hefyd drwy arsylwadau a thrafodaethau wythnosol gyda'u hathro iaith o ran sut i ymwreiddio gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn y gwersi iaith. Nid oedd canlyniadau profion safonedig ar gael i'w gwerthuso ar adeg yr ymweliad.

3.167 O'r wyth o fechgyn a fu'n ymwneud â'r gweithgarwch, llwyddodd chwech i gyrraedd Lefel 3 mewn iaith erbyn diwedd cyfnod y gweithgarwch. Nododd yr athrawon y byddai'r ddau arall yn parhau i ddefnyddio'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i barhau i weithio tuag at gyrraedd Lefel 3 mewn iaith.

3.168 Yr arsylwad mwyaf cyffredin a wnaed gan yr holl athrawon a fu'n ymwneud â'r prosiect ac a gadarnhawyd yn y dogfennau gwerthuso oedd bod hyder a lles y plant wedi gwella. Nododd yr athrawon hefyd fod sgiliau rhifedd y disgyblion wedi gwella, yn ogystal â'u hagwedd gadarnhaol at greadigrwydd a 'chelf' fel pwnc.

3.169 Nid oedd effaith gweithgarwch yr ail flwyddyn wedi'i gwerthuso ar adeg yr ymweliad. Serch hynny, mae'r dogfennau gwerthuso'n awgrymu bod y profion Big Maths wythnosol yn dangos gwelliannau mewn rhifedd. Gwnaeth yr holl ddisgyblion gynnydd yn 'Incerts' hefyd.

*Rhannu'r hyn a ddysgwyd a datblygu'r addysgu*

3.170 Soniai'r athrawon a fu'n ymwneud â'r prosiect fod ganddynt ddealltwriaeth llawer yn gliriach o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn greadigol. Mae'r prosiect hefyd wedi effeithio ar arferion yr athrawon, gyda'r arferion wedi'u dilysu yn cael eu rhoi ar waith yn yr ystafell ddosbarth a'r theori yn cael ei rhannu gydag athrawon eraill.

3.171 Yn y dogfennau gwerthuso, nodwyd bod cydlynydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi bod yn arsylwi aelodau eraill o staff yn cynnal y sesiynau. Y nod oedd meithrin mwy o greadigrwydd wrth gynllunio ar draws y cwricwlwm. Nododd cydlynydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn y dogfennau gwerthuso bod y dysgu a'r profiad yma wedi'u hymgorffori a'u rhannu ar draws yr ysgol.

> 'Caiff yr hyn a ddysgais yn y prosiect eleni ei integreiddio a'i ddatblygu ar draws yr ysgol, lle gallaf ddangos i aelodau eraill y staff sut i ddefnyddio'r cynnyrch a wnaed drwy'r prosiect hwn er mwyn ysbrydoli disgyblion a galluogi i'r dysgu ac addysgu ddatblygu meddwl a dysgu creadigol, yn effeithiol' (Ffurflen Werthuso Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.172 Nododd yr athrawon yn y cyfweliadau hefyd fod yr adnoddau wedi'u dilysu a'r theori sy'n ymwneud â'r gweithgarwch wedi'u rhannu ymysg athrawon eraill.

> 'Rydyn ni wedi siarad amdano ym Mlwyddyn 4. Mae'r holl gynllunio a'r adnoddau wedi'u trosglwyddo i athrawon eraill, ac rydyn ni wedi siarad am y broses gynllunio. Mae'r ymarfer a'r theori hefyd wedi'u rhannu a'u cyflwyno i staff eraill a bu'r ymateb yn gadarnhaol. Roedd rhai athrawon yn genfigennus ein bod ni wedi cael y cyfle, bod hyn yn rhywbeth a oedd yn digwydd mewn dosbarth arall. Ond o weld llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu fel hyn, roedd y staff eraill yn go hapus i ymuno' (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.173 Bu’r uwch arweinwyr hefyd yn defnyddio proses yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a gweithgareddau cysylltiedig fel ffordd i ddatblygu aelodau staff. ‘Roedd Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau yn gyfle i athrawes cymharol newydd gymryd at arwain. Mae wedi datblygu eu sgiliau ac, yn ei rôl arwain, ei datblygiad proffesiynol’ (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.174 Cyfrannodd y broses a’r gweithgarwch hefyd at ymdrechion ehangach yr ysgol i gyd-fynd â’r cwricwlwm newydd a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus, a bydd yn debygol o barhau i wneud hynny yn y dyfodol.

> ‘Fe wnaeth helpu wrth baratoi at y cwricwlwm newydd – bwydo mewn i’r cynllunio ar gyfer yr ysgol, a dysgu a meddwl creadigol. Datblygu hynny oddi mewn i destunau… Rhaid i amser fynd heibio cyn ei roi ar waith. Rydyn ni’n ail-ddylunio ein dull gweithredu a’n testunau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 — bydd yn bwydo i mewn i’r broses ail-ddylunio honno’ (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.175 Roedd gwerthfawrogiad o gymorth Cyngor y Celfyddydau yn ystod y gweithgarwch ac wedi hynny. Yn fwyaf nodedig, darparodd Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg gymorth pellach i athrawon a oedd eisiau datblygu eu haddysgu creadigol a chynnwys y celfyddydau mynegiannol. ‘Mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi llawer o gefnogaeth imi. Bu’r digwyddiadau rhwydweithio y bum i iddyn nhw yn wych. Roeddwn i yno gydag ysgolion eraill, ac roeddwn i’n trafod beth wnaethon nhw gyda’u hysgolion nhw. Mae’r cyfan yn helpu wrth werthuso fy ymarfer fy hun’ (Cyfweliad Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

3.176 Bu’r athrawon hefyd yn tystio i’r gweithgareddau a’r datblygiadau addysgegol yng nghyd-destun y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus, yn ogystal â’u datblygiad proffesiynol eu hunain fel athrawon.

> ‘Ydw, rwy’n addysgu grŵp blwyddyn gwahanol nawr ond rwy wedi dod â hynny gyda mi. Does arna i ddim ofn ‘rhoi cynnig arni’. Gyda chwricwlwm newydd Donaldson, dyna’r cyfan fydd dan sylw’ (Grŵp Ffocws Athrawon Ysgol Gynradd Pencoed, 2018).

*Casgliad*

3.177 Lluniwyd y gweithgarwch yn wreiddiol fel ffordd i dargedu disgyblion penodol. Fodd bynnag, daeth yr athrawon i'r farn fod dysgu creadigol o fudd i'r holl ddisgyblion, ac felly ehangwyd y grŵp o ddisgyblion a fyddai'n elwa o'r gweithgarwch.

3.178 Mae'r data gwerthuso a ddefnyddiwyd gan yr athrawon yn awgrymu bod y gweithgareddau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion. Ymhellach, ac yn groes i ganfyddiadau'r gwerthusiad (hunan-)effeithiolrwydd a wnaed gan y disgyblion, mae'r athrawon o'r farn i'r gweithgarwch gael effaith gadarnhaol ar les a hyder y disgyblion.

3.179 Defnyddiwyd y gweithgarwch fel ffordd i ddatblygu addysgeg yn yr ysgol. Dewiswyd yr athrawon i fod yn rhan o'r ymyriad gan roi sylw i ddatblygiad proffesiynol; ers i'r gweithgarwch ddod i ben, mae'r arferion wedi'u dilysu, yr adnoddau a'r theori a ddysgwyd gan yr athrawon hynny, ynghyd â'r profiadau, wedi'u rhannu'n ehangach, gan ddenu ymateb cadarnhaol.

3.180 Mae'r arweinyddiaeth a'r staff addysgu wedi ystyried y profiadau a'r hyn a ddysgwyd o'r gweithgarwch gan roi sylw i'r cwricwlwm sydd wedi'i ysbrydoli gan Ddyfodol Llwyddiannus.

3.181 Mae'r athrawon hefyd wedi gwerthfawrogi'r strwythur ehangach o gymorth a oedd ar gael o ran dysgu creadigol ac addysgu'r celfyddydau mynegiannol. Cynigodd Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg ffordd i archwilio a datblygu addysgeg ymhellach.

## 4. Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg

*Cyflwyniad a chefndir*

4.1 Sefydlwyd Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg gyda'r cylch gwaith canlynol:

a) cydgrynhoi a lledaenu arferion gorau
b) sefydlu a chydlynu cyfleoedd rhwydweithio dysgu creadigol a'r celfyddydau (wyneb yn wyneb a digidol) i athrawon, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol
c) darparu gwasanaeth 'broceru' rhwng ysgolion ac artistiaid a sefydliadol celfyddydol/diwylliannol
d) darparu cyfleoedd hyfforddiant i ymarferwyr y celfyddydau wella eu darpariaeth a'i theilwra at anghenion a blaenoriaethau'r ysgol
e) darparu cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau
f) rheoli a chydlynu rhaglen o 'Bencampwyr Lleol y Celfyddydau'.

4.2 Sefydlwyd Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg yn fodel i reoli a sicrhau y caiff yr amcanion eu cyflawni. Sefydlwyd pedwar rhwydwaith, a'u ffocws daearyddol yn adlewyrchu'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Caiff pob rhwydwaith, a'i weithgarwch, ei reoli gan 'Gydlynydd Rhwydwaith Rhanbarthol' ac aelodau staff ychwanegol. Mae'r rhwydweithiau'n amrywio o ran eu cyfansoddiad a'u natur. Mae'r rhwydweithiau fel a ganlyn:

- NAWR, Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Edau, Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg ar gyfer Gogledd Cymru, dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint
- A2:Clymu, Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg ar gyfer Canol De Cymru, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig ar ran Clymu Celfyddydau

- Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg: De-ddwyrain Cymru, Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain, a gaiff ei roli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

4.3 Gweithgareddau, yn hytrach na chanlyniadau, yw'r amcanion a amlinellwyd ar gyfer y rhwydweithiau. O'r herwydd, mae hyn yn ymyriad llawer ehangach ac wedi'i dargedu llai na Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a ddyluniwyd i weithio'n ddwys gydag ysgolion unigol. Mae'r ffocws ar greu 'cyfleoedd', lle mae gan yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ganlyniad terfynol penodol iawn, sef gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd.

4.4 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ac yn dadansoddi data yn ymwneud â'r rhwydweithiau am y tro cyntaf. Cynhaliwyd ymweliadau â phob rhwydwaith er mwyn cyfweld â chydlynwyr, staff, Pencampwyr y Celfyddydau ac aelodau'r grŵp llywio, a chynnal grwpiau ffocws gydag athrawon sy'n ymwneud â gweithgarwch y rhwydwaith, ac arsylwi gweithgarwch y rhwydwaith. Mae'r adran hon o'r adroddiad, felly, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y rhwydweithiau ac yn edrych yn ôl o'u camau llunio, drwy'r cyfnod o 12-18 mis o sefydlu neu ddatblygu, hyd at gyflawni ar adeg yr ymweliad ar ddechrau 2018. Mae'n bwysig cydnabod, felly, bod yr adrodd yn archwilio materion a oedd yn bresennol ar yr adeg y cynhaliwyd y gwaith maes.

4.5 Dylid nodi y gallai rhai o'r materion a nodir fan hyn fod wedi'u cydnabod ers hynny a bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phryderon — caiff hyn ei archwilio mewn gwaith maes yn y dyfodol. Mae'r adran hon, am y tro cyntaf, yn cynnig archwiliad manwl o ddyluniad, cyflenwi, cyfranogi, rheoli, llwyddiannau, cyfyngiadau ac etifeddiaeth y rhwydweithiau. Mae'r adran hefyd yn tynnu sylw at ddata allweddol a fyddai'n ategu gwerthusiad mwy cadarn ac yn cynnig tystiolaeth o gynnydd tuag at dargedau'r rhwydweithiau ac effaith ddamcaniaethol.

*Cefndir*

4.6 Nododd yr adroddiad gwerthuso blaenorol fod y staff rheoli strategol, sef aelodau staff Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru sydd â goruchwyliaeth neu gyfrifoldeb strategol mewn perthynas â chyflawni'r

rhaglen ond nad ydynt yn ymwneud yn agos â'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd, yn deall bod rôl bwysig i'r rhwydweithiau rhanbarthol wrth gyflawni rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Serch hynny, nid oeddynt wedi'u hargyhoeddi'n llwyr o'u heffaith a'u cyfraniad i'r rhaglen ar adeg cynnal y gwaith maes. Fodd bynnag, câi ei dderbyn y cafodd y rhwydweithiau eu sefydlu'n hwyrach ac â llai o lywio neu arweiniad strategol o gymharu â gweithgareddau Maes 1, a bod y sefydliadau, ar adeg cynnal y gwaith maes, yn dal i 'gael eu traed tanynt'.

4.7 Unwaith yn rhagor, mynegwyd pryderon a phetruster gan bersonél rheoli strategol yn ystod cyfweliadau ar gyfer yr adroddiad hwn yn nechrau 2018 ynglŷn â chyfraniad a pherfformiad y rhwydweithiau. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r data a gasglwyd ar rwydweithiau am y tro cyntaf, gan ddarparu mwy o fanylion nag adroddiadau blaenorol ar ddyluniad, cyflawni ac allbynnau'r rhwydweithiau, yn ogystal â'u cyfraniad neu gyfraniadau posib i'r rhaglen i'r dyfodol. Mae'r adran yn gweithredu fel adroddiad cynnydd ac ymgais i fyfyrio ar y cynnydd a wneir tuag at y canlyniadau a amlinellir yn yr adroddiad Theori Newid.

4.8 Caiff pob rhwydwaith ei reoli gan gydlynydd, sydd mewn ffordd yn uwch-reolwr pob rhwydwaith. Serch hynny, yn ymarferol mae union rôl pob cydlynydd yn amrywio o'r naill rwydwaith i'r llall. Mae rhai rhwydweithiau, fel A2:Clymu, yn cael eu rhedeg gan sefydliadau sefydledig a all elwa o adnoddau ac arbenigedd presennol oddi mewn i'r sefydliad. Rôl reoli strategol yn bennaf yw'r cydlynydd yn yr achos hwn, sy'n dirprwyo tasgau gweinyddol neu ariannol. Mae rhwydweithiau eraill wedyn, fel Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg: De-ddwyrain Cymru, wedi'u sefydlu'n benodol er mwyn cyflawni'r rhaglen. Yn yr achos hwn, mae'r cydlynydd yn ymwneud mwy â'r tasgau gweinyddol, dydd i ddydd, o reoli, trefnu ac adrodd ar weithgarwch yn ogystal â'r gwaith cynllunio a rheoli strategol.

*Dylunio*

4.9 Yn ystod cyfnod cychwynnol o 12-18 mis, rhoddwyd cylch gwaith eang i'r rhwydweithiau i ddatblygu'r ffordd y byddent yn cyflawni eu cymorth, gan roi ystyriaeth hefyd i amgylchiadau lleol. Yr amcan allweddol oedd cyflawni pump o allbynnau, sef:

1) Trefnu rhaglen o ddatblygu proffesiynol o ansawdd uchel i athrawon, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol
2) Sefydlu a chydlynu cyfleoedd rhwydweithio i athrawon, artistiaid a sefydliadau o'r sectorau celfyddydol, creadigol, diwylliannol a threftadaeth – yn ddigidol ac wyneb yn wyneb
3) Creu cyswllt rhwng ysgolion ac artistiaid a sefydliadau celfyddydol – gweithredu fel 'brocer'
4) Casglu gwybodaeth ar y 'cynnig' rhanbarthol a rhoi cyhoeddusrwydd i enghreifftiau o arferion gorau
5) Cyflawni rhaglen Pencampwyr Lleol y Celfyddydau.

4.10 Er nad oedd yn un o nodau penodol y rhaglen, mae'r dystiolaeth a ddaw i'r amlwg yn dangos bod diwygio'r cwricwlwm, i rai rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â'r rhaglen, yn cael ei ystyried yn gyd-destun polisi pwysig i'r rhaglen. Mynegodd rheolwyr a staff y rhwydwaith yn ogystal â buddiolwyr fod y rhwydweithiau yn darparu gwerth ychwanegol y tu hwnt i'r nodau a'r amcanion craidd drwy gefnogi athrawon drwy'r newid i'r cwricwlwm. Roedd amrywiaeth o ymatebwyr o'r farn fod cyfrannu at ddatblygu a'r broses o addasu'r cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus a'i arloesedd addysgegol cysylltiedig o ganlyniad i hynny yn amcan sylfaenol pellach ac yn ganlyniad bwriadol:

> 'Mae'r rhaglen gyfan yn ymwneud ag annog mwy o feddwl creadigol yn yr ystafell ddosbarth, i alluogi'r cwricwlwm newydd i gael ei leoli'n fwy cyfforddus mewn ysgolion' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).
>
> 'Mae'n ymddangos mai'r prif amcan yw paratoi at y cwricwlwm newydd a datblygu dulliau o'i weithredu' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.11 Y tu hwnt i'r pump o amcanion craidd penodol, ceisiai Cyngor Celfyddydau Cymru i gychwyn ddatblygu'r rhwydweithiau mewn ffordd a roddai ryddid i gydlynwyr ddylunio a datblygu eu darpariaeth er mwyn diwallu'r galw a'r angen yn lleol. Ers hynny, ystyria'r staff rheoli bod manteision ond hefyd anfanteision i'r fath ddull gweithredu o ran cyflawni'r rhaglen.

4.12 Bu i'r rhyddid i ddatblygu darpariaeth er mwyn diwallu'r galw a'r angen yn lleol arwain at gyfnod sefydlu neu ddatblygu o 12-18 mis. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygwyd cynlluniau ar gyfer gwaith a gweithgarwch, recriwtiwyd cydlynwyr, datblygwyd cynllun Pencampwyr y Celfyddydau, a sefydlwyd strwythurau cyfathrebu fel cyfarfodydd Cymru Gyfan. Mae'n aneglur ar y cam hwn p'un a yw'r cyfnod hwn yn werth da am yr arian a wariwyd, neu a fyddai cynllun gweithredu manylach a mwy strwythuredig wedi caniatáu i rwydweithiau ddechrau cyflawni allbynnau allweddol yn gynharach. Caiff y mater hwn ei archwilio ymhellach mewn adroddiadau dilynol. Fodd bynnag, fel a drafodir isod, un canlyniad pwysig i'r broses ddylunio a'r cyfnod datblygu yw bod y rhwydweithiau'n 'llwyr weithredol' am gyfnod yn unig o'u hoes.

4.13 Roedd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a staff y rhwydweithiau o'r farn bod y rhyddid a roddwyd i'r rhwydweithiau ddatblygu mewn modd a ystyrid yn briodol i'r ardal leol yn gryfder. Mae'r rhyddid hwn wedi caniatáu i'r rhwydweithiau gasglu barn athrawon, yn aml drwy Bencampwyr y Celfyddydau, a theilwra eu cynnig yn ôl gofynion yr athrawon:

> 'Ein cryfder yw nad oedd Cyngor y Celfyddydau na Llywodraeth Cymru yn gwybod beth oedd y rhwydweithiau; cawsom ein hanfon ymaith ag arian a chanlyniadau. Roedd hynny'n wych oherwydd fe allem fod yn fwy organig wrth fwrw iddi. Gallem ymateb i athrawon a chanfod beth fyddai'n annog y newidiadau sydd eu hangen arnynt… dyna i gyd oedd gennym ni ar y dechrau oedd pum canlyniad a phot o arian – fi oedd i benderfynu ar y gweddill. Fy Mhencampwyr y Celfyddydau yw fy narn canol – maen nhw'n bwydo'n ôl yr hyn sydd ei angen ar athrawon ac yn cyfarwyddo'r hyn rwy'n gwneud a pham rwy'n ei wneud' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.14 Mae rhyddid pob un o'r rhwydweithiau i ddatblygu'n unigol (yn ôl y bwriad) hefyd wedi golygu bod y pedwar rhwydwaith yn troi at ei gilydd er mwyn rhannu arferion da, dysgu oddi wrth ei gilydd a chynorthwyo gwaith ei gilydd.

> 'Daw'r pedwar rhwydwaith ynghyd bob wyth wythnos. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cwrdd o'n pen a'n pastwn ein hunain bob wythnos dros Skype er mwyn cynnal cysondeb' (Cyfweliad  â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.15 Ym mhob un o'r pedwar rhwydwaith, er mwy felly mewn rhai nag eraill, daeth yn amlwg bod Pencampwyr y Celfyddydau yn ffynonellau allweddol o wybodaeth a dealltwriaeth, gan adrodd yn ôl i'r cydlynwyr o ran galwadau a disgwyliadau athrawon ac artistiaid 'ar lawr gwlad'. Mae'r cydlynwyr felly wedi elwa o'r arbenigrwydd hwn wrth iddynt barhau i ddylunio a datblygu darpariaeth sy'n berthnasol i'w hardal hwy o weithredu.

> 'Ein cryfder yw Pencampwyr y Celfyddydau, y bobl sy'n ffynhonnell i lawer o'r cynnwys. Nhw yw'r ymarferwyr 'byw' neu 'ar lawr gwlad'. Y rheswm na chawn unrhyw gwynion yw oherwydd perthnasedd y cyrsiau, ac iddyn nhw y mae'r diolch am hynny' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.16 Mae cydlynwyr y rhwydweithiau, felly, o'r farn bod y rhyddid i ddatblygu'n unigol, fel y bwriadwyd gan eu dyluniad, wedi caniatáu iddynt deilwra'r ddarpariaeth at anghenion lleol yn ogystal â chryfhau eu darpariaeth drwy gydweithredu â rhwydweithiau eraill.

4.17 Fodd bynnag, gyda chyfarwyddiadau penodol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru y tu hwnt i'r allbynnau craidd a gytunwyd, golygodd y rhyddid i weithredu a chanolbwyntio ar ddiwallu anghenion lleol fod canfyddiad bod elfen o ansicrwydd ynglŷn â chanlyniadau'r rhwydweithiau yn y pen draw mewn perthynas â'u cyfraniad at raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ei chyfanrwydd. Teimlai staff y rhwydweithiau fod gan Gyngor y Celfyddydau ddiffyg dealltwriaeth glir o'r hyn y bwriadwyd i'r rhwydweithiau gyflawni y tu hwnt i'r pum allbwn craidd (hynny yw, gweithgareddau), ac, yn y pen draw, yr hyn y gallent gyfrannu (neu'r hyn y maent wedi cyfrannu) i raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ei chyfanrwydd (hynny yw, canlyniadau).

> 'Roeddwn i'n meddwl y byddai mwy o waith meddwl wedi bod y tu ôl i'r peth. Y byddai mwy o waith meddwl y tu ôl i'r effaith fwriadol. Doedden ni ddim yn gwybod at beth oedden ni'n anelu yn y dechrau' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.18 Gallai'r dull a ddefnyddiwyd o ddatblygu'r rhwydwaith drwy ganiatáu iddynt ddatblygu fel eu bod yn diwallu'r angen yn lleol fod wedi cyfrannu nid yn unig at y cryfderau ond hefyd y diffyg ffocws a welwyd ar ganlyniad ehangach. Teimlai staff y rhwydweithiau, er enghraifft, nad oedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyfathrebu eu gweledigaeth o'r hyn y byddai'r rhwydwaith yn ei gynnig i'r sawl a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth:

> 'nid oedd y modelau rhesymeg a theithiau'r cwsmeriaid wedi'u gwneud i gychwyn na'u rhannu gyda ni. Bu'n rhaid inni wneud hyn ein hunain' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.19 Roedd y staff rheoli strategol a staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn ategu'r awgrym nad oedd darlun penodol o'r canlyniad bwriadol ehangach (y tu hwnt i'r allbynnau craidd) yn ei le o'r cychwyn. Ymhellach, mae eu datblygu gan y rhwydweithiau eu hunain wedi golygu proses o arbrofi sy'n canolbwyntio ar gyflenwi darpariaeth sy'n briodol yn lleol yn hytrach na chyfrannu at neu ddatblygu canlyniad ehangach, cyffredin, yn unol â chanlyniadau rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Fodd bynnag, meddent hefyd fod effaith ehangach bosib a gwerthfawr bellach yn dod i'r amlwg, sef y gallent gyfrannu at y broses o newid y cwricwlwm. 'Mae angen inni eu clymu i mewn gyda dyluniad y cwricwlwm ac adeiladu addysgeg i mewn iddynt hefyd. Mater o symud ymlaen drwy brofi a methu yw hi, i raddau' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

4.20 Mae'n bwysig nodi hefyd bod y rhwydweithiau eu hunain wedi cyflwyno eu cynlluniau eu hunain i ateb y gofynion a nodwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y canllawiau gwreiddiol.[18] Rhoddwyd rhyddid i'r rhwydweithiau hefyd ddylunio'r mecanweithiau cyflenwi a'r dulliau gweithredu i gyflawni'r nodau a'r amcanion eu hunain yn unol â'r cynigion a anfonwyd i Gyngor

[18] Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Cynllun Gweithredu i Gymru

Celfyddydau Cymru yn 2015. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar yr allbynnau craidd yn hytrach nag unrhyw nodau cyffredinol neu unrhyw gyfeiriad at y canlyniadau ehangach a nodwyd gan Theori Newid y rhaglen. Gallai'r barnau fan hyn adlewyrchu methiant o ran cyfathrebu yn y system y bydd angen ymchwilio iddo ymhellach mewn gwaith maes yn y dyfodol er mwyn gweld a aethpwyd i'r afael â'r materion hyn.

4.21 I grynhoi, ceir canfyddiad bod y dyluniad wedi caniatáu i'r rhwydweithiau ddatblygu darpariaeth leol berthnasol, ac wedi arwain at gydweithio rhwng y rhwydweithiau. Mae'n ymddangos bod y ffocws ar gyflawni'r pum allbwn craidd yn glir i Gydlynwyr y Rhwydweithiau, yn arbennig ar ôl datblygu targedau penodol (gweler isod). Serch hynny, gallai diffyg cyfathrebu clir rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r rhwydweithiau fod wedi arwain at yr ansicrwydd ynglŷn â chyfraniad y rhwydweithiau yn y pen draw i ganlyniadau rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

*Monitro*

4.22 Yn ystod ail flwyddyn y rhwydweithiau (2017–18), ail-ddyluniwyd y broses fonitro a gwerthuso. Roedd staff Cyngor Celfyddydau Cymru o'r farn i'r gwaith o adrodd ar weithgarwch a chynnydd gan y rhwydweithiau fethu â dangos effaith lawn y rhwydweithiau yn ddigonol.

> 'Nid oedd adrodd strwythuredig yn ei le; roedd yn rhaid i hynny newid am nad oedden ni'n siŵr a oedden nhw' cyflawni'r hyn y dywedent fyddai'n digwydd… Roedd yr adroddiadau ar y dechrau yn canolbwyntio'n fawr ar farchnata. Nid oeddynt o anghenraid yn adrodd ar yr hyn oedd modd ei gyflawni' (Cyfweliad â'r Rheolwr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

4.23 Felly, yn ystod yr ail flwyddyn, gweithiodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyda'r rhwydweithiau i ddatblygu a chryfhau'r gwaith o fonitro a gwerthuso allbynnau drwy osod targedau rhanbarthol, yn benodol i bob rhwydwaith, yn erbyn pum maes y cylch gwaith.

4.24 Serch hynny, mae'r rhwydweithiau a Chyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn, er ei fod yn bwysig, yr arweiniodd hyn at fwy o faich gweinyddol i'r rhwydweithiau ac roedd rhai o Gydlynwyr y Rhwydweithiau o'r farn, er y newidiadau a wnaed, bod anawsterau dal i fod angen eu goresgyn o ran eu hymrwymiadau ynglŷn â chasglu gwybodaeth fonitro yn barhaus.

> 'Rydyn ni'n awr yn gorfod gofyn iddyn nhw'n gyson am wybodaeth nad oedd yno ar y dechrau… O safbwynt y rhwydweithiau, fe newidion ni'r nod ychydig. Ond o safbwynt gwerthuso, roedd angen inni wneud yn siŵr eu bod yn mesur eu cyflawniadau' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

> 'Mae Cyngor y Celfyddydau yn parhau i newid y nod. Bu'n rhaid [i ni] fewnbynnu gwerth dwy flynedd o ddata i daflen Excel gymhleth. Mae hynny'n ddwy neu dair wythnos gyda dau berson yn gweithio ar fewnbynnu'r data. Mae wedi gwastraffu ein hamser. Dylai Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud hyn eu hunain yn hytrach na rhoi'r baich hwn arnom ni a'n hadnoddau' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.25 Mae rhai rhwydweithiau hefyd yn ystyried bod gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru o ddatblygu targedau allbwn, mewn perthynas â'r cylch gwaith, ac ymdrechion i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol, yn ymgais o'r brig i lawr i ailddiffinio'r nodau yng nghanol y tymor. Ymhellach, roedd staff y rhwydweithiau yn cwestiynu pa mor berthnasol oedd y targedau monitro i nodau'r maes yn y pen draw.

> 'Y cyfan maen nhw [Cyngor y Celfyddydau] yn gwneud yw edrych ar ein targedau, heb unrhyw syniad o sut mae'n gweithredu ar lawr gwlad. Dydyn nhw ddim yn gofyn 'pam' gyda'r rhifau. Nid yw'r targedau yn golygu dim ar eu pen eu hunain. Does neb o Gyngor y Celfyddydau yn dod i arsylwi'r sesiynau neu sicrhau bod y targedau'n berthnasol i'r hyn sydd ei eisiau neu'i angen ar athrawon. Mae'n drwm o'r brig i lawr, ac nid yw hynny'n ddefnyddiol, o ystyried yr hyn mae'r timau wedi cyflawni o ran profiad. Mae'n llawer mwy na'r hyn a gyflawnwyd gan Gyngor y Celfyddydau' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

> ‘Nid oes gan Gyngor y Celfyddydau unrhyw barch na diddordeb go iawn yn yr hyn rwy’n ei wneud. Y cyfan maen nhw eisiau yw gwneud yn siŵr fy mod i’n cyrraedd fy nhargedau fel y gallan nhw ddweud wrth Lywodraeth Cymru eu bod yn cyrraedd eu targedau. Dydyn nhw ddim yn ymwneud â hyn yn y ffordd gywir’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.26 Gellir ystyried bod y pwynt olaf hwn yn atgyfnerthu awgrymiadau blaenorol am fethiant yn y cyfathrebu ar y pryd o ran disgwyliadau a dealltwriaeth. Er y gofynnwyd am wybodaeth fanylach am fonitro ac adrodd ers hynny (fel y gellir disgwyl ar gyfer rhaglen sy’n derbyn arian cyhoeddus), gofynnwyd i’r rhwydweithiau osod eu targedau eu hunain mewn trafodaeth â rheolwyr y rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.

4.27 O'r farn a roddwyd inni gan y cydlynwyr am fater darpariaeth cyfrwng Cymraeg, daw achos pellach i’r amlwg sydd efallai’n dangos rhywfaint o ddryswch ynglŷn â chyfrifoldeb am gyflawni ar lefel y rhwydweithiau.

4.28 Roedd cylch gwaith gwreiddiol y rhwydweithiau yn nodi bod gofyn i’r rhaglenni o weithgarwch fod ‘… o ansawdd uchel ac yn diwallu anghenion ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn eich rhanbarth, gan gynnwys darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg’ ( Cylch Gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru i Rwydweithiau). Fodd bynnag, mynegodd pryderon gan rai rhwydweithiau ynglŷn â chamau dylunio a monitro’r rhaglen o ran sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fel a amlinellir uchod, mae’r cyfrifoldeb am gyflawni gweithgarwch y rhwydweithiau yn deillio o’r rhwydweithiau eu hunain a gyflwynodd eu cynlluniau eu hunain, ond cyfeiriai’r cydlynwyr at y diffyg ystyriaeth yn y dyluniad gwreiddiol mewn perthynas â darpariaeth ieithyddol. Credai staff y rhwydweithiau fod y diffyg ystyriaeth yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith nad yw darpariaeth iaith yn gategori yn y broses fonitro.

> ‘Prin fod unrhyw ystyriaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dydi e ddim wedi’i ddylunio i sicrhau darpariaeth Gymraeg... dydi iaith ddim yn rhan o’n monitro. Does dim sicrwydd o gyflawni cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

Meddai'r Cydlynwyr eu bod, yn sgil hyn, yn ansicr p'un a oedd eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg eu hunain yn ddigonol.

4.29 Credai sawl un o Gydlynwyr y Rhwydweithiau bod gan y rhwydweithiau y potensial i ategu rhaglen yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Serch hynny, roedd y cydlynwyr o'r farn i'r ffaith i'r meysydd gael eu gwahanu ar y cam dylunio gyfyngu i ba raddau y gellid cyflawni'r elfen ategol hon.

> 'Ni chaniatawyd inni wneud unrhyw beth gyda'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, sy'n wendid mawr. Nid yw fy nghysylltiadau wedi rhannu unrhyw beth, sy'n drueni am fod angen y cysylltiadau hynny o blith artistiaid arnaf i ac rwy dal heb gael rhestr o Ysgolion Creadigol Arweiniol. Byddai'n ddefnyddiol gwybod [er mwyn gallu] osgoi'r ysgolion hynny' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.30 Awgrymodd staff rheoli yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd, er iddynt gael eu dylunio i fynd i'r afael ag anghenion gwahanol i gychwyn, eu bod bellach yn gweld cyfle i'r meysydd ategu'i gilydd yn fwy penodol. Yn sgil hyn, maent yn bwriadu cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r rhwydweithiau.

> 'Gwn nad ydyn nhw'n cysylltu i mewn â'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, ond y bwriad oedd na fydden nhw'n gwneud hynny. Rydyn ni'n awr yn dweud bod angen iddo symud. Mae angen inni gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr hyn mae'r rhwydweithiau'n gwneud a'r hyn sy'n cael ei ddysgu drwy'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Gallai athrawon yr Ysgolion Creadigol Arweiniol fod yn darparu hyfforddiant a gallai Asiantau Creadigol fod yn darparu hyfforddiant' (Cyfweliad â Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

4.31 Roedd rhai o'r cydlynwyr, fodd bynnag, wedi datblygu perthnasoedd ag Ysgolion Creadigol Arweiniol ar eu menter eu hunain ac wedi dod i ddeall gwaith y rhwydweithiau o ran ategu gwaith yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

> 'Rydyn ni wastad wedi bod â pherthynas dda ag Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r tîm. Rydyn ni'n sylweddoli ein bod yn dod at bethau o ochrau gwahanol. Mae llawer o hyfforddiant y rhwydwaith yn ymwneud ag arferion y celfyddydau creadigol a mynegiannol at ddiben paentio neu gelf

> gyfoes, ac ati. Mae’r Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn y pen draw, yn ymwneud ag ymagwedd greadigol at addysg; yn amlwg, dwy ochr i’r un geiniog ydyn nhw. Rydyn ni wedi gallu mynegi hynny’n go dda’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.32 Ymhellach, mae’r cydlynwyr hynny’n gweld perthynas barhaus a hyd yn oed mwy ategol rhwng yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a’r rhwydweithiau yn y dyfodol:

> ‘Petaen ni’n mynd yn ôl mewn amser, byddai’r rhwydweithiau wedi’u sefydlu’n gyntaf, ac wedyn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol... Rydyn ni’n dechrau gweld, wrth fynd i mewn i Flwyddyn 3, bod pethau am ddechrau cydgysylltu a gwneud mwy o synnwyr. Rydyn ni wedi rhoi llawer o amser i ddatblygu [gwasanaethau ar-lein], a fydd yn helpu hynny’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

*Cyfranogi*

4.33 Nodwyd sawl ffactor mewn perthynas â’r ysgogiadau sydd gan athrawon ac ysgolion i ymgysylltu â’r rhwydweithiau. Ffactor sylweddol a chyffredin ym marn cydlynwyr oedd prinder cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y celfyddydau mynegiannol a dderbyniodd athrawon dros y degawd diwethaf. Cyfeiriodd cydlynwyr y rhwydweithiau at ymateb diolchgar, ac weithiau emosiynol, athrawon a gymerodd ran mewn sesiynau DPP.

> ‘Prin iawn yw’r DPP a gaiff athrawon. Ein mantais fawr ni yw nid yn unig yr ansawdd, ond ein bod yn talu am athro cyflenwi. Byddai llawer ddim yn dod heb dâl am athro cyflenwi. Mae rhai heb dderbyn DPP ers blynyddoedd’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

> ‘Mae rhai [athrawon] heb dderbyn unrhyw hyfforddiant fel hyn o’r blaen ac mae’r gyllideb ar gyfer hyfforddiant mor brin. Mae’r ffi am gyflenwi yn bwysig’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.34 Mewn grwpiau ffocws gydag athrawon, datgelwyd amryw ysgogiadau i ymgysylltu â’r rhwydweithiau. Roedd datblygiad proffesiynol yn ysgogiad mawr ym mhob un o’r grwpiau ffocws.

> ‘Mae’n gyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae’n dda cael cwrdd ag artistiaid a datblygu prosiectau fel y gallwn ni fynd yn ôl a rhannu gyda staff eraill yn yr ysgol’ (Grŵp Ffocws Athrawon EAS, 2018).

4.35 Roedd lefel anogaeth ac ymwneud y penaethiaid hefyd yn ffactor ysgogol cyffredin, ac roedd y ffaith bod y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus ar fin cael ei gyflwyno hefyd yn ffactor ategol.

> ‘Gyda’r cwricwlwm newydd, mae ein Pennaeth yn teimlo ei fod yn fuddiol i’r plant ac i’n DPP ni. Mae angen inni ddatblygu ffyrdd a mannau cychwyn gwahanol ar gyfer dysgu testunau’ (Grŵp Ffocws Athrawon NAWR, 2018).

4.36 Roedd rhai athrawon hefyd yn nodi cyswllt rhwng yr angen i ddatblygu arferion addysgu a gofynion tebygol y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

> ‘Mae’n fuddiol i bawb. Mae’n ffyrdd gwahanol i edrych ar addysgu’r cwricwlwm newydd. Maen nhw’n cynnig technegau a hyder ar gyfer rhan greadigol y cwricwlwm hwnnw ac rydyn ni fel arfer at ein clustiau gyda [llythrennedd a rhifedd]’ (Grŵp Ffocws Athrawon NAWR, 2018).

4.37 Meddai llawer o athrawon fod angen datblygu syniadau i addysgu’r celfyddydau mynegiannol yn yr ystafell ddosbarth, unwaith eto yn gysylltiedig mewn llawer o achosion â disgwyliadau gofynion y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

> ‘Rwy yma i gasglu syniadau ac ysgogi’r meddwl; dyma sut oeddwn i’n addysgu pan ddechreuais i arni. Gyda’r cwricwlwm newydd, mae angen inni baratoi a symud oddi wrth y blynyddoedd o gyflyru. Mae’n dod yn fwy ymarferol, felly mae angen inni feddwl am syniadau’ (Grŵp Ffocws Athrawon EDAU, 2018).

4.38 Roedd y cymorth ariannol i dalu am gyflenwi yn lle’r athrawon a fyddai’n mynd i’r hyfforddiant yn ffactor sylweddol o ran ysgogi a galluogi. Mae galw pendant, fel sydd i’w weld yng nghanfyddiadau’r arolwg sydd wedi’u hamlinellu isod, am yr hyn mae’r rhwydweithiau yn ei ddarparu.

> ‘O ran DPP, mae pawb yn werthfawrogol, ond os caiff y cyllid ei dynnu ymaith ni fydd yn digwydd eto’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.39 Roedd y Cydlynwyr o’r farn mai anoddach oedd ymgysylltu â staff ysgolion uwchradd a’u denu i’r sesiynau dysgu proffesiynol. Ystyriwyd mai llawer haws oedd marchnata a hyrwyddo manteision addysgu’r celfyddydau mynegiannol ymysg penaethiaid ac athrawon ysgolion cynradd nag ymysg athrawon uwchradd.

> ‘Mae cymaint o bethau fel y bu’n anodd cyrraedd mewn rhai achosion. [Ysgolion] uwchradd yw’r anoddaf am fod mwy o systemau yno. Dydyn ni ddim wedi dod o hyd i’r ffordd berffaith o’i wneud. Rydyn ni’n ymestyn allan drwy e-bost, Twitter, Facebook, consortiwm, ond nid yw’r un dull yn taro’r hoelen ar ei phen. Rwy fwyaf effeithiol pan gaf ger bron penaethiaid. Eleni, fe benderfynon ni roi ein holl raglen mewn taflen; mae hynny’n go effeithiol ond mewn llawer o ysgolion ni wnaeth fynd yn bellach na’r ysgrifennydd’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.40 Cafodd rhai Cydlynwyr Rhwydwaith anawsterau wrth ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd staff y rhwydweithiau o’r farn bod eu darpariaeth artistig yn ddigonol ond eu bod mewn gwirionedd yn ymwneud â dysgu diwylliannol yn hytrach nag addysgu’r celfyddydau mynegiannol neu ddefnyddio’r celfyddydau mynegiannol yn greadigol yn yr ystafell ddosbarth.

> ‘Mae crynodiad mawr o ysgolion [cyfrwng] Cymraeg sydd â deinameg cwbl wahanol o ran ymgysylltu â Chyngor y Celfyddydau a’r celfyddydau. Maen nhw’n llawer llai parod i ymgysylltu am eu bod yn ystyried bod ganddynt eu seilwaith diwylliannol eu hunain sy’n gyfoethog ac amrywiol. Mae ganddyn nhw set wahanol o bethau ar y gweill – mae fel bydysawd paralel. Mae llawer o ysgolion Cymraeg yn gwneud llawer o gelf beth bynnag ac yn meddwl nad oes angen iddyn nhw ymgysylltu. Mae wedi ymwreiddio’n ddyfnach mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae’r ymgysylltu’n go draddodiadol — llai o’r dysgu creadigol, annisgwyl, sy’n agor y meddwl. Mae’n ddysgu diwylliannol ond nid o anghenraid yn ddysgu creadigol’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

*Cyflawni allbynnau a chynnydd tuag at ganlyniadau*

4.41 Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddata o 2016/17, sef ail flwyddyn weithredu Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg. Casglwyd data monitro gan staff y rhwydweithiau ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r data'n cwmpasu cyfnod o ddatblygu a gweithredu, yn ogystal â chamau cynnar cyflawni allbynnau a gweithgareddau. Serch hynny, cynhaliwyd y cyfweliadau ansoddol yn ystod blwyddyn bresennol, sef trydedd flwyddyn weithredu'r rhwydweithiau, sef y flwyddyn lawn gyntaf o gyflawni yn llygaid llawer o staff y rhwydweithiau a'r staff rheoli. Ni ddylid ystyried bod y data, felly, yn dangos y cyflawni ar ei orau. Yn hytrach, mae'n dangos cyfnod lle y cafodd gweithgareddau eu datblygu a'u rhoi ar waith. Bydd y data y flwyddyn nesaf yn dangos y rhwydwaith yn cyflawni tra eu bod yn 'llwyr weithredol'.

4.42 Wrth adolygu'r data monitro a gwerthuso ar y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y rhwydweithiau, bodlonwyd Cyngor Celfyddydau Cymru bod pob rhwydwaith wedi cyflawni a chyrraedd ei dargedau ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 ac yn ymddangos ar y llwybr cywir i gyrraedd ei dargedau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Yn ôl y data a ddarparwyd gan y rhwydweithiau i Gyngor Celfyddydau Cymru, yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17, cynhaliodd y rhwydweithiau gyfanswm o fwy na 70 o ddigwyddiadau, gan ymgysylltu â chyfanswm o 1,446 o athrawon a 359 o artistiaid.

**Ffigur 4.1: Gweithgareddau'r rhwydweithiau a'r athrawon/artistiaid yr ymgysylltwyd â hwy: 2016/17**

| CYFANSYMIAU | Digwyddiadau | Athrawon | Artistiaid |
|---|---|---|---|
| **Rhwydweithio** | 35 | 1,192 | 201 |
| **DPP** | 36 | 228 | 135 |
| **Gweithgarwch Pencampwyr y Celfyddydau** | 7 | 26 | 23 |

Ffynhonnell: Data Cyngor Celfyddydau Cymru, fel a gyflenwyd gan y rhwydweithiau

4.43 Roedd y data ar gyfranogwyr a oedd ar gael i’w ddadansoddi ymhellach yn amrywiol o ran lefel y manylder. Nododd staff rheoli’r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru mai’r rheswm am hyn yn y lle cyntaf oedd am nad oedd staff y rhwydweithiau’n defnyddio’r templedi neu’r cyfarwyddiadau ar gyfer casglu ac adrodd data. Yn ail, roedd gofynion y data monitro yn esblygu, ac roedd data manylach yn cael ei gasglu wrth i newidiadau gael eu rhoi ar waith dros amser. Mae’r prosesau monitro sy’n cael eu datblygu, fodd bynnag, eisoes yn cynnig data soffistigedig at ddibenion y gwerthusiad.

4.44 Roedd data ynglŷn â theitl swydd y cyfranogwyr ar gael yn achos 1,188 o’r 1,805, sydd yn 65 y cant o’r cyfranogwyr. Cyflwynir y data ar y cyfranogwyr hyn yn Ffigur 4.2 isod, sy’n awgrymu bod athrawon ysgolion cynradd mwy dros ddwywaith mor debygol o ymgysylltu â’r rhwydweithiau nag athrawon uwchradd. Gellid ystyried bod hyn yn ategu’r data ansoddol o’r cyfweliadau â Chydlynwyr y Rhwydweithiau a awgrymai anawsterau o ran ymgysylltu ag ysgolion uwchradd a’u staff. Posibilrwydd pellach, fodd bynnag, yw bod gan staff ysgolion uwchradd resymau pellach neu anhysbys am beidio ag ymgysylltu â’r rhwydweithiau.

**Ffigur 4.2: Cyfranogwyr sy’n gysylltiedig â gweithgareddau**

| **Cyfranogwyr sy’n gysylltiedig â gweithgareddau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr Proffesiynol Creadigol | Athro Uwchradd / AB | Athro Cynradd | Athro - Arall | Arall |
| 349 | 180 | 434 | 206 | 19 |

Ffynhonnell: Data Cyngor Celfyddydau Cymru, fel a gyflenwyd gan y rhwydweithiau

4.45 Roedd consensws eang hefyd y byddai trydedd flwyddyn y rhwydweithiau (blwyddyn llunio’r adroddiad hwn) yn hanfodol o ran adeiladu momentwm ac ehangu cyrhaeddiad y rhwydweithiau. Fel sefydliad newydd sydd angen datblygu, hyrwyddo a marchnata, y teimlad oedd y neilltuwyd y 12-18 mis cyntaf i sefydlu a diffinio ei rôl yn y cymunedau addysgol ac artistig. Serch hynny, pryder yn gysylltiedig â hyn, yn sgil cymryd amser i’w sefydlu a’u diffinio eu hunain, oedd y byddai’r amser y byddai’r rhwydweithiau yn ‘llwyr

weithredol’ ac yn gallu cyflawni eu hamcanion craidd yn effeithiol wedi’i gyfyngu i 2-3 blynedd. Mae angen data pellach er mwyn archwilio p’un a yw’r cyfnod sefydlu hir ac, yn sgil hynny, yr oes gyfyngedig pan mae’r rhwydweithiau yn ‘llwyr weithredol’ yn cynrychioli gwerth am arian.

> ‘Mae rhywfaint o angen i Lywodraeth Cymru ddangos ffydd. Mae’n cymryd amser a bydd yn cymryd amser, ond bydd yn cyflawni. Roedden nhw’n disgwyl y byddai’n newid Cymru ar unwaith; rydyn ni’n magu momentwm ond mae’n cymryd amser. Mae synnwyr o ‘nad yw’n gweithio’ yn diysgogi rhywun’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.46 Mae’r data monitro a gasglwyd, ynghyd â’r targedau, yn caniatáu cyflwyno tystiolaeth o gynnydd. Wrth i ddata mwyfwy manwl o flwyddyn ‘llwyr weithredol’ ddod ar gael ar gyfer yr adroddiad nesaf, bydd yn bosibl cynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o gynnydd tuag at y targedau.

4.47 Mae materion allweddol yn parhau ynglŷn â’r data a gasglwyd sy’n cyfyngu ar y gallu i gyflwyno tystiolaeth o gynnydd tuag at effaith ddamcaniaethol y rhwydweithiau a’r canlyniadau a amlinellwyd yn adroddiad y Theori Newid. Er mwyn dangos a chyflwyno tystiolaeth bod yr hyn sy’n cael ei gyflawni yn cyfrannu at ganlyniadau’r rhaglen, mae angen mwy o ddata ynglŷn â pha fuddion mae buddiolwyr yn eu cael o ymwneud â’r rhwydweithiau.[19]

4.48 Yn gyntaf, byddai data a diffiniadau manylach ynglŷn ag effaith gweithgareddau allweddol yn fuddiol i’r gwerthusiad ac ymdrechion i gyflwyno tystiolaeth o gynnydd tuag at y canlyniadau. Yn benodol:

1) Byddai data a diffiniadau manylach ynglŷn ag effaith ‘arferion gorau’ sy’n cael eu rhannu gan y rhwydweithiau a Phencampwyr y Celfyddydau yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach a thystiolaeth o effaith Maes 2 ar addysgu

[19] Y tu hwnt i’r canlyniadau ar draws y rhaglen, roedd y Theori Newid yn nodi tri o ganlyniadau interim penodol ar gyfer Maes 2 sy’n canolbwyntio ar athrawon yn benodol. Mae’r rhain fel a ganlyn: 1) Mae ymwybyddiaeth athrawon o werth sgiliau creadigol ar gyfer addysgu ac ar gyfer dysgwyr yn cynyddu; 2) Mae athrawon yn newid y ffordd y maent yn addysgu — yn cynyddu eu defnydd o ddulliau creadigol; 3) Mae athrawon yn ymgysylltu â gweithgareddau celfyddydol a chreadigol y tu allan i’r ysgol. Dylai’r canlyniadau interim hyn arwain at y canlyniadau terfynol. Yn y cyfamser, mae’r canlyniadau interim ar gyfer artistiaid fel a ganlyn: 1) Mae ymwybyddiaeth artistiaid o werth sgiliau creadigol ar gyfer addysgwyr a dysgwyr yn cynyddu; 2) Mae cynnydd yn y cyflenwad o wasanaethau i ysgolion o oddi mewn i sectorau’r celfyddydau. Bydd y rhain yn arwain at y canlyniadau terfynol mewn perthynas ag 1) Artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol; 2) Newidiadau oddi mewn i fodelau’r artistiaid a sefydliadau celfyddydol (hunan-effeithiolrwydd).

ac addysgeg. Mae’r canllawiau yn gofyn i Bencampwyr Lleol y Celfyddydau:

> ‘…rannu eu sgiliau, arbenigedd a brwdfrydedd gydag athrawon ac ysgolion eraill, ac ymgymryd â rôl eiriolwyr cyhoeddus y celfyddydau mewn addysg... Dylid gwneud cysylltiadau hefyd â grwpiau gwella ysgolion presennol a’r Consortia Addysg Rhanbarthol i sicrhau y caiff y rhan hon o’r briff ei chyflawni’n llwyddiannus’ (Canllawiau Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, 2015).

Er bod y diffiniad yn caniatáu ar gyfer monitro a chofnodi gweithgarwch, dylid ceisio data manylach, yn arbennig o ran effaith y gweithgareddau a pherthnasedd yr ‘arferion gorau’ i athrawon, a all gysylltu â’r canlyniadau allweddol a nodwyd gan y Theori Newid.

2) Byddai data a diffiniadau manylach ynglŷn ag effaith ‘cyfleoedd rhwydweithio’ hefyd yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach a thystiolaeth o effaith gweithgareddau ar y proffesiwn addysgu a sector y celfyddydau. Mae’r Canllawiau’n nodi:

> ‘Rydym [Cyngor y Celfyddydau] yn disgwyl i bob Rhwydwaith gyflawni cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio wedi’u dylunio i annog cyfnewid gwybodaeth a rhannu arferion gorau. Bydd yn arbennig o bwysig rhoi ystyriaeth i anghenion a diddordebau penodol ysgolion ac ymarferwyr y celfyddydau’ (Canllawiau Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, 2015).

Byddai data manylach ynglŷn â chyfraniad, perthnasedd ac effaith digwyddiadau rhwydweithio ar athrawon yn galluogi i’r rhwydweithiau gael eu gwerthuso yn gadarnach.

3) Yn yr un modd, mewn perthynas â’r ‘gwasanaeth broceru’, mae’r canllawiau yn galw am y canlynol:

> ‘Dylai’r Rhwydwaith weithredu fel brocer rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydol, gan greu cyswllt rhwng ysgolion ac artistiaid a sefydliadau celfyddydol a all gynnig ansawdd addas – ac ehangder arbenigedd. Disgwyliwn i bob Rhwydwaith feddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion yr ysgolion a gweithio i baru’r anghenion hynny â gweithgareddau a

phrosiectau celfyddydol/creadigol/diwylliannol addas' (Canllawiau Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, 2015).

Fel yn achos y gweithgareddau blaenorol a amlinellir uchod, er bod modd cofnodi achosion o weithgarwch, bydd data a diffiniadau manylach ynglŷn ag effaith y gwasanaeth broceru ar athrawon a'u hymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol a'u dulliau haddysgu hefyd yn galluogi i weithgarwch y rhwydweithiau gael ei werthuso'n gadarnach.

4.49 Yn ail, y cyfweliadau ansoddol a gynhaliwyd gyda chydlynwyr a Phencampwyr y Celfyddydau, yn ogystal â'r grwpiau ffocws gydag athrawon fel rhan o'r ymweliadau â'r rhwydweithiau, yn unig sydd ar hyn o bryd yn darparu data'n ymwneud â pherthnasedd y DPP i athrawon. Bydd ffynonellau eraill sy'n disgrifio perthnasedd yr hyfforddiant i athrawon yn galluogi cyflwyno tystiolaeth bellach o'r effaith ar addysgeg ac athrawon.

*Cyflawni (yn gyffredinol)*

4.50 Mae'r gwahaniaethau creiddiol sy'n deillio o ddyluniad y pedwar rhwydwaith wedi arwain at fanteision clir ar y cam cyflawni. Un fantais gyffredin oedd y cyfle i rannu profiadau ac arferion da rhwng staff y rhwydweithiau. Roedd y staff rheoli yn ymwybodol o enghreifftiau a ddeuai i'r amlwg o rannu arbenigedd, a chyfeiriodd y cydlynwyr at achosion presennol o rannu darpariaeth ond hefyd at y posibilrwydd o wneud mwy.

'Mae gan bob un ei faes arbenigedd — treftadaeth yn Ne-ddwyrain Cymru a cherddoriaeth yng Ngogledd Cymru. Maen nhw'n dechrau rhannu eu harbenigedd â'i gilydd' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

'Pe byddwn i'n cael athro o Gasnewydd yn gwneud cais a bod gen i le, byddai hynny'n iawn gen i. *Quid pro quo* gyda [rhwydweithiau eraill], yn arbennig pobl ar ymylon y rhanbarthau. Mewn gwirionedd, mae gennym lawer o artistiaid gan mae Caerdydd a'r Fro ydyw, felly'n amlwg maen nhw am weithio mewn mannau eraill' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

‘Rydyn ni’n rhannu ein rhaglen gyda rhwydweithiau eraill, er y dylen ni gydlynu mwy. Fe allen ni fod yn rhannu rhai adnoddau hefyd’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.51 Bu daearyddiaeth Cymru yn her benodol i rai rhwydweithiau. Mae’n rhaid i Edau a NAWR (Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru) ddarparu gweithgareddau i ardal ddaearyddol fawr sydd â phoblogaeth wasgaredig. Bu cynnal digwyddiadau sy’n gyfleus o ganolog neu hygyrch yn her, ac mae angen dyblygu digwyddiadau mewn lleoliadau gwahanol er mwyn sicrhau y cyflwynir cyfleoedd tebyg i bob athro ac artist.

‘Gall Caerdydd gynnal popeth yng Nghaerdydd a does dim problem gan neb. Ni allaf i wneud hynny am fod fy rhanbarth yn enfawr ac mae’r ysgolion wedi’u dosbarthu yn go wastad [ar draws y rhanbarth] ar wahân i Abertawe’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhanbarth, 2018).

4.52 Roedd y cysylltiadau rhwng y rhwydweithiau a’r Consortia Addysg Rhanbarthol yn amrywio o ran dwyster ac effeithiolrwydd. Mae rhai rhwydweithiau a chonsortia wedi datblygu perthnasoedd gweithio da iawn, lle bu’r rhwydweithiau yn rhannu gwybodaeth, gan arwain at well cynllunio a datblygu darpariaeth wedi’i thargedu er mwyn cynorthwyo blaenoriaethau’r consortia.

‘Mae gen i’r berthynas orau â’r consortiwm addysg fan hyn. Rydyn ni’n gweithio’n agos a phob amser yn edrych am sut gallwn ni gydweithio. Os ydyn nhw’n gweithio gyda phenaethiaid celf neu gerddoriaeth, er enghraifft, gallaf i ddod i mewn i gwmpasu’r hyn sydd ei angen arnyn nhw a siarad gyda nhw am beth mae’r rhwydwaith yn ei wneud ac yn gallu ei gynnig iddyn nhw’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

‘Meddai’r [consortia] wrthym ni fod llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen yn broblem yn y rhanbarth. Felly rydyn ni wedi datblygu pecyn [o gymorth a hyfforddiant] ar hynny. Hoffwn i petai Llywodraeth Cymru yn gweld a chlywed yr hyn mae’r athrawon yn ei ddweud — y bydden nhw’n gweld ein bod ni’n cyrraedd yr athrawon yn y ffordd iawn. Hoffwn i petaen nhw’n dod i’w weld’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

*Rheoli*

4.53 Gwnaed newidiadau i Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg a gafodd effaith ar lwyth gwaith a natur y gwaith a wnaed gan staff y rhwydweithiau. Mae'r penderfyniad i sefydlu targedau clir a chasglu data monitro, a drafodwyd yn fanwl uchod, wedi cynyddu'r amser y mae'n rhaid i staff y rhwydweithiau neilltuo i dasgau gweinyddol.

4.54 O ganlyniad, meddai staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru fod ganddynt well gafael ar y gweithgareddau ar lawr gwlad a'u bod mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r rhwydweithiau. Mae'r data monitro sy'n cael ei gasglu hefyd yn dangos bod y rhwydweithiau yn cyflawni'r allbynnau a fwriadwyd. Serch hynny, mae pryderon yn parhau, ac fe'u hamlinellwyd uchod, ynglŷn â'r data sydd ar gael er mwyn gwerthuso'r cynnydd tuag at y canlyniadau a fwriadwyd.

4.55 Mae staff Cyngor y Celfyddydau hefyd yn credu bod y newidiadau wedi cynyddu atebolrwydd y rhwydweithiau ac wedi darparu lefel uwch o dryloywder i'r maes a'r rhaglen.

4.56 Roedd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod nad oedd modd iddynt fynychu cymaint o weithgarwch ag yr hoffent, oherwydd natur y rhaglen yn ei chyfanrwydd a'r capasiti i gyflawni. Roedd y gred yn gryf hefyd ymysg staff y rhwydweithiau y gellid gwella'r ddeialog rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r rhwydweithiau. Yn wir, teimlai staff y rhwydweithiau, fel sefydliadau 'llawr gwlad', y byddai eu profiadau a'u dealltwriaeth o anghenion athrawon yn fewnbwn gwerthfawr i Gyngor Celfyddydau Cymru ei hun, gan gynorthwyo i ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion ysgolion ac athrawon mewn perthynas â'r celfyddydau a sgiliau addysgu creadigol.

4.57 Ar adeg cynnal y gwaith maes, roedd rhai o staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn cydnabod bod lle i sicrhau gwell cyfathrebu rhwng y rhwydweithiau a'u staff ynglŷn â dealltwriaeth Cyngor y Celfyddydau o'r rhaglen, yn ogystal â lle'r rhwydweithiau ynddi.

> ‘Gallai’r cyfathrebu fod yn well rhwng Cyngor y Celfyddydau a’r rhwydweithiau. Dydyn nhw [y rhwydweithiau] ddim mor agored pan nad ydyn nhw’n siŵr am bethau, felly fe allen ni fod yn well ar esbonio’r hyn sydd ei eisiau arnom ni. Ond pan ofynnwn a oes anawsterau o ran cyfathrebu, maen nhw’n dweud eu bod nhw’n iawn. Ond rwy’n teimlo y gallen nhw wneud y tro â mwy o eglurder ynglŷn â gweddill y rhaglen a’u rôl nhw ynddi’ (Cyfweliad â’r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

4.58 Bydd datblygiadau diweddar a ddyluniwyd i fynd i’r afael â’r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn ynglŷn â chyfathrebu oddi mewn i wahanol feysydd y rhaglen a rhwng y gwahanol sefydliadau sy’n rhanddeiliaid yn cael eu harchwilio mewn gwaith maes gwerthuso yn y dyfodol.

4.59 Serch hynny, mae rhai achosion lle mae enghreifftiau o arferion cyfathrebu da yn bodoli, a lle mae perthnasoedd gweithio da rhwng y cydlynwyr a staff Cyngor Celfyddydau Cymru wedi galluogi staff y rhwydweithiau i fynd i’r afael â materion sy’n codi.

> ‘Cawn arweiniad gan Gyngor y Celfyddydau. Mae gennym ni berthynas dda iawn â Chyngor y Celfyddydau a cheisiwn ddeall o ble maen nhw’n dod … Rwy’n credu fy mod i’n go ffodus. Gallaf gael paned o goffi gyda [staff rheoli’r rhaglen yng Nghyngor y Celfyddydau]. Bu rhai pethau nad oedden ni’n eu deall yn llwyr, ond mae’r berthynas yn golygu y gallwn ni godi’r ffôn’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

*Llwyddiannau a chyfyngiadau*

4.60 Ar gyfer y flwyddyn gyntaf (2016-17) yn unig y mae data monitro ar gael, a chyflawni rhannol yn unig y mae hyn yn ei gynnwys. Roedd y flwyddyn gyntaf o gyflawni’n llawn ar waith ar adeg llunio’r adroddiad hwn. Serch hynny, mae staff rheoli’r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn fodlon â pherfformiad y rhwydweithiau, a meddent fod llawer o gynnydd wedi’i wneud dros amser; ymhellach, roeddynt yn fodlon eu bod yn agosach at gyflawni eu targedau unigol ar gyfer y flwyddyn bresennol.

‘Eu gwir gryfder yw’r cyfuniad o’r hyn a wnânt yn hytrach nag un ardal benodol. Maen nhw’n siop un stop i athrawon y celfyddydau creadigol. Eu llwyddiant mawr yw mai nhw yw’r rhai i droi atyn nhw’ (Cyfweliad â’r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

‘Mae popeth yn gweithio’n dda er gwaethaf yr anawsterau o weithio – ninnau gyda hwythau a hwythau gyda ninnau. Y daith rydyn ni wedi bod arni dros y flwyddyn ddiwethaf, y strwythur adrodd ac ati, rydyn ni wedi gallu mireinio’r ffordd y mae’r rhaglen yn gweithio er mwyn creu cynnig 360. Mae’r Ysgolion Creadigol Arweiniol wastad wedi bod ar flaen y gad, ond mae Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan yr un mor ddilys. Mae’n bryd inni edrych ar beth gallwn ni wneud nesaf i’w wella hyd yn oed ymhellach’ (Cyfweliad â’r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).


4.61 Mae’r data monitro a gyflwynwyd gan y rhwydweithiau i Gyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn dangos cyrhaeddiad ac effaith y rhwydweithiau. Fel a nodwyd yn flaenorol, mae’r data monitro ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 yn dangos i’r rhwydweithiau gynnal cyfanswm o fwy na 70 o ddigwyddiadau, gan ymgysylltu a chyfanswm o 1,446 o athrawon a 359 o artistiaid. Mae staff y rhwydweithiau a staff rheoli’r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn disgwyl i ragor o ddigwyddiadau cael eu cynnal ac i’r rhwydweithiau ymgysylltu â rhagor o unigolion yn ystod y drydedd flwyddyn (y flwyddyn bresennol) o weithredu.

4.62 Adroddodd staff y rhwydweithiau y derbyniwyd adborth cadarnhaol gan athrawon, yn arbennig ynglŷn â’r sesiynau dysgu proffesiynol. Fel a nodwyd, cyfeiriai’r athrawon a staff y rhwydweithiau yn aml at fod y diffyg neu’r gostyngiad mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol allanol yn ysgogiad allweddol, a’r mesur o werthfawrogiad o ddarpariaeth y rhwydweithiau. Roedd hyn yn benodol o berthnasol i gyfleoedd dysgu proffesiynol a hyfforddiant mewn perthynas â’r dyniaethau neu’r celfyddydau mynegiannol.

‘Mae’n dda cael bod ar gwrs ar wahân i rifedd neu lythrennedd. Mae gen i ddiddordeb ynddo, ond dydi’r dyniaethau ddim wedi bod yn bwysig ers blynyddoedd’ (Grŵp Ffocws Athrawon Edau, 2018).

4.63 Mae data o arolwg yr athrawon a'r artistiaid a gyflwynir yn Ffigur 4.3 isod yn awgrymu, o blith yr athrawon a'r artistiaid hynny sydd wedi defnyddio'r rhwydweithiau a'u gwasanaethau neu gymorth, mae'r lefelau boddhad yn arbennig o uchel. Roedd pob ymatebydd a oedd wedi defnyddio Pencampwyr y Celfyddydau o'r farn fod y cymorth yn rhagorol, a'r farn i raddau helaeth iawn ar yr holl wasanaethau a'r cymorth eraill a ddarparwyd gan y rhwydwaith oedd eu bod yn rhagorol neu'n dda (83–92%).

**Ffigur 4.3: Beth yw eich barn ar... o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael a 5 yn rhagorol)?**





Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

4.64 Er bod hyn yn seiliedig ar sampl fach, mae'r data o arolwg yr athrawon a'r artistiaid yn awgrymu, hyd yn oed o blith yr athrawon a oedd eisoes yn gyfarwydd â rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, roedd llai na hanner yn ymwybodol o'r rhwydweithiau. 40 y cant o'r athrawon a 66 y cant o'r artistiaid yn unig a oedd yn ymwybodol o Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg.

4.65 Ymhellach, fel y mae'r data o arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid a gyflwynir yn Ffigur 4.4 yn awgrymu, gallai'r ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r cymorth penodol sydd ar gael hefyd fod yn uwch. O'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn ymwybodol o'r rhwydweithiau, y cyfleoedd rhwydweithio a DPP oedd yn fwyaf cyfarwydd, a hynny i 48 y cant a 42 y cant o athrawon yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn eu trefn. Roedd yr adnoddau a Phencampwyr y Celfyddydau, wedyn, yn gyfarwydd i 27 y cant a 18 y cant o'r athrawon yn unig, yn eu trefn.

**Ffigur 4.4: Pa rai o'r gweithgareddau canlynol ydych yn ymwybodol bod eich Rhwydwaith Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg yn eu cynnal?**





Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

N=74

4.66 Mae Ffigur 4.5, wedyn, yn cyflwyno data yn ymwneud ag ymatebwyr a oedd heb glywed am y rhwydweithiau, ond y gofynnwyd iddynt a fyddai ganddynt ddiddordeb yn y gwasanaethau a'r cymorth y maent yn eu cynnig. Mae'r data (er ei fod yn seiliedig ar sampl fach) yn awgrymu bod galw cryf am yr hyn mae'r rhwydweithiau yn ei gynnig.

**Ffigur 4.5: (Os na) A fyddai gennych ddiddordeb yn...**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018
N=58

4.67 Mae'r data ansoddol a meintiol yn awgrymu lefelau uchel o fodlonrwydd â pherfformiad y rhwydweithiau. Mae staff y rhwydweithiau a'r staff rheoli wedi'u bodloni bod y rhwydweithiau'n cyflawni, ac mae'r athrawon sy'n ymwneud â'r rhwydweithiau wedi'u bodloni â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chyflawni. Serch hynny, mae'r data'n awgrymu bod lle i hyrwyddo'r rhwydweithiau ymhellach ymysg athrawon er mwyn ateb y galw y mae arolwg yr athrawon a'r artistiaid hefyd yn tystio iddo.

*Etifeddiaeth a gwerth ychwanegol*

4.68 Roedd y staff rheoli strategol o'r farn ei bod yn anodd ar y cam presennol o gyflawni i asesu'r effaith mwy hirdymor, ac felly etifeddiaeth y rhwydweithiau.

4.69 Roedd staff y rhwydweithiau, fodd bynnag, yn fwy hyderus yn yr etifeddiaeth a gaiff ei gadael ganddynt yn sgil y gweithgareddau hyd yma. Awgryment fod y perthnasoedd a adeiladwyd drwy'r digwyddiadau rhwydweithio yn parhau i'r dyfodol waeth beth fydd dyfodol y rhwydweithiau fel cyrff cyflawni.

> 'Bydd perthnasoedd yn parhau. Mae grwpiau tynn wedi'u ffurfio a byddant bob amser yn adnabod ei gilydd' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.70 Credai staff y rhwydweithiau a staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru bod y syniad o artistiaid yn gweithio gydag ysgolion ac oddi mewn i ysgolion wedi'i ymwreiddio ym meddylfryd llawer o athrawon, artistiaid ac ysgolion. Roedd y staff rheoli a staff y rhwydweithiau hefyd yn ystyried y byddai'r fath weithgareddau yn parhau heb y lefel o gymorth a dderbyniwyd gan y rhwydweithiau.

> 'Dylai'r hyn rydyn ni'n ei roi yn ei le olygu y bydd llawer mwy o athrawon yn llawer mwy parod i ymwneud â'r agenda. Dylai'r gronfa ddata fod yn go hunangynhaliol. Gydag ychydig o fân newidiadau yn unig, dylai barhau' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.71 Serch hynny, roedd rhai o Gydlynwyr y Rhwydweithiau hefyd o'r farn y dylai rhai gweithgareddau allweddol barhau heb adnoddau.

> 'Nid yw adeiladu perthnasoedd yn costio arian, ac maen nhw'n rhwydweithio. Does dim rhaid inni gynnal digwyddiadau ar gyfer rhwydweithio' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.72 Mae pob rhwydwaith hefyd wedi datblygu platfformau ar-lein sy'n cynnig cymorth a gwasanaethau i artistiaid ac athrawon. Gallai platfformau o'r fath barhau i'r dyfodol, y tu hwnt i oes y rhwydweithiau. Caiff y platfformau eu trafod yn fanylach mewn adran yn nes ymlaen mewn perthynas â'r Parth Dysgu Creadigol.

4.73 Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, roedd diffyg eglurder ymysg staff y rhwydweithiau yn benodol ynglŷn â chyfraniad y rhwydweithiau yn y pen draw neu eu nod terfynol. Er bod hyder clir ymysg staff y rhwydweithiau a staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru y byddai'r rhwydweithiau yn cyrraedd eu targedau ac yn cyflawni eu pum amcan craidd, roedd awydd hefyd i ddatblygu'r cyfraniad y gallai'r rhwydweithiau wneud i nodau ehangach rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

4.74 Mae staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, fodd bynnag, yn datblygu gwerthfawrogiad o effaith ehangach bosibl y rhwydweithiau. Yn fwy penodol, roedd y staff rheoli, staff rheoli strategol a staff y rhwydweithiau o'r farn bod consensws eang, wrth ddatblygu gwerth ychwanegol a sicrhau etifeddiaeth gryfach i'r rhwydweithiau, y gallai'r rhwydweithiau fod yn blatfformau addas ar gyfer cyfarwyddo athrawon (ac artistiaid) a darparu cymorth dysgu a rhwydweithio proffesiynol ynglŷn â datblygu'r cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

> 'Cymrodd flwyddyn dda i'r rhwydweithiau gychwyn arni. Mae'n anochel bod ysgolion am gael union yr un profiad pan fyddan nhw'n wynebu'r cwricwlwm newydd ac maen nhw am droi at bethau fel y rhwydwaith am gymorth. Bydd angen pobl arnyn nhw i froceru perthnasoedd, cynnig hyfforddiant, creu cyfleoedd i rwydweithio' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

4.75 Roedd y farn y gallai'r rhwydweithiau gael eu hail-ddylunio neu'u datblygu ymhellach er mwyn cynorthwyo newid i'r cwricwlwm yn cael ei rhannu gan staff y rhwydweithiau hefyd.

> 'Gallai fod yn ddelfrydol i rannu arferion da er mwyn ymateb i'r cwricwlwm sy'n newid. Rydyn ni'n dechrau gweld pethau cyffrous ac mae'n hyfforddiant o ansawdd da. Yn sicr, mae yma rôl mwy hirdymor i rannu arferion da' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

‘Mae’r cwricwlwm newydd yn newid pethau’n araf, ond mae rhai athrawon heb hyd yn oed sylweddoli bod cwricwlwm newydd. I gychwyn, meddai Estyn fod arolygwyr yn cael eu hyfforddi i roi ystyriaeth iddo, ond mewn gwirionedd nid dyna’r achos bob amser. Nawr maen nhw’n dechrau edrych yn weledol am greadigrwydd a’r celfyddydau. Pan mae Estyn yn gwneud hynny, dyna’r hwb sydd ei angen ar Benaethiaid’ (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.76 Roedd y syniad o’r rhwydweithiau yn cael eu datblygu i gynorthwyo i baratoi at y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus, a’i roi ar waith, hefyd yn cael ei ategu gan y staff rheoli yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Ar adeg cynnal y gwaith maes, roedd y staff yn ystyried ymarferoldeb cyfrannu at y broses ehangach o ddiwygio’r cwricwlwm a chefnogi’r broses honno.

*Pencampwyr y Celfyddydau*

4.77 Roedd gofyn i bob rhwydwaith ddatblygu Pencampwyr y Celfyddydau. Serch hynny, mae’r data’n awgrymu, yn ôl y bwriad yn y cynllun cychwynnol, bod Pencampwyr y Celfyddydau yn gweithredu ychydig yn wahanol ar draws y rhwydweithiau a’r farn ym mhob rhwydwaith oedd bod y rôl yn dal i ddatblygu. Mae’r adran hon yn cynnig y diweddariad cyntaf ar gynnydd Pencampwyr y Celfyddydau a bydd yn canolbwyntio ar amlinellu’r modd y maent yn gweithredu’n ymarferol.

4.78 Fel cydran bellach o Faes 2, fel a ddyluniwyd yn y cynllun gwreiddiol, gall ysgolion enwebu aelod o staff i rôl Pencampwr Creadigrwydd a Chelfyddydau’r Ysgol. Y person yma fyddai’r cyswllt rhwng eu hysgol a’r cyfleoedd sydd ar gael drwy’r rhwydwaith rhanbarthol. Yn wreiddiol, y disgwyl oedd mai athrawon profiadol yn y celfyddydau fyddai’r Pencampwyr. Byddai eu hysgolion yn cael eu hariannu i’w rhyddhau er mwyn treulio cyfnodau byr yn hyrwyddo arferion gorau, cynorthwyo eraill i fabwysiadu dulliau tebyg a/neu ddod ag eraill i mewn i’w hysgol i arsylwi a dysgu. Caiff artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol hefyd y cyfle i ymgymryd â’r rôl hon.

4.79 Yn ymarferol, cysylltir ag athrawon neu artistiaid yn anffurfiol i gychwyn, cyn ymgymryd â'r broses enwebu. Roedd Pencampwyr y Celfyddydau eu hunain naill ai'n athrawon, yn artistiaid neu'n unigolion sy'n gweithio yn niwydiant y celfyddydau. Athrawon yn unig a benodwyd i rolau Pencampwyr y Celfyddydau gan rai rhwydweithiau, ac roedd eraill yn dewis cymysgedd o bersonél.

4.80 Mae Pencampwyr y Celfyddydau yn cyflawni nifer o rolau yn ymarferol; roedd y rolau hyn yn amrywio rhwng y rhwydweithiau ac yn datblygu dros amser. Mewn rhai rhwydweithiau, ystyrir bod Pencampwyr y Celfyddydau yn gweithredu fel 'brocerwyr' arferion da. Byddent yn ymweld ag ysgolion ac yn rhannu arferion da rhwng athrawon ac ysgolion, neu'n creu cyswllt rhwng athrawon ac eraill yn yr ardal.

> 'Mewn ysgolion cynradd, rydyn ni'n cynnal cwrs o'r enw '*Music No Frills*', sy'n addysgu ac adnewyddu sgiliau'n ymwneud ag addysgu canu i blant. Pan awn ni i'r clystyrau [ysgolion], rydyn ni'n trafod a chynllunio holiaduron ac yn llywio'r cyrsiau at anghenion yr athro a sut i greu cyswllt â'r celfyddydau a drama a rhannu rhai argymhellion' (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018).

4.81 Mewn rhai achosion, roedd Pencampwyr y Celfyddydau yn ymdebygu i gynghorwyr neu fentoriaid addysgu i adrannau neu athrawon unigol. Byddent yn ymweld ag ysgolion yn y rhanbarth ac yn gweithio gydag athrawon unigol i ddatblygu darpariaeth y celfyddydau mynegiannol yn yr ysgolion hynny.

> 'Fel cerddor, mi allaf i gynnig cyngor i athrawon cerddoriaeth mewn ysgolion uwchradd lle mae'r athrawon yn amharod. Dwi yno i helpu ysgolion ddatblygu, yn arbennig athrawon. Dwi'n rhannu adnoddau neu'n helpu ysgol sydd eisiau addysgu Safon Uwch gydag athro sydd heb ei addysgu o'r blaen' (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018).

4.82 Mewn achosion eraill, roeddynt yn ystyried mai eu rôl oedd ategu'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm, yn ogystal â datblygu agweddau addysgegol ar y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

> 'Dydi cerddoriaeth neu'r celfyddydau mynegiannol ddim fel arfer yn cael ei gynnwys fel rhan o amser cwricwlwm. Fy rôl i yw ail-addysgu neu ail-gyflwyno'r rhan gerddoriaeth neu'r celfyddydau mynegiannol honno o'r cwricwlwm. Mae hefyd yn rhaid i mi gysylltu â Donaldson a phwysleisio y gall creadigrwydd gael ei addysgu drwy gerddoriaeth' (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018).

4.83 Roedd Pencampwyr y Celfyddydau a oedd yn athrawon hefyd yn cael eu hystyried yn gyfranwyr gwybodaeth gwerthfawr iawn i'w cydlynwyr perthnasol. Defnyddiodd y rhwydweithiau eu hadborth a'u dealltwriaeth er mwyn cyfarwyddo eu gwaith cynllunio a datblygu eu hunain.

> 'Daeth y themâu ar gyfer DPP oddi wrth Bencampwyr y Celfyddydau. Nhw yw'r ymarferwyr 'byw' neu 'lawr gwlad'. Y rheswm na chawn ni unrhyw gwynion yw am fod y cyrsiau'n berthnasol ac iddyn nhw mae'r diolch am hynny' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

> 'Pencampwyr y Celfyddydau yw fy ysbrydoliaeth. Dyna i gyd oedd gennym ni ar y dechrau oedd pum canlyniad a phot o arian – fi oedd i benderfynu ar y gweddill. Fy Mhencampwyr y Celfyddydau yw fy narn canol – maen nhw'n bwydo'n ôl yr hyn sydd ei angen ar athrawon ac yn cyfarwyddo'r hyn rwy'n gwneud a pham rwy'n ei wneud' (Cyfweliad â Chydlynydd Rhwydwaith, 2018).

4.84 Fodd bynnag, awgrymodd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor y Celfyddydau y byddai'n well ganddynt gael mwy o ddylanwad dros Bencampwyr y Celfyddydau o ran eu rôl a'u gweithgarwch. Awgrymodd y staff fod Pencampwyr y Celfyddydau wedi cymryd mwy o amser i ymsefydlu. Ymhellach, o ystyried yr amrywiaeth rhwng y rhwydweithiau, ni ystyrir bob amser fod Pencampwyr y Celfyddydau yn efelychu'r ymagwedd rhwng cymheiriaid a fwriadwyd i gychwyn ac a awgrymwyd gan y canllawiau. Yn olaf, credai'r staff mai anoddach, o'r herwydd, oedd diffinio rôl Pencampwr y Celfyddydau o gymharu â'r Asiantau Creadigol fel rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

4.85 Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â chyrhaeddiad Pencampwyr y Celfyddydau. Yn dilyn cyfnod o ddiffinio a sefydlu cyfrifoldebau’r rôl oddi mewn i bob rhwydwaith ac ymysg y rhwydweithiau, mae’r ffocws wedi symud i hyrwyddo’r rôl ac annog ymgysylltiad.

> ‘Mae angen inni gael yr ysgolion hynny nad ydynt mor gadarnhaol â ni. Sut mae pregethu i’r rhai sydd heb eu hargyhoeddi, neu nad ydyn nhw’n gwybod bod angen cymorth arnyn nhw? Rydyn ni wedi bod yn gwneud proffiliau o’r rhai y mae angen y cymorth arnyn nhw. Sut mae cyrraedd yr athrawon sydd ddim yn cael yr e-byst?’ (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018)

## 5. Cronfa Profi'r Celfyddydau

5.1 Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau wedi'i ddylunio i annog ysgolion i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc 'fynd un cam ymhellach' wrth iddynt archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Mae iddi ddwy elfen: 'Ewch i Weld' a 'Chydweithio Creadigol'. Lansiwyd y ddwy elfen ym mis Mawrth 2016.

*Dylunio a rheoli Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol*

5.2 Mae Ewch i Weld yn rhoi'r cyfle i ysgolion ymgeisio am grantiau untro bach o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau unigol â digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol o ansawdd uchel mewn lleoliadau ledled Cymru. Gallai profiadau gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau er mwyn profi gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau yn datblygu a chreu eu gwaith.

5.3 Mae proses ymgeisio'r gronfa wedi'i dylunio i fod yn 'llai manwl' o gymharu â'r broses ymgeisio fanwl ar gyfer Cydweithio Creadigol. Roedd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru o'r farn bod y dull hwn yn dal i fod yn addas ar gyfer maint y grantiau sydd ar gael.

5.4 Bwriad rhaglen Cydweithio Creadigol yw dwyn ysgolion a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ynghyd i weithio ar prosiectau arloesol. Bu grantiau o rhwng £5,000 a £25,000 ar gael i ariannu hyd at 90 y cant o gost prosiect.

5.5 Caiff y ceisiadau eu harwain gan sefydliadau celfyddydol a chan ysgolion. Gwrthodwyd rhai ceisiadau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf am eu bod yn anaddas, er enghraifft am fod prosiectau yn debyg neu union yr un peth â phrosiectau blaenorol neu bresennol ac nad oeddynt yn cydweddu â meini prawf y gronfa.

5.6 Mewn ymateb i'r hyn a ystyriai Cyngor Celfyddydau Cymru yn nifer siomedig o geisiadau o ansawdd uchel i'r gronfa hon, cyflwynwyd newid ym mis Ebrill 2017. Roedd hyn yn golygu cyflwyno opsiwn 'blasu' (grant o rhwng £5,000 a £7,500) ar gyfer prosiectau ar raddfa lai gydag elfen gref o arbrofi a/neu gymryd risg. Yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau

Cymru, dywedir bod y prosiectau hyn yn ymwneud â 'rhoi blaen troed yn y dŵr; a 'rhoi cynnig ar rywbeth hollol newydd'.[20]

5.7 Roedd staff rheoli'r prosiect yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn y broses o adolygu terfyn uchaf grantiau Cydweithio Creadigol, gan ddod â'r mwyafswm sydd ar gael i brosiectau i lawr o £25,000 i £15,000. Y gobaith oedd y byddai'r penderfyniad hwn yn galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i ymateb yn well i'r nifer gynyddol o geisiadau a dderbynnir.

5.8 Serch hynny, roedd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn ansicr p'un a oedd ysgolion yn ymgeisio am yr opsiwn 'blasu' fel ffordd i 'roi blaen troed yn y dŵr' neu a oeddynt yn ystyried yr opsiwn yn fersiwn lai o'r grant llawn. Mae angen ymchwil a data pellach, felly, er mwyn gwerthuso llwyddiant yr opsiwn 'blasu'.

5.9 Dros flynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18, mae'r broses ymgeisio wedi cynnwys tri chylch lle gall ysgolion a sefydliadau celfyddydol wneud cais am arian. Wrth werthuso'r cynllun, nododd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru fod y tri chylch wedi datblygu i fod yn anodd i'w rheoli, yn arbennig am fod Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol yn cael eu rheoli gan ddefnyddio cyllideb ar y cyd. Roedd y ceisiadau ar sail "y cyntaf i'r felin", gan olygu bod cyllideb lai ar ôl i'r cylch olaf. Penderfynwyd, felly, mai dau gylch fyddai i'r broses ymgeisio y flwyddyn nesaf.

5.10 Nododd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru fod rhai ysgolion yn tanwario grant Ewch i Weld. Trothwy Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer gofyn am ad-daliad o danwariant yw £250. Er yr ystyrid bod hyn yn drothwy rhesymol yn fwy cyffredinol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, yng nghyd-destun grantiau mor fach ag Ewch i Weld, gall tanwariant o hyd at £250 fod yn gyfran sylweddol o'r grant a gymeradwywyd.

> 'Yn achos cronfa Ewch i Weld, mae'n nhw'n aml yn cael eu tanwario. Ein tanwariant safonol cyn gofyn am ad-daliad yw £250. Felly os ydyn nhw wedi tanwario £240, fydden ni ddim yn gofyn iddyn nhw amdano. Ond weithiau gallai'r tanwariant fod yn ddigon i ariannu rhywbeth arall —

[20] Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: Cynllun Gweithredu i Gymru

byddai £100–200 yn ddigon i dalu am weithgaredd arall. Ond dyna yw arfer Cyngor y Celfyddydau a dyna yw ein trothwy' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, 2018).

5.11 Er y byddai adennill unrhyw danwariant posibl yn galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i gynorthwyo rhagor o ysgolion, roedd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn cwestiynu'r gost yn nhermau amser staff, gweinyddu a chyllid mewn perthynas ag adennill symiau mor fach o danwariant. Mae risg tanwariant felly yn codi'n ganlyniad anochel i gyflawni'r cynllun drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a'i reoliadau grant.

*Cynnydd a chyflawni*

5.12 Mae'r data a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 yn dangos y cymeradwywyd 299 o grantiau Ewch i Weld a 39 o grantiau Cydweithio Creadigol. Mae Ffigur 5.1 isod yn rhestru nifer y grantiau a gymeradwywyd fesul Consortiwm Addysg Rhanbarthol.

**Ffigur 5.1: Grantiau Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol a ddyfarnwyd fesul rhanbarth consortiwm**

| Rhanbarth | Ewch i Weld | Cydweithio Creadigol |
|---|---|---|
| **GwE** | 71 | 14 |
| **ERW** | 113 | 13 |
| **CSC** | 87 | 9 |
| **EAS** | 28 | 3 |
| **Cyfanswm** | 299 | 39 |


Ffynhonnell: Data Cyngor Celfyddydau Cymru

5.13 Mae Ffigur 5.2 isod yn dangos dosbarthiad cyfrannol y grantiau a gymeradwywyd fesul Consortiwm Addysg Rhanbarthol. Er mwyn cymharu, mae dosbarthiad yr holl ysgolion yng Nghymru hefyd wedi'i ddangos. Ar gyfer grantiau Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol, mae'r ffigur yn dangos bod ysgolion yng Ngogledd Cymru (GwE) wedi'u gorgynrychioli. Yn yr ail adroddiad interim, gwelwyd bod y rhanbarth hwn wedi'i dangynrychioli, gan

ddangos y bu’r newid mwyaf yng nghyfran ysgolion GwE sy’n derbyn grantiau Ewch i Weld (i fyny o 17 y cant i 28 y cant).

5.14 Mae De-orllewin Cymru (ERW) a Chanol De Cymru (CSC) wedyn wedi’u tangynrychioli yn y ddau grant, ac mae cyfran y grantiau a ddyfarnwyd yn Ne-ddwyrain Cymru (EAS) yn agos iawn i fod yn gynrychioliadol o nifer yr ysgolion yn y rhanbarth.


**Ffigur 5.2: Cynrychioldeb dosbarthiad grantiau Cronfa Profi’r Celfyddydau, fesul rhanbarth**




Ffynhonnell: Data Cyngor Celfyddydau Cymru

5.15 Mae Ffigur 5.3 yn dangos dosbarthiad y grantiau a ddyfarnwyd a’r ysgolion yng Nghymru fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae dosbarthiad grantiau Ewch i Weld yn agos iawn i ddosbarthiad yr ysgolion yng Nghymru. Mae tangynrychiolaeth o grantiau Cydweithio Creadigol mewn ysgolion sydd yn y 25 y cant o wardiau o amddifadedd lleiaf yng Nghymru, a gorgynrychiolaeth yn y trydydd chwartel. Mae’r ystadegau hyn yn adlewyrchu’r un patrwm â’r hyn a welwyd y flwyddyn flaenorol.


**Ffigur 5.3: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – Grantiau Cronfa Profi'r Celfyddydau a phob ysgol yng Nghymru**




Ffynhonnell: Data Cyngor Celfyddydau Cymru

5.16 Cynhyrchodd arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid ddata ar eu hymwybyddiaeth o Gronfa Profi'r Celfyddydau a'u hymwneud â'r gronfa. Dosbarthwyd yr arolwg ymysg athrawon a oedd naill ai'n ymwneud yn uniongyrchol neu a oedd yn gweithio mewn ysgol a oedd yn ymwneud â Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau drwy weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r sampl o 83 o athrawon felly yn cynrychioli ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o rai agweddau ar raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mae Ffigur 5.4 isod yn awgrymu, fodd bynnag, bod llai na hanner yr athrawon hynny yn ymwybodol o'r gronfa, a bod chwech ym mhob 10 artist yn ymwybodol o'r gronfa (59 y cant). Awgryma'r data bod lle i hyrwyddo'r cronfeydd ymhellach, hyd yn oed ymysg athrawon sydd â rhywfaint o ymwybyddiaeth o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn fwy cyffredinol.

**Ffigur 5.4: A ydych yn ymwybodol o Gronfa Profi'r Celfyddydau? (Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol)**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

N=162

# 6. Parth Dysgu Creadigol

*Cefndir*

6.1 Lansiwyd y Parth Dysgu Creadigol (PDC) ym mis Mawrth 2016 a chaiff ei reoli gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Platfform ar-lein i rannu gwybodaeth yw'r PDC ac mae wedi'i ddylunio i fod yn ffynhonnell wybodaeth a hwb cydweithio i athrawon, dysgwyr, a sefydliadau ac ymarferwyr celfyddydol/diwylliannol. Caiff deunydd ei ychwanegu i'r porth fel y bydd ar gael.

6.2 Nod y PDC yw cyflawni argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad 2013 yr Athro Dai Smith ar y celfyddydau mewn addysg, sy'n dwyn y teitl 'Adroddiad Annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru i'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru'.

> 'Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod Porth Addysg Creadigol yn cael ei ddatblygu, fel elfen ychwanegol, integredig o 'Hwb', Llwyfan Dysgu Digidol Cymru gyfan.'[21]

*Adborth rhanddeiliaid a defnyddwyr*

6.3 Yn adroddiad blaenorol y gwerthusiad hwn, nodwyd sawl pryder a godwyd gan randdeiliaid a defnyddwyr y PDC. Yn fwyaf nodedig, roedd canfyddiad nad oedd y platfform yn addas i'r diben, yn bennaf yn sgil materion hygyrchedd, absenoldeb cyfleoedd rhwydweithio cymdeithasol a diffyg rhyngweithio a rhannu syniadau ymysg defnyddwyr.

6.4 Fodd bynnag, mewn perthynas â diffyg cyfleoedd rhwydweithio cymdeithasol, medd staff rheoli Llywodraeth Cymru na ddyluniwyd y PDC i gyflawni'r fath wasanaeth. Mae disgwyliadau o wasanaeth o'r fath yn fater o ddiffyg cyfathrebu neu gamargraff o'r hyn y dyluniwyd y PDC i'w gyflawni.

> 'Os ydyn nhw'n dweud nad yw'n darparu'r cyfleoedd rhwydweithio, wedyn mae'n rhaid inni hyrwyddo'r hyn yw'r PDC mewn gwirionedd. Ei ddiben yw bod yn wefan lle gallan nhw lanlwytho adnoddau, ond nid rhwydwaith yn union. Dydw i ddim yn meddwl bod artistiaid wedi llwyddo yn y mater o

[21] Adroddiad Annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru i'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru

rwydweithio gydag ysgolion. Rydyn ni'n gweithio ar hyn gyda'r rhwydweithiau. Ond nid ei fwriad yw bod yn wefan rwydweithio' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yn Llywodraeth Cymru, 2018).

6.5 Roedd anawsterau mewngofnodi a hygyrchedd yn dal i gael eu codi gan ddefnyddwyr yng ngrwpiau ffocws athrawon a gynhaliwyd fel rhan o ymweliadau astudiaethau achos Ysgolion Creadigol Arweiniol a grwpiau ffocws athrawon a gynhaliwyd fel rhan o'r ymweliadau â'r rhwydweithiau. Roedd mewngofnodi a hygyrchedd, yn ogystal ag anawsterau technegol ehangach, yn rhesymau y cyfeiriwyd atynt i esbonio diffyg ymgysylltiad gan athrawon.

'Mae Hwb yn wael. Rwy wedi cael problemau wrth fewngofnodi. Mae'n chwalu ac rydyn ni'n colli gwaith y plant, wedyn mae'n rhaid inni aros wythnosau am gymorth gan Hwb. Mae cael y manylion [mewngofnodi] yn frwydr. Rwy'n defnyddio Google Drive yn lle hynny' (Grŵp Ffocws Athrawon Edau, 2018).

6.6 Mae'r rhwydweithiau a oedd â'r dasg benodol o annog cyfraniadau i'r PDC hefyd yn sôn am anawsterau o ran cael mynediad.

'Does yr un ohonon ni wedi llwyddo i gael mynediad i'r PDC ers mis Gorffennaf, ac wedi gofyn am gymorth, ond hyd yma dydyn ni ddim wedi gallu mewngofnodi er mwyn lanlwytho gwybodaeth' (Adroddiad Chwarterol Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, 2017).

6.7 Fodd bynnag, medd staff rheoli yn Llywodraeth Cymru eu bod wedi mynd i'r afael â'r anawsterau mewngofnodi a hygyrchedd ers hynny. Gallai'r PDC felly fod yn dioddef o niwed i'w enw da a cham-ganfyddiad yn seiliedig ar brofiadau cynnar yn hytrach na'r sefyllfa go iawn bresennol. Byddai hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau mewn gwerthusiad o weithrediad Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, a archwiliai'r defnydd ehangach o Hwb a Hwb+.[22] Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod profiadau negyddol cynnar defnyddwyr Hwb+ yn parhau i gylchredeg ymysg athrawon. Ar y llaw arall, gallai

[22] Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Weithrediad y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol

anawsterau technegol nad yw'r staff rheoli yn ymwybodol ohonynt fod yn parhau. Gallai adroddiadau'r dyfodol archwilio'r mater hwn ymhellach.

6.8 Serch hynny, datgelodd y grwpiau ffocws fod rhai athrawon yn ystyried bod y cynnwys sydd i'w weld yn y PDC wedi'i gymeradwyo'n swyddogol ac na fyddai'r ansawdd yn cael ei gwestiynu. Daeth i'r amlwg fod y canfyddiad hwn o sicrwydd ansawdd yn un o gryfderau'r PDC o gymharu â phlatfformau eraill sy'n cynnig cyfleoedd rhwydweithio neu adnoddau tebyg.

6.9 Yr oedd hefyd yn nodedig yn ystod grwpiau ffocws yr athrawon a'r cyfweliadau â Phencampwyr y Celfyddydau bod amrywiaeth o blatfformau rhith-amgylchedd dysgu yn cynnig yr hyn a ystyrir yn wasanaethau a/neu adnoddau tebyg neu well. Mae Facebook, Google Classroom a gwefannau fel Charanga, ym marn llawer o ddefnyddwyr, yn cynnig gwell cyfleoedd rhwydweithio neu adnoddau ar gyfer addysgu na'r hyn y mae'r PDC yn eu cynnig, gyda llai o rwystrau.

> 'Rydyn ni'n defnyddio'r Parth Dysgu Creadigol, ond dydw i ddim yn siŵr a yw athrawon wir yn ei ddefnyddio; mi ydw i. Mae gwefan y consortia yn fwy poblogaidd. Gall e-byst a hysbysiadau DPP gael eu hanfon drwy honno' (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018).

> 'Dydi Hwb ddim y lle hawsaf i ddefnyddwyr. Dydi ein hysgol ni ddim wir yn ei ddefnyddio. Mae grwpiau Facebook yn llawer gwell i'r celfyddydau' (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018).

> 'Rwy'n gweld [Hwb] yn anodd i gael mynediad iddo am ei fod yn ysbeidiol. Os ydw i'n mynd iddo, mae'n cymryd tipyn i'w lywio. Ar gyfer adnoddau cynradd, rwy'n defnyddio BBC Bitesize a'r BBC Creativity newydd. Rwy'n defnyddio 'sing-up' a 'CânSing' a 'Charanga'. Maen nhw'n adnoddau da' (Cyfweliad â Phencampwr y Celfyddydau, 2018).

6.10 Ymhellach, mae Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg eu hunain wedi datblygu gwefannau. Datblygwyd y gwefannau hyn i gynnig gwasanaethau tebyg neu ychwanegol i'r PDC, ac mae un Rhwydwaith Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg wedi datblygu ap i gynorthwyo mynediad i wasanaethau a chyfleoedd rhwydweithio. Mae'r platfformau hyn, mewn ffordd, yn gystadleuaeth i'r PDC fel adnodd ar-lein. Mae'r staff rheoli

yn Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r platfformau ac wedi mynegi pryder ynglŷn â'r toreth o blatfformau.

> 'Dylai'r rhwydweithiau fod wedi bod yn defnyddio Hwb fel eu prif blatfform, ond aeth pob un o'r pedwar ati i gomisiynu gwefan – dydyn nhw ddim yn darparu'r un cyrhaeddiad â Hwb. Mae'n rhaid inni eu hatgoffa'n gyson i lanlwytho pethau i Hwb. Dydi'r rhwydweithiau ddim yn manteisio'n llawn ar Hwb' (Cyfweliad â'r Rheolwyr yn Llywodraeth Cymru, 2018).

*Data defnydd y PDC*


6.11 Mae Ffigur 6.1 yn dangos data Google Analytics ar gyfer y PDC: golygon tudalennau, ymwelwyr unigryw â'r wefan, a nifer yr adnoddau a welwyd. Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr unigryw, yr adnoddau a welwyd a'r golygon tudalennau yn ystod y flwyddyn academaidd.

6.12 Gall y gostyngiadau yn nifer y golygon tudalennau gael eu hesbonio gan gyfnodau gwyliau ysgol (y Nadolig a'r Pasg). Mae patrwm tebyg i nifer yr adnoddau a welwyd, gyda brig ym mis Ionawr 2017 a mis Mawrth 2017.

6.13 Mae nifer y golygon a'r defnydd o'r wefan yn brigo a chwympo yn unol â hynny, ac yn unol â'r tymor addysgu. Mae'r twf yn y niferoedd ym mis Tachwedd a Mis Mehefin a'r gostyngiad ym mis Gorffennaf yn adlewyrchu patrymau cydnabyddedig yn nefnydd Hwb.[23] Mae'r brigau ym mis Ionawr a mis Mawrth yn wahanol i'r patrymau hynny, er mai aneglur ar y cam hwn yw'r rhesymau dros y gwahaniaeth yn y patrymau. Ar y cam hwn, nid oes data'n bodoli y gellir cymharu'r ffigurau hyn â hwy er mwyn dod i gasgliadau ehangach am eu lefelau defnydd. Bydd adroddiadau'r dyfodol yn parhau i fonitro a gwneud cymariaethau rhwng setiau o ddata, gan ddadansoddi unrhyw batrymau a ddaw i'r amlwg.

[23] Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Weithrediad y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol

**Ffigur 6.1: Nifer golygon tudalennau / nifer yr ymwelwyr unigryw / adnoddau a welwyd ar y Porth Dysgu Creadigol**




**Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru yn defnyddio Google Analytics**

6.14 Mae dadansoddiad manylach o'r data ar gyfer y PDC a gyflwynir yn Ffigur 6.2 yn datgelu mai *case study* a *Key Stage 2* (*KS2*) oedd y termau chwilio mwyaf poblogaidd, gan daflu rhywfaint o oleuni ar y math o gynnwys y mae'r defnyddwyr yn ceisio ei ganfod. Gallai'r data hwn gynorthwyo i ddatblygu a rheoli'r cynnwys yn y dyfodol.

**Ffigur 6.2: Termau chwilio mwyaf poblogaidd yn y PDC**

| **Termau chwilio mwyaf poblogaidd** | **Nifer** |
|---|---|
| *Case Study* | 114 |
| *Key Stage 2* | 57 |
| *ffotogallery* | 35 |
| *intofilm* | 32 |
| *Art* | 24 |
| *literatureWales* | 24 |
| *KS2* | 22 |
| *creativity* | 17 |
| *Mathematics* | 17 |
| *nlw* | 16 |

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

6.15 Mae data o arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid yn cyfoethogi'r ddealltwriaeth o ddefnydd y PDC ymhellach. Dim ond 36 y cant o'r athrawon a 55 y cant o'r artistiaid a oedd eisoes yn ymwneud â rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, neu mewn ysgol a oedd yn ymwneud â'r rhaglen mewn rhyw ffordd, sy'n ymwybodol o'r PDC. Yn fwyaf nodedig, serch hynny, yw y byddai gan 96 y cant o'r athrawon hynny nad oeddynt yn ymwybodol o'r PDC ddiddordeb mewn cael mynediad i'r platfform. Awgryma hyn y byddai hyrwyddo'r PDC ymhellach yn debygol o annog mwy o ddefnydd.

6.16 Yn ogystal, 24 y cant yn unig o artistiaid sydd wedi cyfrannu at y PDC, gan awgrymu ei bod yn bosibl hyrwyddo ac annog artistiaid ymhellach er mwyn cynyddu cyfraniadau cynnwys i'r platfform.


**Ffigur 6.3: A ydych wedi cael mynediad at y Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb?**

| **A ydych wedi cael mynediad at y Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb?** | | **Os nad ydych, a fyddai gennych ddiddordeb mewn cael mynediad at y Parth Dysgu Creadigol ar Hwb?** | **A ydych wedi cyfrannu at y Parth Dysgu Creadigol ar Hwb?** |
|---|---|---|---|
| Athrawon (Ydw) | 36% | 96% | 0% |
| Artistiaid (Ydw) | 55% | 62% | 24% |

Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

6.17 Gofynnodd arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid hefyd i bob ymatebydd am adborth ansoddol ar ddefnyddio'r PDC, a chodiwyd yr adborth er mwyn ei ddadansoddi. Nododd mwy na hanner yr artistiaid a'r athrawon fod angen mwy o amser er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r platfform, ac roedd chwarter yr athrawon hefyd o'r farn y byddai cynnwys mwy diddorol/priodol/perthnasol yn ddefnyddiol. Gallai canfyddiadau o'r fath gyfarwyddo ymdrechion pellach i fireinio a hyrwyddo'r platfform.

**Ffigur 6.4: Beth fyddai'n eich helpu i wneud y defnydd gorau o'r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb?**




Ffynhonnell: Arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid 2018

(N=162 | N Athrawon = 83 | N Artistiaid = 79)

# 7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Adroddiad interim yw hwn sy'n ceisio nodi'r cynnydd a wneir a thynnu sylw at faterion allweddol; nid yw'n ceisio gwerthuso perfformiad y meysydd yn erbyn eu nodau terfynol a'r Theori Newid a amlinellwyd yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf.

7.2 Mae'r canfyddiadau ar y cam hwn o'r gwerthusiad, serch hynny, yn gyffredinol gadarnhaol. Mae'r athrawon, y disgyblion a'r staff sy'n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn sôn am gynnydd a wneir mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen a rhywfaint o dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni. Mae canfyddiadau'r gwaith maes a'r data a dderbyniwyd ynglŷn â Chynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan yn awgrymu bod cynnydd hefyd yn cael ei wneud mewn perthynas ag agweddau allweddol ar gyflawni. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd wedi nodi meysydd allweddol i'w datblygu, eu mireinio a'u gwella ymhellach er mwyn llwyr wireddu nodau a photensial rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Mae'r adroddiad hefyd wedi tynnu sylw at ddata pellach a fyddai'n cynorthwyo a galluogi gwerthusiad mwy trylwyr a thystiolaeth gadarnach o gynnydd tuag at y nodau a osodwyd.

7.3 Mae cwmpas rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn sylweddol, ac yn ystod blwyddyn bresennol (2017/18) a blwyddyn nesaf (2018/19) y rhaglen, bydd cannoedd yn rhagor o athrawon, Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol yn elwa o'r ddarpariaeth ledled Cymru. Mae'r rhaglen felly yn darparu capasiti yn y sector addysg a sector y celfyddydau nad oedd yn bodoli'n flaenorol.

7.4 Yn ogystal â chyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus, yr her fydd cynnal y capasiti hwnnw (a'r canlyniadau a gyflawnir gan y rhaglen) a sicrhau etifeddiaeth unwaith y bydd y cymorth i'r rhaglen wedi'i dynnu'n ôl. Dyma faes sy'n dal i alw am sylw yn ystod oes y rhaglen.

7.5 Fodd bynnag, mae'r ffaith i'r cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus ddod i'r amlwg fel mater allweddol ym myd addysg yng Nghymru yn rhoi cyd-destun i etifeddiaeth Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a ddaeth i sylw staff strategol, rheoli a chyflawni, yn ogystal â

buddiolwyr y rhaglen. Mae staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor y Celfyddydau, rhai personél rheoli strategol a'r rhan fwyaf o staff y rhwydweithiau, yn annibynnol ar ei gilydd, yn dod i'r farn bod cynorthwyo newid i'r cwricwlwm yn dod i'r amlwg fel cyfraniad ac etifeddiaeth allweddol i'r rhwydweithiau. Mae uwch staff yr ysgolion a staff addysgu hefyd yn ystyried bod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn benodol, yn ogystal â darpariaeth y rhaglen yn ehangach a gweithgarwch cysylltiedig, yn ffordd i gynorthwyo eu prosesau newid cwricwlaidd eu hunain (er na chaiff hyn ei gofnodi'n benodol mewn dogfennau cynllunio a gwerthuso).

7.6 Serch hynny, nodwyd sawl mater pwysig y dylid eu hadolygu gan dimau rheoli a gweinyddu'r rhaglen, fel a drafodir isod.

**Maes 1: Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**

7.7 Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yw'r elfen mwyaf datblygedig o'r rhaglen hyd yma. Roedd cynllunio a pharatoi at y cynllun, i gychwyn, yn fwy o ffocws i'r staff rheoli mewn perthynas â datblygu gweithgarwch Maes 2. Roedd gan ysgolion ddiddordeb cryf yn y cynllun; mae amrywiaeth eang o ysgolion wedi cymryd rhan hyd yma ac nid oes pryderon ynglŷn â'r targed o fod o fudd i draean o'r ysgolion yng Nghymru yn y pen draw.

7.8 Mae'r cynllun hefyd wedi'i ehangu drwy ychwanegu trydedd flwyddyn i ysgolion Cylch 1 a 2. Cafodd hyn ei alw'n 'faes datblygu' a bydd yn canolbwyntio ar drosglwyddo arferion da a phrofiadau o ysgolion Cylch 1 a 2 i ysgolion eraill sydd heb elwa o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Nid oedd data ar gael i werthuso'r maes hwn.

7.9 **Argymhelliad 1: Dylai Blwyddyn 3 / y 'Maes Datblygu' fod yn ganolbwynt i'r gwerthuso yn ystod adroddiadau gwerthuso dilynol. Dylid sefydlu amcanion clir a nodi dangosyddion cynnydd.**

*Cyfranogiad ysgolion*

7.10 Fel a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso interim blaenorol, mae'r data ynglŷn â chyfranogi'n awgrymu bod y lefel o ddiddordeb yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn uchel.

7.11 Awgryma'r data bod y nifer sy'n ymwneud â maes Ysgolion Creadigol Arweiniol rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ar y cyfan yn gynrychioliadol o Gymru o ran dosbarthiad daearyddol yr ysgol a'r hollt cynradd-uwchradd. Serch hynny, mae'r data'n awgrymu bod yr ysgolion yn y categorïau cymorth Melyn neu Wyrdd – sef ysgolion sy'n dangos canlyniadau da a chapasiti i wella – lawer yn fwy tebygol o ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Roedd 86 y cant o'r ysgolion a oedd yn ymwneud â'r cynllun yn y categori Gwyrdd neu Felyn wrth gychwyn arni, ac 14 y cant yn unig o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol a oedd yn y categori Oren neu Goch, hynny yw yr ysgolion sy'n derbyn y mwyaf o gymorth.

7.12 Awgrymodd yr adroddiad blaenorol fod ysgolion yn y categori Oren neu Goch yn dewis peidio â chyfranogi oherwydd blaenoriaethau sy'n 'fwy o frys' fel paratoi at arolygiadau Estyn neu ymateb i adroddiadau arolwg blaenorol Estyn. Fodd bynnag, yn ystod y gwerthusiad hwn nododd staff rheoli strategol nad oedd y consortia'n argymell llawer o ysgolion categori Oren neu Goch i gymryd rhan.

7.13 O ganlyniad i hyn, mae mater a bwysleisiwyd yn yr adroddiad interim blaenorol yn parhau, sef mai'r 'rhai arferol' yw'r ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen, sef yr ysgolion blaengar ac arloesol. Fel a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, nid oedd hyn yn annisgwyl, a byddai disgwyl i ysgolion arloesol fynegi diddordeb mewn rhaglen arloesol fel Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a chymryd rhan ynddi. Serch hynny, mae'r ffaith mai'r 'rhai arferol' yn bennaf sy'n cymryd rhan yn golygu bod angen ystyried i ba raddau y gall neu y bydd y newidiadau a'r arloesi y mae tystiolaeth ohonynt yn yr ysgolion sy'n elwa o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu hefelychu ymysg ysgolion eraill ledled Cymru. Yn sgil hyn, daw i'r amlwg fod gwerthuso Blwyddyn 3 / y 'maes datblygu' i'r dyfodol

yn elfen allweddol o werthuso Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, yn ogystal ag i ba raddau mae'r rhaglen yn cynorthwyo pob ysgol yng Nghymru, nid y 'rhai arferol' yn unig.

7.14 Yn wir, mewn sawl agwedd o'r ddau faes, mae cred neu bosibilrwydd bod y rhaglen yn apelio at yr 'ysgolion arferol' neu'r rhai o feddylfryd arloesol neu greadigol yn unig. Yn sgil hyn, mae perygl bod cyfran o'r ysgolion yng Nghymru heb fod yn ymwybodol o'r rhaglen neu heb eu cyffwrdd ganddi.

7.15 **Argymhelliad 2: Dylai staff rheoli'r ddau faes geisio mapio'r holl ysgolion sy'n ymwneud â'r rhaglen. Bydd ymarferiad mapio yn darparu data er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo a marchnata sawl agwedd ar y rhaglen, archwilio'r awgrym bod y rhaglen yn apelio at yr 'ysgolion arferol' yn unig, yn ogystal â chyfarwyddo cylch gwerthuso mewnol y tîm rheoli.**

*Ysgogiad*

7.16 Daeth i'r amlwg fod datblygiad proffesiynol yn ysgogiad allweddol i ymwneud â phroses yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac mae datblygu addysgeg yn un o ganlyniadau allweddol y rhaglen i athrawon. Er i 67 y cant o'r athrawon a ymatebodd i'r arolwg ddweud bod datblygiad proffesiynol yn ysgogiad allweddol, awgrymai'r astudiaethau achos a'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws cysylltiedig gydag athrawon fod y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus hefyd yn fater allweddol sy'n ysgogi a chreu diddordeb mewn datblygiad proffesiynol a datblygiad addysgegol. Er mai prin y caiff hynny ei ddogfennu mewn ffurflenni cynllunio, mae newid i'r cwricwlwm a'r newidiadau a ddisgwylir o ran addysgeg yn ystyriaeth i'r staff sy'n cydlynu ar gamau cynllunio gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac i athrawon sy'n dymuno cymhwyso neu rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt.

*Rheoli*

7.17 Er bod yr adborth yn gyffredinol gadarnhaol, yn yr astudiaethau achos nododd yr athrawon eu bod yn ystyried bod camau ymgeisio a chynllunio gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn feichus. Adlewyrchai hyn yr ymatebion i'r arolwg a welodd fod tua hanner (49 y cant) yr athrawon heb fod yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn adlewyrchu ymatebion a data ansoddol a amlinellwyd yn yr adroddiad interim blaenorol.

7.18 Fodd bynnag, mae staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn nodi bod newidiadau wedi'u gwneud i'r gwaith papur ar y cam ymgeisio a'r cam cynllunio. Nid oedd data ar gael i asesu pa mor ddigonol oedd y prosesau newydd hyn na mynd i'r afael â ph'un a oedd modd cyfiawnhau'r prosesau gwreiddiol serch hynny, er eu bod yn feichus. Dylai effaith y newidiadau hyn gael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad gwerthuso nesaf.

7.19 Mae'r ymatebion i'r arolwg a'r data ansoddol, serch hynny, yn awgrymu bod y cymorth a gynigir gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar y camau hyn, yn ogystal â thrwy gydol cyfnod yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn effeithiol ac yn cael ei werthfawrogi. Caiff Asiantau Creadigol yn benodol eu gwerthfawrogi am y gwerth ychwanegol a gynigir ganddynt mewn rhai achosion, fel yn eu parodrwydd i gyflwyno a thrafod y profiadau a'r theori y tu ôl i ddysgu creadigol gydag aelodau staff mewn ysgolion.

*Effaith ar ddysgwyr*

7.20 Mae'r data a archwiliwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos bod yr athrawon o'r farn bod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau creadigol y dysgwyr. Adroddwyd gwelliannau, gyda thystiolaeth o hynny, gyda'r dysgwyr yn elwa o ran pob un o'r 5 o Arferion Creadigol y Meddwl o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

7.21 Mae'r offeryn (hunan-)effeithiolrwydd yn ceisio mesur effaith gweithgareddau ar effeithiolrwydd y disgyblion a'u hagweddau tuag at yr ysgol a dysgu. Mae sampl yr ymatebion yn cyfyngu ar ddod i unrhyw gasgliadau arwyddocaol ar y cam hwn, er y bydd y sampl yn tyfu gydag amser wrth i ragor o ymatebion gael eu cofnodi. Mae'r data ansoddol o'r cyfweliadau ag athrawon a'r

amrywiaeth o ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn dystiolaeth o effaith mewn ffurflenni gwerthuso, serch hynny, oll yn awgrymu effaith nodedig ar hyder ac ymgysylltiad yn yr ystafell ddosbarth yn benodol. Meddai disgyblion a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws hefyd iddynt fwynhau'r gweithgareddau ac i'r gweithgareddau gael effaith gadarnhaol ar eu hagweddau tuag at ddysgu a'r ysgol yn fwy cyffredinol. Yn ei dro, mae hyn yn awgrymu cynnydd tuag at un o ganlyniadau allweddol y rhaglen i ddysgwyr, sef bod eu hagwedd tuag at yr ysgol a dysgu yn newid. Fodd bynnag, byddai data pellach yn gymorth i gyflwyno tystiolaeth gadarnach o'r canlyniad hwn.

7.22 **Argymhelliad 3: Dylai data ar bresenoldeb ac ymddygiad disgyblion sy'n elwa o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gael ei archwilio fel ffordd i gyflwyno tystiolaeth bellach o effaith ar ymgysylltu yn benodol a lles yn fwy cyffredinol.**

7.23 Yn sgil diffyg mynediad at ddata allweddol, nid yw'n bosibl cyflwyno tystiolaeth gadarn o effaith gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad disgyblion, na gwerthuso'r effaith honno'n drylwyr. Mae hyn yn un o ganlyniadau allweddol y rhaglen i ddysgwyr. Oni bai yr eir i'r afael â hyn, mae'n debygol o fod yn her o ran gwerthusiad terfynol y rhaglen ac o ran cyflwyno tystiolaeth wrth 'brofi'r cysyniad'.

7.24 Mae'r data ansoddol o'r cyfweliadau â'r athrawon yn awgrymu effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad mewn llawer o achosion, ac mae'r data a ddarparwyd drwy ffurflenni gwerthuso yn awgrymu cydberthynas gyffredinol rhwng cymryd rhan yn y rhaglen a gwella cyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae amrywiaeth a chadernid y ffynonellau'n cyfyngu ar y graddau y gellir defnyddio, cymharu a chyffredinoli'r canfyddiadau hyn.

7.25 Nododd yr athrawon hefyd fod y gweithgarwch wedi effeithio'n gadarnhaol ar y disgyblion o ran eu cyrhaeddiad. Roedd y ffynonellau data a ddefnyddiwyd i dystio i hyn hefyd yn amrywiol.

7.26 **Argymhelliad 4: Dylid parhau ag ymdrechion i ganfod data addas i geisio cyflwyno tystiolaeth o effaith gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar gyrhaeddiad disgyblion. Gallai data o'r fath fod yn anodd i'w ganfod a gallai grwpiau rheoli fod yn anodd i'w sefydlu er mwyn cymharu canlyniadau; os felly, dylai ffurflenni gwerthuso fod yn fwy clir a manwl yn eu ceisiadau am ddata gwerthuso cyson a chadarn.**

*Rhannu'r hyn a ddysgwyd, arferion wedi'u dilysu neu arferion addawol, a phrofiadau*

7.27 Roedd rhannu'r theori, arferion wedi'u dilysu, arferion addawol a phrofiadau cadarnhaol o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol oddi mewn i addysgu yn ganolbwynt penodol i'r adroddiad hwn. Mireiniwyd offer ymchwil er mwyn cipio data ar yr agweddau pwysig hyn o broses yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

7.28 Nododd bron i'r holl athrawon a ymatebodd i'r arolwg (97 y cant) fod eu profiadau, yr hyn a ddysgwyd ganddynt a'r arferion a feithrinwyd neu a ddysgwyd ganddynt o ganlyniad i weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'u rhannu ag aelodau eraill o staff. Nododd tua thraean o'r rhain (32 y cant) fod arferion a phrofiadau wedi'u rhannu drwy sesiynau strwythuredig, a'r gweddill yn rhannu'n anffurfiol yn unig.

7.29 Mae data ansoddol o'r astudiaethau achos ansoddol hyn yn awgrymu bod y sesiynau strwythuredig hynny'n debygol o fod yn gyflwyniadau gan staff a fu'n ymwneud â gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, neu mewn rhai achosion gan yr Asiant Creadigol. Roedd diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn ofodau a chyfnodau cyffredin ar gyfer rhannu profiadau ac arferion da. Gwnaed llawer o'r rhannu hefyd yn anffurfiol drwy drafodaethau ymysg athrawon.

7.30 Mae'r data ansoddol o'r astudiaethau achos, serch hynny, yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o amrywiaeth ynglŷn â natur yr hyn sy'n cael ei rannu a'i drosglwyddo yn y sesiynau hyn. Mewn rhai achosion, rhannwyd y theorïau sy'n sail i ddysgu creadigol, yn aml mewn sesiynau strwythuredig.

7.31 Roedd hefyd yn gyffredin i adnoddau ac arferion wedi'u dilysu gael eu rhannu, fel technegau cynllunio ac asesu, neu adnoddau fel 'olwynion

creadigol'. Awgryma'r data fod yr athrawon a wnaeth elwa o'r ymyriad wedi defnyddio'r arferion a'r adnoddau hyn.

7.32 Lleiafrif o'r athrawon nad oeddynt wedi elwa o'r ymyriad a oedd yn defnyddio'r adnoddau a'r arferion wedi'u dilysu. Roedd athrawon nad oeddynt yn ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn fwy tebygol o ddefnyddio'r arferion addawol. Tueddai'r rhain fod yn 'awgrymiadau a chynghorion' neu addasiadau bach a thechnegau syml a oedd, ym marn yr athrawon, wedi cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion yn ystod yr ymyriad yn yr ysgol.

7.33 Yn ôl tystiolaeth yr astudiaethau achos, roedd enghreifftiau hefyd o ysgolion yn datblygu gweithgareddau ochr yn ochr â grwpiau eraill o ddisgyblion a oedd yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd fel rhan o'u hymwneud â'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Roedd diffyg adnoddau, serch hynny, yn cyfyngu ar raddfa'r gweithgareddau hyn gan olygu eu bod yn llai na'r rhai a gynhaliwyd fel rhan o'u hymwneud â'r Ysgolion Creadigol Arweiniol.

7.34 Awgryma'r data, felly, bod rhannu theori, arferion wedi'u dilysu, arferion addawol a phrofiadau cadarnhaol yn digwydd mewn ysgolion sydd wedi elwa o'r ymyriad. Fodd bynnag, mae angen mwy o ddata er mwyn archwilio a gwerthuso i ba raddau y mae'r rhannu hyn yn digwydd, a ph'un ai theori ac arferion wedi'u dilysu a gaiff eu rhannu, neu'n hytrach yr arferion addawol a rhai 'awgrymiadau a chynghorion'.

7.35 Serch hynny, mae data ansoddol y cyfweliadau yn awgrymu bod yr arfer o rannu theori, arferion wedi'u dilysu, arferion addawol a phrofiadau cadarnhaol yn aml yn gysylltiedig ym meddwl staff cynllunio a staff addysgu ag ymdrechion ehangach i ddiwygio addysgeg yn unol â'r cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

**Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg**

7.36 Bu'r adroddiad interim hwn yn archwilio'r cynnydd a wneir gan y rhwydweithiau, gan gyflwyno data yn ei dro ar Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg am y tro cyntaf. Mae'r gwaith dadansoddi, yn arbennig yn yr adran sy'n archwilio Rhwydweithiau Rhanbarthol y

Celfyddydau ac Addysg, wedi canolbwyntio ar broses yn ogystal â chyflawni er mwyn nodi gwersi allweddol a chyfarwyddo'r gwaith o reoli'r rhaglen.

7.37 Mewn gwirionedd, yr amcanion a bennwyd ar gyfer y rhwydweithiau yw cyflawni'r pum allbwn, hynny yw yn canolbwyntio ar weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau. Er y caiff y rhain eu nodi'n glir, mae'r cydlynwyr hefyd o'r farn fod y rhwydweithiau yn cynnig gwerth ychwanegol a rôl sy'n cynorthwyo ysgolion i ddatblygu ac addasu ar gyfer y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus a'i arloesedd addysgegol cysylltiedig.

7.38 Mae'r rhyddid i'r cydlynwyr a'u staff ddylunio a datblygu darpariaeth y rhwydweithiau wedi arwain at amrywiaeth o ran dulliau gweithredu, ac at y rhwydweithiau'n darparu cynnwys a hyfforddiant y credant sy'n berthnasol i athrawon. Mae cydweithrediad y Consortia Addysg Rhanbarthol a'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i lledaenu gan Bencampwyr y Celfyddydau yn ffynonellau allweddol sy'n cefnogi darpariaeth berthnasol y rhwydweithiau.

7.39 Mae'r rhwydweithiau hefyd wedi ceisio cynorthwyo ei gilydd i ddatblygu a chyflawni'u darpariaeth. Mae Cydlynwyr y Rhwydweithiau'n cwrdd yn rheolaidd, yn rhannu profiadau a dulliau gweithredu ac yn mynd i'r afael â materion rheoli sy'n codi.

7.40 Mae'r diffyg eglurder ynglŷn â chyfraniad y rhwydweithiau yn y pen draw neu'r canlyniadau i fuddiolwyr, y tu hwnt i'r pum allbwn craidd, wedi arwain at ddryswch. Serch hynny, daw i'r amlwg bod cynorthwyo'r newid i'r cwricwlwm yn nod terfynol cyffredin pellach i Gydlynwyr y Rhwydweithiau, staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a staff rheoli strategol.

7.41 Mae'r staff rheoli yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn gweld y berthynas a'r graddau y mae'r rhwydweithiau yn cynorthwyo'r ysgolion sy'n ymwneud â'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn newid yn y dyfodol. Er y cadwyd y meysydd ar wahân yn wreiddiol, mae Cydlynwyr y Rhwydweithiau a'r staff rheoli strategol bellach o'r farn fod perthynas weithio agosach yn fwy buddiol.

7.42 **Argymhelliad 5: Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru gyfathrebu ei weledigaeth yn glir i Gydlynwyr y Rhwydweithiau o gyfraniad terfynol Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, y tu hwnt i gyflawni'r pum allbwn craidd. Hyd yn oed pe byddai datganiad o'r fath yn egluro'r canlyniadau a'r effaith sydd wedi'u gosod allan yn adroddiad y Theori Newid yn unig, gallai fynd i'r afael â'r diffyg eglurder ar lefel y Rhwydweithiau. Gallai'r datganiad hwn, serch hynny, roi eglurder i rôl y Rhwydweithiau o ran cynorthwyo'r newid i'r cwricwlwm, eu perthynas â maes yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a'u cymorth i'r maes hwnnw, a'r weledigaeth ar gyfer etifeddiaeth.**

7.43 Cafodd y gofynion a'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso eu hail-ddylunio yn ystod ail flwyddyn y rhwydweithiau. Ar un llaw, arweiniodd hyn at fonitro'n fwy effeithiol a rhywfaint o ddata ar gyfer gwerthuso. Fodd bynnag, y mae hefyd wedi cynyddu'r baich gweinyddol ar staff y rhwydweithiau, yn ogystal â bwydo i mewn i ganfyddiad ymysg aelodau staff mai diddordeb mewn cyrraedd targedau'n unig sydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru – targedau sydd heb fod yn berthnasol iawn i unrhyw gyraeddiadau ehangach.

7.44 Serch hynny, mae materion allweddol yn parhau ynglŷn â'r data a gesglir, sy'n cyfyngu ar y capasiti i gyflwyno tystiolaeth o gynnydd tuag at ganlyniadau'r rhwydweithiau a'r effaith ddamcaniaethol. Mae angen mwy o ddata ynglŷn â sut mae buddiolwyr yn ymgysylltu a pha fuddion a gânt o ymgysylltu. Mae hefyd angen diffiniadau manylach er mwyn cynorthwyo'r gwaith o werthuso a chyflwyno tystiolaeth o effaith y rhwydweithiau.

7.45 **Argymhelliad 6: Dylid sefydlu ffynonellau data pellach sy'n mesur yn ogystal â chymhwyso perthnasedd cyrsiau hyfforddi'r Rhwydweithiau i ysgolion ac athrawon, ac mewn perthynas â rhoi ar waith y wybodaeth, y sgiliau a'r arferion da a rannwyd gan a chydag athrawon sy'n ymwneud â'r Rhwydweithiau. Dylid hefyd sefydlu diffiniadau manylach o 'arferion gorau', 'cyfleoedd rhwydweithio' a 'gwasanaethau broceru' er mwyn cynorthwyo i gyflwyno tystiolaeth o effaith gweithgarwch y Rhwydweithiau.**

7.46 Mae diffyg eglurder ymddangosiadol ar gyfer Cydlynwyr y Rhwydweithiau ynglŷn â gofynion darpariaeth iaith wedi arwain at ansicrwydd ynglŷn â pha mor ddigonol yw eu darpariaeth. Byddai mwy o eglurder ar y mater, wedi'i ymgorffori yn y meini prawf monitro, yn rhoi eglurder ar y mater hwn i staff y rhwydweithiau.

7.47 Ym marn staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a staff y rhwydweithiau, gallai'r cyfathrebu a'r ddeialog rhyngddynt gael ei wella. Awgrymodd staff y rhwydweithiau y byddai ymgysylltiad dyfnach â'u gweithgareddau yn cael ei werthfawrogi, ac meddai staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru y byddent yn elwa pe byddai staff y rhwydweithiau yn cyfathrebu'n fwy agored ynglŷn â'r anawsterau a wynebant.

7.48 Gan ystyried eu profiadau eu hunain o fewnbwn gwerthfawr Pencampwyr y Celfyddydau fel arbenigwyr 'llawr gwlad', awgrymodd Cydlynwyr y Rhwydweithiau fod ganddynt gyfraniad gwerthfawr i drafodaethau'n ymwneud â chynllunio etifeddiaeth yn ogystal â'r gwaith parhaus o reoli'r maes.

7.49 **Argymhelliad 7: Dylai staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a Chydlynwyr y Rhwydweithiau geisio datblygu dulliau cyfathrebu mwy effeithiol â'i gilydd. Dylai'r ddau bartner geisio a chynnig eglurder ynglŷn â meini prawf a data monitro, cyfathrebu'r anawsterau a brofir, a rhannu profiadau a'r hyn a ddysgir 'ar lawr gwlad'.**

7.50 Canfyddiad y cydlynwyr yw bod darpariaeth y rhwydweithiau'n boblogaidd iawn ymysg athrawon. Mae ymatebion yr athrawon mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws, yn ogystal ag ymatebion i'r arolwg, hefyd yn ategu'r farn bod galw am DPP a chyfleoedd dysgu proffesiynol yn benodol, ac mae gweithgareddau Pencampwyr y Celfyddydau yn ennyn ymateb arbennig o gadarnhaol yn yr arolwg. Serch hynny, fel a nodwyd, mae angen data pellach a chadarnach er mwyn cyflwyno tystiolaeth o'r effaith ar athrawon, addysgu ac ysgolion.

7.51 Roedd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd wedi'u bodloni bod y targedau a osodwyd ar gyfer y rhwydweithiau yn cael eu cyrraedd. Ymhellach, roedd yr ymatebion i'r arolwg yn awgrymu lefelau uchel o fodlonrwydd â'r ddarpariaeth, yn ogystal â galw am y gwasanaethau gan yr athrawon hynny nad oeddynt wedi ymwneud â'r ddarpariaeth.

7.52 Er bod y staff rheoli strategol yn llai hyderus, roedd Cydlynwyr y Rhwydweithiau a staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor y Celfyddydau yn hyderus y câi etifeddiaeth y gweithgarwch ei sicrhau wedi'r cyllido.

- Hawlia staff y rhwydweithiau fod y perthnasoedd rhwng athrawon, a rhwng athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau, wedi'u sefydlu ac y byddant yn parhau
- Mae'r cysyniad o ysgolion yn gweithio gydag ymarferwyr y celfyddydau i addysgu disgyblion yn cael ei sefydlu a'i ymgorffori ym marn staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor y Celfyddydau
- Bydd platfformau ar-lein a sefydlwyd gan y rhwydweithiau hefyd yn parhau os cânt eu cynnal a'u diweddaru.

7.53 Fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod etifeddiaeth ehangach yn dal i fod yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef a chael eglurhad arno. Mae pryderon ynglŷn â chyfraniad ac etifeddiaeth y rhwydweithiau yn y pen draw yn parhau ac eir i'r afael â hwy yn yr adroddiad hwn.

7.54 Mae staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, rhai staff rheoli strategol a staff rhwydwaith oll, yn annibynnol ar ei gilydd, wedi dod i'r farn, serch hynny, y daw i'r amlwg bod cynorthwyo newid i'r cwricwlwm yn gyfraniad ac etifeddiaeth allweddol i'r rhwydweithiau. Gallai mynd i'r afael ag Argymhelliad 5 roi eglurder i'r mater hwn a datgan uchelgais clir o etifeddiaeth ar gyfer Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg.

*Pencampwyr y Celfyddydau*

7.55 Ar adeg cynnal y gwaith maes, mynegodd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru bryder ynglŷn â Phencampwyr y Celfyddydau. Mae ansicrwydd ac amrywiaeth ynglŷn â'u rôl sy'n deillio o gylch gwaith agored wedi golygu diffyg eglurder ynglŷn a'u hunion rôl a chyfrifoldebau.

Cynhaliwyd trafodaethau pellach ers cynnal y gwaith maes, a chaiff y rhain eu harchwilio yn adroddiadau'r dyfodol.

7.56 Mae amrywiaeth rhwng y rhwydweithiau o ran profiad blaenorol a rolau Pencampwyr y Celfyddydau. Yn aml athrawon ydynt sydd ag arbenigedd neu brofiad penodol yn un o bynciau'r celfyddydau mynegiannol. Mewn achosion eraill, artistiaid neu Ymarferwyr Creadigol ydynt. Mae'r adroddiad hwn hefyd wedi cyflwyno trosolwg o'r rôl ddeuol y mae Pencampwyr y Celfyddydau yn ei chwarae yn ymarferol.

7.57 Yn gyntaf, mae Pencampwyr y Celfyddydau yn gweithredu fel ffynonellau pwysig o wybodaeth 'ar lawr gwlad' i Gydlynwyr y Rhwydweithiau. Mae Pencampwyr y Celfyddydau yn bwydo i mewn i ddatblygu a chyflawni darpariaeth ddigonol gan y rhwydweithiau yn eu rhanbarth. Fel a nodwyd yn flaenorol, nododd Cydlynwyr y Rhwydweithiau rôl bellach o fwydo gwybodaeth yn ôl i reolwyr Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

7.58 Yn ail, mae Pencampwyr y Celfyddydau yn cynorthwyo athrawon ac ysgolion mewn tair ffordd:

- fel brocwyr arferion da ac arbenigedd yn y rhanbarth ac ymysg athrawon ac ysgolion
- fel cynghorwyr neu fentoriaid i ysgolion, adrannau neu athrawon unigol; maent yn cynorthwyo a datblygu darpariaeth y celfyddydau creadigol
- cynnig cymorth mewn perthynas â goblygiadau addysgegol y cwricwlwm a ysbrydolwyd gan Ddyfodol Llwyddiannus.

7.59 Serch hynny, er derbyn adborth cadarnhaol iawn drwy arolwg yr Athrawon a'r Artistiaid, mynegodd Pencampwyr y Celfyddydau bryderon ynglŷn â'u cyrhaeddiad. Mae anhawster cyrraedd athrawon ac ysgolion 'nad ydynt yn deall bod angen cymorth arnynt' yn clymu i mewn â phryder cyffredin ar draws y meysydd y mae Argymhelliad 2 yn ceisio mynd i'r afael ag ef, sef bod yr ysgolion a'r athrawon sy'n ymwneud â Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau eisoes yn arloesol a chreadigol eu meddylfryd ac mae cyfran o ysgolion ac athrawon heb gael eu cyrraedd gan unrhyw agwedd ar ddarpariaeth Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

7.60 **Argymhelliad 8: Mynegwyd pryderon ynglŷn â chyrhaeddiad Pencampwyr y Celfyddydau ac nad yw rhai ysgolion ac athrawon yn elwa o'u gwasanaethau. Caiff ei argymell y dylid archwilio cyfleoedd i ymestyn cyrhaeddiad Pencampwyr y Celfyddydau. Gallai'r cyfleoedd hyn gael eu nodi yn dilyn yr ymarferiad mapio a amlinellir yn Argymhelliad 2.**

*Cronfa Profi'r Celfyddydau*

7.61 Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau yn parhau i ddenu digon o geisiadau i wario ei chyllideb. Siaradodd staff rheoli'r rhaglen yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd am dderbyn mwy o geisiadau nag y gallent eu hariannu, gan awgrymu bod y gronfa'n boblogaidd a bod galw amdani.

7.62 Rhoddwyd newidiadau ar waith i gronfa Cydweithio Creadigol eleni; serch hynny, nid oes data ar gael hyd yma a fydd yn caniatáu gwerthuso'r newid. Bydd y cwestiwn allweddol yn ymwneud â'r rhesymau am ymgeisio am y grant 'blasu' newydd.

7.63 Roedd yr ymatebion i'r arolwg gan athrawon (am iddynt dderbyn ac ymateb i'r arolwg) a oedd eisoes yn meddu ar rywfaint o wybodaeth am raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn awgrymu bod llai na hanner (n=83) yn ymwybodol o Gronfa Profi'r Celfyddydau. Awgryma hyn yn gyntaf y gallai'r gronfa gael ei hyrwyddo'n ehangach. Yn ail, awgryma fod posibilrwydd unwaith eto mai'r 'rhai arferol' yw'r ysgolion a'r athrawon sy'n elwa ac yn ymgeisio am agwedd ar ddarpariaeth Dysgu Creadigol drwy'r celfyddydau, sef yr ysgolion a'r unigolion ymgysylltiol, arloesol neu greadigol. Mae Argymhelliad 2 yn ceisio darparu eglurder ar y mater hwn drwy awgrymu y dylid cynnal ymarferiad mapio.

**Y Parth Dysgu Creadigol**

7.64 Nododd staff rheoli yn Llywodraeth Cymru yr aethpwyd i'r afael â materion technegol ar y platfform. Fodd bynnag, roedd yr athrawon mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws yn parhau i gwyno am anawsterau mewngofnodi a hygyrchedd. Awgryma hyn fod gan athrawon gamddealltwriaeth o'r platfform

neu bod materion technegol yn parhau heb yn wybod i'r staff rheoli yn Llywodraeth Cymru.

7.65 Mae disgwyliadau'r athrawon ynglŷn â'r platfform yn gwrthdaro â chylch gwaith creiddiol y Parth Dysgu Creadigol, sef ei fod yn blatfform ar gyfer cynnwys, nid gofod ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol.

7.66 Cymhlethir y materion hyn gan dwf platfformau'r sector preifat sy'n hwyluso rhwydweithio cymdeithasol yn ogystal â darparu adnoddau. Mae platfformau fel Facebook a Google Scholar yn parhau i addasu a newid ar raddfa gyflym er mwyn ateb gofynion athrawon. Ymhellach, mae Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg wedi comisiynu eu platfformau eu hunain, ac mewn un achos wedi comisiynu ap i ddarparu darpariaeth debyg a gwell i athrawon.

7.67 Yn y pen draw, mae platfform a ddioddefodd niwed i'w enw da yn wynebu cystadleuaeth gan blatfformau preifat a sefydledig a chan blatfformau a ddatblygwyd gan gydrannau o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Er nad oes data ar gael er mwyn cymharu neu dracio tueddiadau dros amser, y mae'n debygol bod y Parth Dysgu Creadigol yn wynebu her gan blatfformau eraill i ddefnyddwyr.

7.68 Serch hynny, un o gryfderau allweddol y Parth Dysgu Creadigol yw'r canfyddiad ohono gan athrawon ei fod yn ffynhonnell o ansawdd wedi'i ddilysu a'i sicrhau.

7.69 **Argymhelliad 9: O ystyried yr anawsterau sy'n parhau a allai fod yn dechnegol neu'n ymwneud ag enw da a chanfyddiad, argymhellir y dylid archwilio i opsiynau pellach ar gyfer gwella dealltwriaeth athrawon o rôl a swyddogaeth y Parth Dysgu Creadigol.**

## Atodiad 1: Mwy o fanylion ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)

### Y broses ymgeisio

Mae'r ysgolion sy'n ymgeisio i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi materion allweddol y maent yn dymuno mynd i'r afael â hwy drwy ymagwedd greadigol at ddysgu. Er enghraifft, gallai ysgol uwchradd ddewis mynd i'r afael â chyrhaeddiad isel mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau i ymgysylltu â dysgwyr a'u hysgogi. Efallai y byddai ysgol gynradd yn dymuno datblygu dulliau arloesol, trawsgwricwlaidd i hybu sgiliau llythrennedd.

Mae'r broses ddylunio a sicrwydd ansawdd mewn perthynas â cheisiadau, dethol a recriwtio ysgolion yn hanfodol, gyda'r bwriad o sicrhau bod y materion a nodir gan yr ysgolion yn argyhoeddiadol ac yn cyd-fynd â nodau cyffredinol yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd. Caiff ceisiadau Ysgolion Creadigol Arweiniol gan ysgolion eu gwirio gan dimau rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru i wneud yn siŵr eu bod yn gymwys, a chaiff eu dangosyddion categoreiddio syml eu nodi i sicrhau y caiff dosbarthiad da o ysgolion eu rhoi ar y rhestr fer:

- Categoreiddiad cymorth yr ysgol[24]
- Canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- Nifer y disgyblion
- Ysgol cyfrwng Cymraeg a/neu ysgol wledig.

Caiff cyfarfod cymedroli rhanbarthol ei gynnal lle mae cynrychiolwyr y Consortia Addysg Rhanbarthol yn cwrdd â staff Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cymedroli'r gwaith o sgorio ac asesu ceisiadau lleol a defnyddio gwybodaeth bresennol yr ysgolion er mwyn argymell, neu gynghori yn erbyn, eu cynnwys yn yr Ysgolion Creadigol

[24] System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion – tair lefel: Grŵp Safonol 1–4 (1 = perfformiad cyffredinol da iawn a 4 = yr angen mwyaf am wella perfformiad), Capasiti Gwella A–D (A = y capasiti mwyaf i'w gwella eu hunain a D = y capasiti lleiaf i'w gwella eu hunain). Caiff y rhain wedyn eu cyfuno i roi categori cymorth i bob ysgol fel a ganlyn: Gwyrdd – ysgol effeithiol iawn – y cymorth lleiaf; Melyn – ysgol effeithiol; Oren – angen gwella; a Choch – angen gwella fwyaf – y cymorth mwyaf.

Arweiniol yn y cylch hwn. Caiff y penderfyniad terfynol ynglŷn â chynnig dyfarniad grant ei wneud yng nghyfarfod y Panel Cenedlaethol, lle gall amodau grant ychwanegol gael eu hargymell ar gyfer ceisiadau llwyddiannus. Mae'r Panel Cenedlaethol yn cynnwys cynghorwyr Llywodraeth Cymru a chynghorwyr allanol, yn ogystal â swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r meini prawf a geisir yng ngheisiadau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol fel a ganlyn:

- Ymrwymiad uwch reolwyr a'u gallu i ysgogi staff
- Tystiolaeth o'r dysgwyr yn chwarae eu rhan yn weithredol
- Tystiolaeth bod Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn greiddiol i weledigaeth yr ysgolion o flaenoriaethau eu cynllun gwella ysgol
- Tystiolaeth o gyfraniad i wella llythrennedd a rhifedd / lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- Capasiti i gyflawni.

Mae cyfarfod cymedroli'r Panel Cenedlaethol hefyd yn ceisio:

- Canfod cydbwysedd ar draws Cymru / y rhanbarthau
- Sicrhau gwasgariad da o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- Adlewyrchu anghenion ysgolion gwledig / cyfrwng Cymraeg
- Edrych ar y flaenoriaeth a gaiff ei rhoi i ysgolion sy'n wynebu heriau sylweddol.

**Gweithredu**

Caiff 'Asiant Creadigol' wedi'i hyfforddi'n arbennig ei glustnodi ar gyfer ysgolion a gynorthwyir sy'n gweithio gyda'r ysgol er mwyn datblygu prosiect a fydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer yr ysgol. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio'r rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn. Ar y cam cynllunio hwn, caiff gweithgarwch ac Ymarferwyr Creadigol eu nodi a chyflwynir Ffurflen Gynllunio i'w chymeradwyo gan staff rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Caiff gweithgarwch dysgu creadigol yr ystafell ddosbarth rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r 'Ymarferydd Creadigol' ei gynnal yn ystod tymor y gwanwyn, a chaiff gwerthusiad myfyriol mewnol o'r gweithgaredd ei gynnal yn nhymor yr haf. Caiff yr ysgolion eu cynorthwyo am

ddwy flynedd, gyda strwythur yr ail flwyddyn yr un â strwythur y flwyddyn gyntaf, a chyda'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau wedi'u cyfarwyddo gan yr hyn a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf.

Caiff Asiantau Creadigol eu recriwtio gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a'u contractio iddynt, a chaiff Ymarferwyr Creadigol eu nodi gan Asiantau Creadigol ac ysgolion a'u contractio'n uniongyrchol gan yr ysgol drwy ddyfarniad grant Ysgolion Creadigol Arweiniol. Darparodd Cyngor Celfyddydau Cymru restr wedi'i chydgrynhoi o Ymarferwyr Creadigol arfaethedig o blith unigolion neu sefydliadau sydd wedi cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb. Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn ardystio nac yn asesu'r Mynegiannau o Ddiddordeb hyn. Nid oes rheidrwydd ar yr ysgolion i ddewis o'r Gofrestr Diddordeb hon ond caiff ei darparu fel offeryn i'w helpu.

Dywedir bod athrawon yn ganolog i'r cynllun, gan bartneru ag Ymarferwyr Creadigol i ddylunio a chyflawni dulliau newydd a myfyrio ar eu harferion. Yn sgil hyn, disgwylir y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo ac y bydd gwelliant/newid mewn dulliau addysgu o ran eu harferion eu hunain yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r arfer hon o fod athrawon yn ymwneud ar lefel ddofn yn ystod y cyfnodau cyflawni hefyd wedi'i dylunio i sicrhau bod ganddynt synnwyr o berchnogaeth i'w helpu i fagu hyder wrth gyflwyno'r celfyddydau a sgiliau creadigol newydd.

Er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cymryd perchnogaeth o'r broses wella, disgwylir y bydd y rhaglen hefyd yn cael ei hymwreiddio yn y Cynllun Gwella Ysgol, gan gytuno ar feini prawf meincnodi a chasglu data er mwyn cyflwyno tystiolaeth o'r effaith.

Gan y bydd artistiaid profiadol, yn gweithio fel Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol, yn weithredol wrth gyflawni'r rhaglen, disgwylir y bydd o ansawdd uchel gan sicrhau fod sgiliau/priodoleddau creadigol yn sbarduno newid. Serch hynny, bydd prosesau recriwtio a chynefino effeithiol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y bydd ansawdd yr artistiaid a'r Ymarferwyr Creadigol yn ddigon uchel i ychwanegu gwerth i brosiectau a modelu'r priodoleddau a'r sgiliau creadigol y mae'r rhaglen yn ceisio eu meithrin.

Caiff yr ysgolion sy'n cymryd rhan eu cynorthwyo am o leiaf ddwy flynedd i gyflawni gwelliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr; y disgwyl yw y bydd

newidiadau yn cael eu hymwreiddio mewn arferion addysgu er mwyn creu effaith gynaliadwy. Dywedir bod cefnogaeth uwch reolwyr i ymwreiddio’r ymyriad mewn polisi gwella ysgol gyfan yn allweddol i lwyddiant yr ymyriad.

Am y bydd disgwyliad clir wedi bod o’r cychwyn cyntaf y bydd athrawon yn rhannu’r wybodaeth, y sgiliau a’r profiad a gânt o’r cynllun, oddi mewn i’w hysgol a chydag ysgolion eraill, disgwylir y bydd cryn lawer o effaith goferu, gan helpu i wella ansawdd yr addysgu creadigol oddi mewn i ysgolion a rhwng ysgolion.

## Atodiad 2:

Fel a nodwyd ym Mhennod 3, datblygwyd yr holiadur (hunan-)effeithiolrwydd er mwyn casglu data meintiol ynglŷn â chanlyniadau effeithiolrwydd yr ymyriadau i'r disgyblion. Gofynnwyd i'r disgyblion ymateb i gyfres o osodiadau mewn holiadur cyn yr ymyriad, ac wedyn ymateb i'r un gosodiadau mewn holiadur ar ôl yr ymyriad. O'u cyfuno, mae'r canlyniadau'n dangos p'un a yw gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y disgyblion mewn perthynas â'r gosodiadau.

Nid oedd y sampl o 51 a oedd ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn yn cael eu hystyried yn gynrychioliadol o'r rhaglen, gan gyfyngu ar y casgliadau y mae modd dod iddynt a'r cyffredinoliadau y mae modd eu gwneud ar sail y data. Serch hynny, caiff y data ei drafod a'i ddadansoddi fan hyn fel ffordd i amlinellu canfyddiadau a ddaw i'r amlwg drwy'r offeryn. Fodd bynnag, ni ddylid cyffredinoli'r canfyddiadau na'u cymryd i fod yn gynrychioliadol o'r cynllun ar y cam hwn.

Mae'r tablau isod yn dangos canran y disgyblion a nododd newid negyddol, newid cadarnhaol neu ddim newid mewn ymateb i'r gosodiadau. Mae'r tablau hefyd yn nodi p'un a yw'r dysgwyr o'r farn bod gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, fel cyfanswm, wedi cael effaith net gadarnhaol neu negyddol ar effeithiolrwydd y disgyblion. Mae'r golofn olaf hon, ynghyd â'r gosodiadau eu hunain, wedi'u lliwio'n wyrdd neu goch. Mae gwyrdd yn dynodi gosodiad cadarnhaol a sgôr net 'da' (cytuno â gosodiadau cadarnhaol neu anghytuno â gosodiadau negyddol). Mae coch yn dynodi gosodiad negyddol a sgôr net 'gwael' (anghytuno â gosodiad cadarnhaol neu gytuno â gosodiad negyddol).

Mae Ffigur 8.1 isod yn amlinellu canfyddiadau'r disgyblion eu hunain ynglŷn ag effaith gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar y gwaith a wnaed yn yr ystafell ddosbarth. Yn gyffredinol, mae'r data'n awgrymu ychydig o effaith gadarnhaol mewn rhai achosion ac ychydig o effaith negyddol mewn achosion eraill. Fodd bynnag, canfyddiad mwyafrif y disgyblion oedd na fu newid mewn perthynas â'r gosodiad.

Roedd gostyngiad nodedig yn nifer y disgyblion a oedd o'r farn bod y gwaith dosbarth yn rhy anodd, ac roedd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gwneud ymdrech yn eu gwaith ac yn teimlo elfen o reolaeth dros eu dysgu. Mae'r rhan olaf hon yn benodol o berthnasol i'r model addysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl a gyflwynir yn nogfen Dyfodol Llwyddiannus. Serch hynny, gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion a deimlai'n bryderus wrth weithio.

Er bod tuedd i ddysgwyr nodi newidiadau cadarnhaol net yn gyffredinol, fel a nodwyd ym mhob achos ac eithrio dau, canfyddiad mwyafrif y disgyblion oedd na fu newid. Mae'r data sy'n codi o'r offeryn yn awgrymu na chafodd gweithgarwch Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau effaith ar les mwyafrif y disgyblion. O ystyried maint bach y sampl, ni ddylid cyffredinoli'r canfyddiadau na'u hystyried yn gynrychioliadol o'r cynllun ar y cam hwn.

**Ffigur 8.1: Beth ydw i'n ei feddwl am y gwaith rydyn ni'n ei wneud – Blynyddoedd Ysgol 3 a 4**

| | Newid negyddol | Dim newid | Newid cadarnhaol | Sgôr gadarnhaol net: |
|---|---|---|---|---|
| Gallaf ddewis sut ydw i'n gwneud gweithgareddau | 20% | 47% | 33% | 14% |
| Rwy'n bryderus pan rwy'n gweithio | 16% | 57% | 27% | 12% |
| Rwy'n gwneud llawer o ymdrech yn fy ngwaith | 8% | 73% | 20% | 12% |
| Mae'r gwaith a wnawn yn hwyl | 18% | 59% | 24% | 6% |
| Rwy'n hapus i siarad am fy ngwaith gydag athrawon | 27% | 41% | 31% | 4% |
| Rwy'n cael dysgu pethau diddorol | 20% | 61% | 20% | 0% |
| Mae plant eraill yn gwrando ar fy syniadau | 24% | 55% | 22% | -2% |
| Mae'r gwaith yn rhy anodd i mi | 35% | 51% | 14% | -22% |

N=51

7.70 Mae'r data sy'n codi o'r offeryn, ac a gyflwynir yn Ffigur 8.2, hefyd yn awgrymu, er rhai achosion o ychydig o effaith gadarnhaol neu negyddol, na chafodd gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol effaith ar sut mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo amdanynt eu hunain yn yr ysgol.

**Ffigur 8.2: Sut ydw i'n teimlo amdanaf fy hun yn yr ysgol – Blynyddoedd 3 a 4**

| | Newid negyddol | Dim newid | Newid cadarnhaol | Sgôr gadarnhaol net: |
|---|---|---|---|---|
| Dwi'n teimlo bod pobl yn sylwi arnaf | 20% | 39% | 41% | 22% |
| Dwi'n teimlo bod pobl yn gofalu amdanaf | 16% | 55% | 29% | 14% |
| Dwi'n teimlo'n ddigalon | 12% | 67% | 22% | 10% |
| Dwi'n teimlo'n hyderus | 10% | 71% | 20% | 10% |
| Dwi'n teimlo bod llawer o bethau'n ymdrech go iawn | 22% | 47% | 31% | 10% |
| Dwi'n teimlo fy mod i'n gwneud yn dda | 18% | 57% | 25% | 8% |
| Dwi'n teimlo'n iach | 18% | 59% | 24% | 6% |
| Dwi'n teimlo'n dda amdanaf fy hun | 10% | 75% | 16% | 6% |
| Dwi'n teimlo'n hapus | 12% | 71% | 18% | 6% |
| Dwi'n teimlo fy mod yn cael fy nhrin yn deg | 16% | 63% | 22% | 6% |
| Dwi'n teimlo y gallaf i ddelio â phroblemau | 16% | 65% | 20% | 4% |
| Dwi'n teimlo wedi diflasu | 22% | 53% | 25% | 4% |
| Dwi'n teimlo'n bryderus | 25% | 47% | 27% | 2% |
| Dwi'n teimlo'n unig | 20% | 59% | 22% | 2% |
| Dwi'n teimlo bod gen i lawer o egni | 20% | 61% | 20% | 0% |
| Dwi'n teimlo'n werthfawr | 25% | 51% | 24% | -2% |

| | Newid negyddol | Dim newid | Newid cadarnhaol | Sgôr gadarnhaol net: |
|---|---|---|---|---|
| Dwi'n teimlo'n gyffrous am lawer o bethau | 29% | 43% | 27% | -2% |
| Dwi'n teimlo bod llawer i edrych mlaen atyn nhw | 12% | 80% | 8% | -4% |
| Dwi'n teimlo fy mod i'n mwynhau pethau | 14% | 76% | 10% | -4% |
| Dwi'n teimlo'n ddiogel | 16% | 76% | 8% | -8% |
| Dwi'n teimlo bod pobl yn gyfeillgar | 27% | 53% | 20% | -8% |

N=51

7.71 Yn gyffredinol, byddai'r data sy'n codi yn awgrymu y byddai'n anodd creu cyswllt rhwng gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac unrhyw effaith sylweddol ar effeithiolrwydd y mwyafrif o'r dysgwyr. Fodd bynnag, mae maint bach y sampl yn cyfyngu ar y graddau y mae modd cyffredinoli'r data, ac ar y cam hwn ni ddylid ei ystyried yn gynrychioliadol o'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae'r cyfyngiadau ar y graddau y mae modd cyffredinoli'r data yn cael eu hategu gan natur gyferbyniol y data ansoddol o'r astudiaethau achos. Mae'r data ansoddol, a gaiff ei archwilio ym Mhennod 3, yn awgrymu y cafodd yr ymyriad effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd y dysgwyr.

7.72 Er y bydd y data ansoddol o'r grwpiau ffocws gyda disgyblion yn cynnig rhywfaint o ddealltwriaeth o effaith gweithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar effeithiolrwydd disgyblion a'u hagweddau at yr ysgol a dysgu, bydd yr holiadur (hunan-)effeithiolrwydd hefyd yn cynhyrchu data a fydd yn helpu i werthuso effaith y rhaglen yn y cyd-destun hwn.

## Atodiad 3: Offer gwerthuso

The 5 Creative Habits of Mind/ Y 5 o Arferion Creadigol y Meddwl